
MILLER
Research Evaluation Consulting

Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen



Dyfed Powys | Gwydnwch Bwyd Sifil Civil Food Resilience

Cydnerthedd Bwyd Sifil Dyfed Powys

Adroddiad Terfynol

Partheriaeth Bwyd Lleol Dyfed Powys

Mai 2026

Bwyd Powys Food
Cultivate / I Gymunedau Tyfu – For Growing Communities
Pembrokeshire Local Food Partnership / Partneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro
PLANED
Partneriaeth Bwyd Ceredigion
MENTERA
Bwyd Sir Gâr Food
Social Farms & Gardens / Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru / Welsh Government

Cydnerthedd Bwyd Sifil Dyfed Powys: Adroddiad Terfynol

Nick Miller, Tom Bajjada, Scout Astley Jones, Nell Butler, Allesandra la Tour / Miller Research (UK) Ltd.

Rachel Tuckett, Ruth Stevenson, Joel Rawson / Canolfan y Dechnoleg Amgen

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Tom Bajjada
tom_@miller-research.co.uk

Rachel Tuckett
Rachel.tuckett@cat.org.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK
www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

Chwarel Llwyngwern, Machynlleth, Powys, SY20 9AZ, UK
www.cat.org.uk | +44(0)1654 705950 | @centre_alt_tech

Tabl cynnwys

Crynodeb Gweithredol i

1. Cyflwyniad 1

2. Methodoleg 4

3. Cydnerthedd System Bwyd – diffiniad a chysyniadau 12

4. Adolygiad o Lenyddiaeth 15

Dyfed Powys 21

5. Asesu cydnerthedd bwyd yn Nyfed Powys 29

Trosolwg sylfaenol o system fwyd Dyfed Powys 29
Cyflenwi 32
Galw 40
Llywodraethiant a pholisi 44
Cymunedol a chymdeithasol 50

6. Gweledigaeth y dyfodol ar gyfer system fwyd Dyfed Powys 55

Sut mae Dyfed Powys Cydnerth o ran Bwyd yn edrych? 55

7. Meysydd cyflawni ar gyfer Dyfed Powys cydnerth o ran bwyd 59

Canfyddiadau o Weithdai Cyfranogol 59
Tymor byr 60
Tymor canolig 62
Tymor hirach 65
Galluogwyr parhaus 70
Persbectif systemau 77
Crynodeb 78

8. 8. Argymhellion ar gyfer creu strategaeth cydnerthedd bwyd 79

9. Casgliad 82

Rhestr tablau

Tabl 4.1: Data ar ddefnydd tir amaethyddol ledled rhanbarth Dyfed Powys. Ffynhonnell: Ystadegau ardaloedd bach amaethyddol 2020 21
Tabl 4.2: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025) data ar gyfer Dyfed Powys. 23
Tabl 5.1: Mesuriadau RAG o ddangosyddion cydnerthedd bwyd ar gyfer rhanbarth Dyfed Powys. 30
Tabl 5.2: Cyfrifiadau cyflenwi yn erbyn galw ar gyfer Dyfed Powys, yn seiliedig ar Ganllaw Bwyta'n Dda y DU ar gyfer cymeriant bwyd a argymhellir ac o'i gymharu ag ystadegau cynhyrchu ar gyfer grwpiau bwyd gwahanol ar draws rhanbarth Dyfed Powys. 32
Tabl 5.3: Data gweithredwyr cadwyn gyflenwi ar gyfer rhanbarth Dyfed Powys a data cymaradwy ar gyfartaledd i'r DU, gan ddangos nifer o gynhyrchwyr fesul prosesydd 35
Tabl 5.4: Data ar ddefnydd tir (pori yn erbyn cnydau/garddwriaeth) ar draws rhanbarth Dyfed Powys. Ffynhonnell: Ystadegau ardaloedd bach amaethyddol 2020 37
Tabl 5.5: Amcangyfrifon o weithredwyr cadwyn fwyd fesul 100,000 o drigolion yn Nyfed Powys a chyfartaledd y DU. *Nid oedd data cymaradwy ar gyfer cyfanwerthwyr/manwerthwyr/dosbarthwyr ledled y DU ar gael. 38
Tabl 5.6. Lleoedd Blaenoriaeth ar gyfer data Bwyd i awdurdodau lleol Dyfed Powys, gan ddangos 4 o'r 7 dangosydd a ddefnyddir i gyfrifo'r mynegai. 43
Tabl 5.7: Data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025) ar barth 'mynediad at wasanaethau' ar gyfer awdurdodau lleol yn Nyfed Powys. 44

Rhestr ffigurau

Ffigur 5.1. Mapio gan randdeiliaid o'r dirwedd bwyd yn Nyfed Powys, wedi'i drefnu yn ôl cynhyrchu bwyd, prosesu a manwerthu, sefydliadau sector cyhoeddus a chymunedol. 31
Ffigur 5.2: Cynhyrchwyr bwyd ar draws rhanbarth Dyfed Powys fesul sector bwyd / math o gynnyrch. Ffynhonnell: Mapio GIS o weithredwyr cadwyn fwyd (Miller Research) 33
Ffigur 5.3: Mapio GIS o weithredwyr cadwyn fwyd fesul cynnyrch bwyd ar draws rhanbarth Dyfed Powys 34
Ffigur 5.4: Mapio GIS o weithredwyr cadwyn gyflenwi bwyd ar draws rhanbarth Dyfed Powys 36
Ffigur 5.5: Mapio rhanddeiliaid Dyfed Powys, gan ddangos cysylltiadau rhwng sefydliadau sector cyhoeddus a chymunedol, wedi'u cyfryngu gan partneriaethau Bwyd Lleol. 47
Ffigur 5.6: Mapio rhanddeiliaid Dyfed Powys, gan ddangos sefyliadau cymunedol 51
Ffigur 6.1: Nodweddion craidd dyfodol cydnerth o ran bwyd, fel yr amlinellir yn nogfennau polisi presennol y DU a Chymru, a gynhyrchwyd fel rhan o Faes Gwaith 1 55
Ffigur 6.2: Nodweddion Dyfed Powys cydnerth o ran bwyd; gweledigaethau cyfranogwyr Gweithdy 1 56
Ffigur 7.1: Chwech Amod o Newid Systemau. Ffynhonnell: Kania, J. et al (2018) Dyfroedd Newid Systemau 77
Ffigur 7.2. Crynodeb gweledol o ganfyddiadau'r gweithdy cyfranogol: meysydd cyflawni ar gyfer Dyfed Powys cydnerth o ran bwyd 78
Ffigur 8.1: Siart llif llywodraethiant a phrosesau 81

GLOSSARY

Testun termau

Acronym/Key word	Diffiniadn
CAT	Canolfan y Dechnoleg Amgen
GIS	Systemau Gwybodaeth Daearyddol
LFPs	Partneriaethau Bwyd Lleol
LRFs	Fforymau Cydnerthedd Lleol
PSBs	Byrddau Gwsasasnaeth Cyhoeddus
SPF	Cronfa Gyfoeth a Rennir hared Prosperity Fund
WG	Llywodraeth Cymru
WIMD	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

i. Mae system cydnerthedd bwyd wedi dod yn fater o barodrwydd sifil hollbwysig yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol. Mae blynyddoedd diweddar wedi dangos bregusrwydd cadwyni cyflenwi i dywydd eithafol, ansefydlogrwydd geowleidyddol, anwadalwch pris ynni, prinderau llafur, a phwysau costau byw. Mae'r risgiau hyn yn dwysáu, gan osod galwadau newydd ar weithredwyr lleol a rhanbarthol i sicrhau y gall poblogaethau gyrchu bwyd diogel, maethlon dan amgylchiadau arferol ac ar adegau o darfu.

ii. Yn erbyn y cefndir hwn, comisiynodd Partneriaethau Bwyd Lleol (LFPau) Dyfed Powys[1] Miller Research a'r Ganolfan Dechnoleg Amgen (CAT) i ddatblygu sylfaen dystiolaeth a mewnwelediadau ymarferol i ffurfio Strategaeth Gydnerthedd Bwyd y dyfodol i'r rhanbarth. Mae'r adroddiad hwn yn dwyn dau linyn o waith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ynghyd:

- Asesiad sylfaenol cynhwysfawr o gyflwr presennol system fwyd Dyfed Powys
- Cyfres o weithdai seiliedig ar le sy'n archwilio sut y byddai aelwydydd, cymunedau, gweithredwyr rhanbarthol a systemau cenedlaethol yn ymateb i darfiadau dwys a chronig ar fwyd.

Diffiniad a Chydrannau Cydnerthedd Bwyd

iii. Mae'r adroddiad yn mabwysiadu'r diffiniad gweithio canlynol:

> "Cydnerthedd bwyd yw capasiti system fwyd, ei sefydliadau, busnesau, a chymunedau i sicrhau mynediad dibynadwy at fwyd diogel, maethlon a fforddiadwy o dan amodau arferol yn ogystal â rhai y tarfwyd arnynt."

Prif ganfyddiadau o'r Sylfaen Dystiolaeth

iv. **Cydnerthedd Ochr Cyflenwi**: Mae gan Dyfed Powys gryfder sylweddol mewn cynhyrchu amaethyddol; yn enwedig grawnfwydydd, tatws, cig, llaeth ac wyau. Fodd bynnag, nid oes garddwriaeth ddigonol i ateb galw, mae cyfleusterau prosesu

[1] Bwyd Powys Food, Partneriaeth Bwyd Sir Gâr, Partneriaeth Bwyd Ceredigion a Phartneriaeth Bwyd Sir Benfro.

yn brin ac mae logisteg a gwasanaethau cymorth eraill yn cael eu caffael yn bennaf o'r tu allan i'r rhanbarth.

v. **Cydnerthedd Ochr Galw:** Mae'r rhanbarth wedi datblygu rhai cysylltiadau cryf rhwng caffael cyhoeddus a chyflenwyr rhanbarthol, gyda'r prosiect Llysiau Cymru mewn Ysgolion yn arddangos ymarfer gorau. Fodd bynnag, mae fforddiadwyedd bwyd yn parhau'n rhwystr sylweddol i aelwydydd incwm isel, y gall fod angen iddynt wario hyd at 70% o'u hincwm gwariadwy i gyflawni'r deiet Bwyta'n Dda, ac mae bod yn ynysig yng nghefn gwlad, cludiant gwael a phellter yn gwaethygu'r anghydraddoldebau.

vi. **Cydnerthedd Llywodraethiant a Pholisi**: Mae Partneriaethau Bwyd yn gweithredu fel cynullwyr ar draws sectorau cyhoeddus, cymunedol a gwirfoddol, tra bod awdurdodau lleol yn cynnwys bwyd mewn amrediad o strategaethau. Fodd bynnag, mae cyllido yn dameidiog yn gyffredinol ac yn dymor byr, mae cynllunio argyfwng bwyd yn fach iawn ac nid yw manwerthwyr cenedlaethol mawr yn cymryd rhan mewn trafodaethau.

vii. **Cydnerthedd Cymunedol a Chymdeithasol**: Mae gan Dyfed Powys ecosystem gyfoethog o brosiectau bwyd cymunedol ac mae cyfranogiad gwirfoddolwyr yn uchel. Mae Partneriaethau Bwyd Lleol yn cryfhau cydlynu ac ailaddrodd ymarfer da. Fodd bynnag, ymgysylltu cyfyngedig sydd â rhai grwpiau anodd eu cyrraedd a cholled gyffredinol o sgiliau tyfu, coginio a phrosesu.

Gweledigaeth ar gyfer Dyfed Powys Cydnerth o ran Bwyd

viii. Adnabu canlyniadau'r adolygiad polisi ac ymgysylltu cyfranogol weledigaeth gyffredin ar gyfer nodweddion cydnerthedd bwyd yn Nyfed Powys. Mae'r rhanbarth yn ceisio:

- Cyflenwad bwyd amrywiol, datganoledig, wedi'i addasu i'r hinsawdd.
- Cynhyrchu lleol cryf, yn enwedig garddwriaeth trwy brosesu rhanbarthol a hybiau dosbarthu.
- Cymunedau sydd â sgiliau, hyder a chapasiti i goginio, tyfu a chynorthwyo ei gilydd.
- System lywodraethiant lle mae bwyd yn cael ei drin fel seilwaith hanfodol, wedi'i gefnogi gan rolau eglur a buddsoddiad tymor hir.

Trawsnewid cyfiawn sy'n blaenoriaethu grwpiau agored i niwed, bywoliaethau cynaliadwy i gynhyrchwyr, a mynediad teg i bawb.

Meysydd cyflawni ar gyfer Dyfed Powys Cydnerth o ran Bwyd

Cafodd wyth maes cyflawni trosfwaol eu hadnabod o ddadansoddiad o ddata'r gweithdai oedd yn cymryd rhan: cynnig rhai prif feysydd ar gyfer gweithredu strategol:

1. **Uwchraddio Ymwybyddiaeth:** ymgysylltu â llywodraethiant	1.1 Normaleiddio sgyrsiau am gydnerthedd bwyd 1.2 Sefydlu strwythurau llywodraethiant ac arweinyddiaeth eglur ar gydnerthedd bwyd
2. **Adnabod Anghenion Bwyd:** blaenoriaethu grwpiau agored i niwed	2.1 Adnabod anghenion bwyd 2.2 Adnabod a blaenoriaethu grwpiau agored i niwed
3. **Mapio Asedau Bwyd:** deall cryfderau presennol	3.1 Mapio asedau bwyd
4. **Datblygu seilwaith:** adeiladu amrywiaeth	4.1 Datblygu seilwaith storio bwyd a phentyrau stoc i ateb anghenion blaenoriaeth a adnabyddir 4.2 Datblygu seilwaith cludo bwyd i'w ddefnyddio mewn ymateb i darfu ar fwyd 4.3 Datblygu seilwaith cefnogol (oddi ar y grid) 4.4 Datblygu seilwaith cyfathrebiadau argyfwng (cymdeithasol a corfforol)
5. **Paratoi Cynlluniau Gweithredol:** ar gyfer ymateb i darfu ar fwyd	5.1 Datblygu cynlluniau dosbarthu bwyd 5.2 Datblygu cynlluniau arlwyo torfol 5.3 Datblygu cynlluniau cyfathrebu argyfwng
6. **Uwchsgilio Pawb:** Grymuso â gwybodaeth a sgiliau	6.1 Datblygu sgiliau rheoli bwyd cryf 6.2 Datblygu sgiliau arlwyo cryf 6.3 Grymuso pobl i dyfu llysiau 6.4 Cyflawni newid sylweddol mewn llythrennedd systemau bwyd
7. **Cryfhau Systemau Bwyd Lleol**	7.1 Sicrhau cyflenwad bwyd lleol cydnerth 7.2 Cynorthwyo a datblygu cynhyrchwyr lleol a rhwydweithau cyflenwi.
8. **Ailgydbwyso Pŵer:** tuag at y bobl	8.1 Cynorthwyo a galluogi cynlluniau cymunedol 8.2 Adeiladu perthnasoedd ar draws ffiniau 8.3 Ymgysylltu â chorfforaethau a'u rheoleiddio

Argymhellion ar gyfer creu Strategaeth Cydnerthedd Bwyd

ix. Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r ymchwil bwrdd gwaith ac allbynnau gweithdai, mae'r adroddiad yn cynnig ymagwedd ddilyniannol at ddatblygu strategaeth gadarn ar gyfer cydnerthedd bwyd i'r rhanbarth:

1. Sefydlu Cyfeiriad Llywodraethiant ac Wedi'i Rannu: Cwblhau mecanwaith llywodraethaint rhanbarthol ar gyfer cydnerthedd bwyd a rolau, cylch gorchwyl, a chysylltiadau eglur at LRFau, PSBau, ALlau a LFPau.
2. Cytuno ar Flaenoriaethau: Mabwysiadu'r wyth maes cyflawni fel egwyddorion trefniadol. Cydgyfeirio gweithredoedd ar lefel siroedd o fewn fframwaith rhanbarthol cydlynol.
3. Adeiladu Cynlluniau Rhanbarthol Trwy Gymryd Rhan: Ymgynghori â chymunedau, cynhyrchwyr a chyrff cyhoeddus. Profi dichonolrwydd, risgiau arwyneb a mireinio gweithredoedd yn gydweithredol.
4. Dynodi Perchenogaeth Eglur: Adnabod cyrff arweiniol ar gyfer pob gweithred
(e.e. LFPau, Awdurdodau Lleol, grwpiau cymunedol, PSBau, rhwydweithiau rhanbarthol).
5. Rhoi Cynlluniau Gweithredu Ar Waith: Cyflawni ymyriadau wedi'u targedu i wella amrywiaeth cyflenwi seilwaith, cynllunio argyfwng, sgiliau a chapasiti cymunedol.
6. Cynnal Ymgysylltu Cyhoeddus: Parhau i gyfathrebu, ymwybyddiaeth ac ymestyn, adeiladu dealltwriaeth sifig a chyfrifoldeb ar y cyd.

Casgliad

x. Nid yw cydnerthedd bwyd yn ddewisol mwyach –mae'n hanfodol i barodrwydd sifil, llesiant economaidd ac iechyd cymunedol. Mae gan Dyfed Powys gryfderau sylweddol: gweithredwyr lleol ymrwymedig, treftadaeth amaethyddol gref, rhwydweithiau cymunedol bywiog a liferau caffael cyhoeddus cadarn. Ond mae gwendidau yn sylweddol ac yn tyfu: garddwriaeth gyfyngedig, capasiti prosesu tenau, pwysau fforddiadwyedd, mynediad anwastad, dibyniaeth ar wirfoddolwyr, a chynllunio argyfwng tameidiog.

xi. Mae'r adroddiadd hwn yn cynnig sylfaen gref ar gyfer gweithredu. Mae'n amlinellu nid yn unig y sylfaen dystiolaeth, ond gweledigaeth a rennir a llwybrau ymarferol sy'n adlewyrchu profiad ac arbenigedd byw cymunedau ledled Dyfed Powys. Gydag arweinyddiaeth gydlynol, buddsoddiad tymor hir ac ymrwymiad at gynhwysiant, gall y rhanbarth adeiladu system fwyd sy'n gallu gwrthsefyll siociau, addasu i newid tymor hir, a chefnogi llesiant pawb sy'n byw yma.

1. Cyflwyniad

Cefndir

1.1 Yn Nhachwedd 2025, comisiynodd Partneriaethau Bwyd Lleol (LFPau) Dyfed Powys[2] Miller Research a'r Ganolfan Dechnoleg Amgen (CAT) i gyflawni ymchwil i gynorthwyo a ffurfio datblygiad Strategaeth Cydnerthedd Bwyd i ranbarth Dyfed Powys. Ffurfiodd y darn hwn o waith gyfres ehangach o weithgareddau sy'n gysylltiedig â phrosiect Cydnerthedd Bwyd Sifil Dyfed Powys.

1.2 Mae'n dod ar adeg lle mae cydnerthedd bwyd wedi codi fel mater o barodrwydd sifil hollbwysig yng Nghymru a'r DU. Mae datblygiadau mewn blynyddoedd diweddar wedi amlygu bregusrwydd systemau bwyd presennol i amrediad o siociau a straeniau, fel digwyddiadau tywydd eithafol, wedi'u gwaethygu'n barhaus gan newid yn yr hinsawdd; ansefydlogrwydd geowleidyddol, wedi'i achosi gan ryfel a thariffau; anwadalwch pris ynni a pharhad yr argyfwng costau byw, i enwi ychydig yn unig. Disgwylir i'r risgiau hyn ddwysáu. Felly, mae'n rhaid i fwyd gael ei drin fel cydran graidd o gynaliadwyedd amgylcheddol, cyfiawnder cymdeithasol, iechyd cyhoeddus a chydnerthedd cymunedol.

1.3 Yn erbyn y cefndir hwn, pwrpas yr ymchwil hwn oedd darparu sylfaen dystiolaeth gadarn, wedi'i seilio mewn dadansoddi ansoddol yn ogystal â mewnwelediadau rhanddeiliaid, i ffurfio penderfyniadau cyrff allweddol i sicrhau y gall pobl ledled Dyfed Powys gyrchu bwyd diogel, maethlon a fforddiadwy o dan amodau 'arferol' a rhai y tarfwyd arnynt. Ceisiodd ganolbwyntio ar gynllunio ymateb i argyfwng tymor byr yn ogystal ag ymagwedd system gyfan, meddwl am y dyfodol, gydag uchelgais i ddeall sut mae'r system fwyd ranbarthol yn gweithio ar hyn o bryd –ble mae'n gydnerth a ble mae'n fregus – a sut y gallai gael ei chryfhau dros amser trwy weithredu cydlynol ar draws cadwyni cyflenwi strwythurau llywodraethiant a chymuneduau.

[2] Mae rhanbarth Dyfed Powys yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Sir Gâr, Ceredigion, Sir Penfro a Phowys.

Cwmpas a strwythur

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn dwyn canfyddiadau'r ymchwil a gyflawnwyd fel dau linyn oedd yn cyd-fynd ynghyd:

- **Maes Gwaith 1 (WA1):** Canolbwyntiodd **tystiolaeth a dadansoddi** ar sefydlu dealltwriaeth sylfaenol o gydnerthedd bwyd yn Nyfed Powys. Y nod oedd asesu cryfderau, gwendidau a bylchau presennol ar draws y system fwyd.
- **Maes Gwaith 2 (WA2):** Adeiladodd **datblygiad senario cyfranogol** ar y sylfaen dystiolaeth hon trwy ymgysylltu ar sail lle â rhanddeiliaid ledled y rhanbarth. Gan ddefnyddiio set o senarios tarfu ar fwyd posibl, archwiliodd y gwaith sut y gallai gweithredwyr gwahanol ar lefelau gwahanol ymateb yn ymarferol, gan adnabod rolau a chyfrifoldebau a chyfleoedd sy'n codi ar gyfer gweithredu lliniaru, addasu a chasgliadol.

1.5 Gyda'i gilydd, darparodd y llinynnau hyn asesiad dadansoddol o'r system bresennol ac archwiliad yn edrych ymlaen ar sut y gallai cydnerthedd gael ei gryfhau dros amser, tra hefyd yn cychwyn deialog traws-sector trwy broses yr ymchwil ei hun.

Strwythur yr Adroddiad

1.6 Mae strwythur gweddill yr ardroddiad fel a ganlyn:

- Mae adran 2 yn manylu ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer WA1 a WA2 yn eu tro, ochr yn ochr â'r heriau ymchwil y daethpwyd ar eu traws
- Mae adran 3 yn amlinellu'r diffiniad ymarferol o gydnerthedd bwyd a ddefnyddiwyd trwy gydol yr ymchwil hwn, yn ogystal â pha gydrannau sy'n gwneud system fwyd gydnerth
- Mae adran 4 yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth, gan gynnwys y cysyniadau o gydnerthedd system fwyd, y dirwedd bolisi bresennol a'r cyd-destun i Ddyfed Powys fel rhanbarth
- Mae adran 5 yn asesu cyflwr presennol cydnerthedd bwyd yn Nyfed Powys
- Mae adran 6 yn amlinellu gweledigaeth y dyfodol i Ddyfed Powys cydnerth o ran bwyd.
- Mae adran 7 yn amlinellu'r meysydd cyflawni a awgrymir ar gyfer cyflawni cydnerthedd bwyd yn y rhanbarth

- Mae adran 8 yn darparu argymhellion yn ymwneud â chynllunio a gweithredu Strategaeth Gydnerthedd Bwyd Dyfed Powys.

2. Methodoleg

Trosolwg o ymagwedd

2.1 Cafodd y fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr ymchwil hwn ei chynllunio i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn a dealltwriaeth ymarferol o sut y gallai'r system fwyd yn Nyfed Powys ymateb o dan amodau o darfu. Cafodd ymagwedd o ddulliau cymysg ei defnyddio, gan gyfuno dulliau meintiol ac ansoddol, dadansoddi ar sail systemau ac ymgysylltu cyfranogol. Galluogodd hyn ddal nodweddion strwythurol y system fwyd yn y rhanbarth, ochr yn ochr â phrofiadau byw, rhyngberthnasoedd a dynameg gwneud penderfyniadau gan randdeiliaid mewn cymunedau 'ar lawr gwlad'.

2.2 Fel yr amlinellwyd yn yr adran flaenorol, cafodd y gwaith ei gyflawni mewn dau linyn. Cafodd WA1 ei arwain gan Miller Research, a WA2 yn cael ei arwain gan CAT. Cafodd y meysydd gwaith hyn eu cynllunio i fod yn ailadroddol ac yn atgyfnerthu ei gilydd, gyda chanfyddiadau o'r dystiolaeth a cham dadansoddi (WA1) yn ffurfio cynllun gwaith senario cyfranogol yn WA2. Ymhellach, mae mewnweleddiadau o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn WA2 wedi bwydo yn ôl i mewn i'r asesiad cyffredinol o gydnerthedd.

Maes Gwaith 1: Tystiolaeth a Dadansoddi

2.3 Yn dilyn cyfarfod cychwynnol, cafodd **fframwaith ymchwil** ei ddatblygu i strwythuro dadansoddi dilynol. Wedi'i ffurfio gan fodelau academaidd ar gydnerthedd systemau bwyd, dogfennau polisi Llywodraeth Cymru a chategorïau risg LRF fel yr amlinellwyd yng Nghofrestr Risg Cymunedol Dyfed Powys,amlinellodd y fframwaith ddimensiynau allweddol o gydnerthedd bwyd (am ddadansoddiad llawn o'r fframwaith ymchwil gweler Atodiad A).Roedd y dimensiynau hyn yn cynnwys cydnerthedd ochr cyflenwi (cynhyrchu, prosesu, storio a logisteg),cydnerthedd ochr galw (fforddiadwyedd, mynediad a deiet), llywodraethiant a pholisi, a chydnerthedd cymunedol a chymdeithasol.

2.4 Gyda'r fframwaith ymchwil wedi'i gwblhau ymgymerwyd ag **adolygiad bwrdd gwaith** cynhwysfawr, gan dynnu ar ddogfennau polisi, llenyddiaeth academaidd a llwyd, setiau data ar gael yn gyhoeddus ac ymchwil presennol. Cafodd data meintiol eu dadansoddi i asesu patrymau o gynhyrchu, defnydd

tir, seilwaith cadwyn gyflenwi, anghenion caffael a phoblogaeth, tra cafodd ffynonellau ansoddol eu defnyddio i archwilio trefniadau llywodraethiant, strwythurau cyllido a gwendidau hysbys. Cafodd amcangyfrif o gyflenwi yn erbyn galw ei gyfrifo fel a ganlyn:

- Cafodd galw ei gyfrifo gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Dyfed Powys a chymeriant bwyd a argymhellir yn ôl Canllaw Bwyta'n Dda Llywodraeth y DU[3]
- Cafodd cyflenwi, neu gapapsiti cynhyrchu, ei amcangyfrif yn seiliedig ar setiau lluosog o ystadegau amaethyddol a'u dadansoddi yn unol ag adrannau bwyd y Plât Bwyta'n Dda'

2.5 Mae disgrifiad manylach o'r fethodoleg ar gyfer y cyfrifiad uchod i'w weld yn Atodiad B.

2.6 Lle'n bosibl, cafodd **mapio dadansoddi gofodol a Systemau Gwybodaeth Daearyddol (GIS)** eu defnyddio i weld asedau a bylchau system fwyd, gan gynnwys dosbarthu gan gynhyrchwyr, proseswyr, dosbarthwyr ledled rhanbarth Dyfed Powys. Helpodd hyn i adnabod crynodiadau daearyddol, mannau cyfyng ac ardaloedd o ddarpariaeth gyfyngedig. Roedd ffynonellau ar gyfer mapio GIS yn cynnwys: setiau data Asiantaeth Safonau Bwyd[4];Cyfeiriadur Bwyd a Diod Cymru Arloesedd bwyd yng Nghymru[5]; Astudiaeth Ddichonoldeb Miller Research ar Fodelau Logisteg Cynaliadwy o ddosbarthu bwyd yn Ne-orllewin Cymru[6];Rhwydwaith Bwyd Agoredf[7];Map bwyd lleol Big Barn[8]; Bannau Acres[9]; Love Buying British[10], a Map Bwyd Cultivate Powys[11].

2.7 Gellir gweld fersiwn ar-lein, rhyngweithiol o'r mapiau GIS yn ffigurau 5.3 a 5.4 yma.

[3] UK Government Eatwell Guide
[4] Asiantaeth Safonau Bwyd: Sefydliadau Bwyd Wedi'u Cymeradwyo yng Nghymru a Lloegr
[5] Arloesedd Bwyd Cymru: Cyfeiriadur Bwyd Cymru
[6] Miller Research (2021) Astudiaeth Ddichonoldeb ar Fodelau Logisteg Cynaliadwy o Ddosbarthu Bwyd yn Ne-orllewin Cymru
[7] Open Food Network Map
[8] Big Barn: Local Food Map
[9] Bannau Acres: Meet our Growers
[10] Love Buying British: Made in Wales
[11] Cultivate: Map Bwyd Powys

2.8 Cafodd data o fapio GIS ei ddefnyddio hefyd i greu cyfres o siartiau i greu darlun o weithredwyr cadwyni bwyd a'u cymharu ledled awdurdodau lleol (gweler Atodiad F am y gyfres lawn o siartiau a gynhyrchwyd o'r mapio GIS).

2.9 Yn gyfochrog â'r ymchwil bwrdd gwaith, ymgymerwyd ag ymarfer **mapio rhanddeiliaid** i adnabod gweithredwyr allweddol ar draws y system fwyd, gan rychwantu cyrff cyhoeddus, cynhyrchwyr, proseswyr, sefydliadau cymunedol, grwpiau gwirfoddol ac asiantaethau cymorth. Ffurfiodd y mapio hwn ymgysylltu ansoddol gwybodus wedi'i dargedu.

2.10 Cynhaliwyd **deg cyfweliad cwmpasu lled strwythurol** â sampl pwrpasol o randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr Partneriaethau Bwyd Lleol a gweithredwyr system eraill (gweler rhestr lawn o gydfranogwyr yn Atodiad C). Cafodd hyn ei ategu gan **weithdy ar-lein gyda chydlynwyr LFP** i brofi / mireinio canfyddiadau cychwynnol ymhellach. Cafodd y mewnwelediadau ansoddol hyn eu defnyddio i wirio-synhwyro canfyddiadau oedd yn codi, llenwi bylchau data, ac archwilio canfyddiadau o gydnerthedd, bregusrwydd a chyfle o bersbectifau gwahanol. Cafodd mewnwelediadau o gyfweliadau eu dadansoddi yn thematig a'u hintegreiddio â chanfyddiadau meintiol. Cafodd cyfres o 8 **astudiaeth achos** eu datblygu hefyd (gweler Atodiad D), yn amlygu enghreifftiau o ymarfer gorau ar draws meysydd gwahanol o'r system fwyd.

2.11 Cafodd canfyddiadau o'r ymchwil bwrdd gwaith ac ymgysylltu â rhanddeiliaid eu dwyn ynghyd i adnabod cryfderau, gwendidau a bylchau yn y system bresennol. Ffurfiodd hyn **ddadansoddiad SWOT** (gweler Atodiad E) yn erbyn senarios tarfu ar fwyd amrywiol, fel y'u diffiniwyd gan yr amserlenni risg (er enghraifft siociau tymor byr, argyfyngau tymor canolig a straeniau strwythurol tymor hwy). Gan ddilyn proses o ailadrodd ac ailfframio, ffurfiodd y senarios hyn fewnbwn allweddol i Faes Gwaith 2.

Maes Gwaith 2: Datblygu Senario Cyfranogol

Ymagwedd Ymchwil

2.12 Roedd **ymagwedd gydgynhyrchu** yn bwysig i gyflawni amcanion Maes Gwaith 2, a oedd:

- I gynnal senario profi a datblygu cymunedol seiliedig ar le
- I ddilysu data a gasglwyd trwy'r Pecyn Tystiolaeth a dadansoddi (Maes Gwaith 1)
- I hwyluso trafodaeth o ymatebion a datblygu lliniariadau gan weithredwyr allweddol o Ddyfed Powys

2.13 Mae cydgynhyrchu yn cydnabod bod gwybodaeth yn cael ei chreu trwy gydweithio, trwy unigolion yn dod â'u gwybodaeth a'u profiad i berthynas ag eraill ac yn cynhyrchu dealltwriaethau a gwybodaeth newydd yn y broses. Mae Labordy Arloesedd y Ganolfan Dechnoleg Amgen (CAT) (arwain ar gyfer Maes Gwaith 2) yn defnyddio cydgynhyrchu mewn cyfuniad ag ymagwedd systemau cyfan i sicrhau bod amrediad eang o bersbectifau yn cael eu dwyn i mewn i ddeialog ac yn galluogi cyfranogwyr i weld rhyng-gysylltiadau, ffurfio perthnasoedd newydd a gwneud synnwyr o'r system yn ei chyfanrwydd.

2.14 Gellir disgrifio Maes Gwaith 2 fel **ymchwil gweithredu cyfranogol**; Roedd y cyfranogwyr yn gydymchwilwyr gweithredol, ac roedd proses yr ymchwil ei hun yn weithred ar gyfer cynhyrchu newid, yn ogystal â chynhyrchu data.

Samplu

2.15 Yn unol â dull systemig, gwahoddwyd cyfranogwyr o bob rhan o'r system fwyd yn rhanbarth Dyfed Powys. Cynghorodd yr academydd systemau bwyd blaenllaw Tim Lang 18 categori lle dylem geisio cynrychiolaeth, er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y system fwyd a'r ddibyniaeth yn cael eu cynnwys. Gofynnwyd i Gydlynwyr Partneriaeth Bwyd Lleol ar gyfer pob un o'r pedair sir dan sylw awgrymu cyfranogwyr o fewn y 18 categori hyn, o'u siroedd. Roedd y dull samplu pwrpasol hwn yn sicrhau bod arbenigedd rhwydweithiau presennol yn cael ei ddefnyddio, ac roedd hefyd yn ddull cyflym, pragmataidd, angenrheidiol o ystyried yr amserlenni ymchwil.

2.16 Ategodd Lab Arloesi CAT hyn â dadansoddiad ychwanegol i sicrhau bod y rolau mwyaf perthnasol yn cael eu gwahodd, a samplu pêl eira, lle gofynnwyd i wahoddedigion cychwynnol gyfeirio cyfranogwyr posibl eraill. Defnyddiwyd dadansoddiad bwlch a samplu pwrpasol ychwanegol hefyd i wella cydbwysedd cynrychiolaeth ar draws y pedair sir, ac i ddod â gweithredwyr rhanbarthol a chenedlaethol i mewn.

Moeseg

2.17 Cafodd gweithdrefnau ymchwil moesegol eu dilyn drwyddi draw. Roedd gwahoddiadau yn cynnwys taflenni gwybodaeth i gyfranogwyr, yn amlinellu nodau'r prosiect, natur wirfoddol cyfranogiad, a'r hyn y byddai'n ei gynnwys. Ceisiwyd amrediad o ganiatâd fel rhan o'r ffurflen gofrestru ar-lein i sicrhau triniaeth briodol o ddata, ffilmio a ffotograffiaeth, a chyfranogiad cyffredinol. Darparwyd cronfa gyfranogiad i gefnogi cyfranogiad pobl y mae eu lleisiau yn aml ar goll wrth wneud penderfyniadau a pholisïau. Mae'r cyfranogwyr hyn yn dod â phrofiad byw gwerthfawr a mewnwelediad proffesiynol, ac mae'r materion sy'n cael eu trafod yn effeithio arnynt ac yn hanfodol i weithredu'r penderfyniadau a wneir.

Dulliau Casglu Data

2.18 Casglwyd data trwy ddau **weithdy cyfranogol** dilyniannol, y cyntaf ar-lein, yr ail yn y cnawd. Cynlluniwyd y gweithdai i adeiladu ar ymchwil presennol am gydnerthedd bwyd sifil – yn enwedig adroddiad 'Just In Case' Tim Lang[12] – yn ogystal â datblygu ymchwil rhanbarthol Maes Gwaith 1.

2.19 Cafodd y ddau weithdy eu hwyluso a'u cyflawni'n ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda chyfieithiadau ar y pryd ar gyfer cyfraniadau yn y Gymraeg.

2.20 Roedd **Gweithdy 1** yn weithdy ar-lein 3 awr a gynhaliwyd ar Zoom. Ar ôl rhywfaint o osodiad cychwynnol, canolbwyntiodd y gweithdy ar **gyflwr presennol** cydnerthedd bwyd yn Nyfred Powys (gan archwilio rhai o'r allbynnau o Faes Gwaith 1) a'r **weledigaeth ar gyfer y dyfodol** ar gyfer Dyfed Powys sy'n gydnerth o ran bwyd, gan ofyn i'r cyfranogwyr ymateb i

[12] Lang, T. Just in Case: 7 steps to narrow the UK civil food resilience gap - National Preparedness Commission

weledigaeth sy'n deillio o ddogfennau polisi a strategaeth presennol. Mae enghraifft o'r bwrdd Miro a ddefnyddiwyd yn ystod Gweithdy 1 i'w gweld yn Atodiad G.

2.21 Roedd **Gweithdy 2** yn weithdy diwrnod llawn yn y cnawd yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen. Roedd y bore yn canolbwyntio ar **siociau bwyd dwys**. Defnyddiwyd dull datblygu senario mewn pedair ystafell gyfarfod i archwilio ymatebion i senario esblygol ar bedair lefel gweithredwyr gwahanol: cartref, cymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cafodd pawb ymateb o safbwynt dwy lefel gweithredwyr gwahanol, y cyntaf wedi'i dyrannu'n ofalus i gyd-fynd â phrofiad byw y cyfranogwyr (cymaint â phosibl), a'r ail i sicrhau bod persbectif arall yn cael ei ystyried. Ysgogwyd meddwl am 4 maes gweithredu gwahanol a fyddai'n berthnasol mewn ymateb i darfu dwys ar fwyd

2.22 Roedd y prynhawn yn canolbwyntio ar faterion system fwyd **cronig**. Archwiliodd pedair ystafell gyfarfod bedwar maes gweithredu newydd sy'n berthnasol i heriau cronig. Rhannwyd y dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau) a gynhyrchwyd gan Faes Gwaith 1 â chyfranogwyr, fel ffordd i mewn i'r drafodaeth, ac yna cynhyrchwyd camau gweithredu, gan ymateb i'r sefyllfa bresennol. Gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried amserlenni ar gyfer gweithredu, yn ogystal â phwy allai fod yn berchen ar y camau a awgrymwyd.

Dulliau Dadansoddi Data

2.23 Trawsgrifiwyd data o Weithdy 2 i weithle gweledol cwmwl, felly roedd yr holl ddata yn cael eu cadw'n ddigidol. Defnyddiwyd dadansoddiad thematig anwythol i nodi 8 maes gweithredu allweddol ac ychydig o amcanion o dan bob un. Roedd y broses yn ailadroddol ac yn ddychweliadol, gyda'r drydedd rownd graidd o ddadansoddiad yn arwain at y fframwaith a nodir isod.

2.24 Cafodd lens systemau ei chymhwyso i ystyried mannau trosoli ar gyfer newid, ac adnabuwyd gwerthoedd ac agweddau galluogi yn ogystal.

Heriau ymchwil

2.25 Er bod y sylfaen dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymchwil hwn yn nodedig ac arwyddocaol, mae'n bwysig cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni a diffygion y gwaith hwn.

2.26 O ran Maes Gwaith 1, er gwaethaf ymdrechion i lenwi bylchau data coll, mae prinder gwybodaeth sydd ar gael o hyd i allu darparu sgorio RAG yn erbyn rhai is-feysydd yn y fframwaith ymchwil, megis dibyniaeth ar ynni, cludiant a logisteg a'r sylfaen wirfoddolwyr a sgiliau. Mae hyn am amrywiaeth o resymau, yn amrywio o'r diffyg data a gasglwyd ar lefel leol / rhanbarthol i'r anallu i siarad â'r rhanddeiliaid perthnasol sydd â gwybodaeth o'r fath, naill ai oherwydd eu diffyg argaeledd neu ddiffyg ymgysylltu â'r ymchwil. Gellir cymhwyso'r heriau hyn hefyd i fapiau GIS a mapio rhanddeiliaid, a oedd wedi'i gyfyngu gan argaeledd data eilaidd. Ataliodd darparu adnoddau a chyfyngiadau amser atal archwiliad ychwanegol i'r bylchau data hyn.

2.27 Yn ogystal, roedd amrywiaeth gweithredwyr a gweithgareddau system fwyd ar draws ffynonellau data yn gwneud cymariaethau uniongyrchol yn heriol. Er enghraifft, mae ystadegau amaethyddol cenedlaethol, cofrestrau busnes ac ymarferion mapio lleol yn defnyddio dosbarthiadau gwahanol ar gyfer cynhyrchwyr, proseswyr a busnesau bwyd. Pan ddefnyddiwyd amcangyfrifon neu ddangosyddion dirprwyol, bwriad y rhain oedd darparu darlun dangosol o gryfderau a gwendidau cymharol yn hytrach na mesuriadau diffiniol. 2.28

2.28 Yn olaf, er bod gofal wedi'i gymryd i gynnwys amrediad mor eang â phosibl o weithredwyr Maes Gwaith1, mae bylchau yn parhau, yn enwedig mewn perthynas â chadwyni cyflenwi masnachol ar raddfa fawr a rhai rhanddeiliaid sector preifat.

2.29 Mae'r cyfyngiadau hyn yn pwysleisio'r angen i drin y canfyddiadau o Faes Gwaith 1 fel llinell sylfaen gadarn, yn hytrach nag asesiad terfynol, cyflawn. Mae'r absenoldeb / anhawster i gael data penodol yn ganfyddiad ynddo'i hun ac yn tynnu sylw at werth datblygu, mapio a monitro data parhaus fel rhan o unrhyw strategaeth cydnerthedd bwyd yn y dyfodol.

2.30 O ran Maes Gwaith 2, roedd amserlenni cyffredinol y prosiect yn sbardun allweddol yn ein dull samplu, ac er ei fod yn effeithiol wrth ymgysylltu ag

amrediad eang o weithredwyr, nid oedd yn caniatáu amser i'r gwaith adeiladu ymddiriedaeth araf sydd ei angen i ddod â gweithredwyr sy'n fwy heriol i'w cyrraedd, fel manwerthwyr cenedlaethol.

2.31 Roedd amserlenni hefyd yn cyfyngu ar lefel y manylder y gallem fynd i mewn iddo yn ystod y gweithdai. Gyda dim ond 8 awr o amser gweithdy gyda chyfranogwyr a phwnc enfawr a chymhleth i'w archwilio, â llawer o ddimensiynau, roedd yn rhaid blaenoriaethu cynnwys. Roedd yn bwysig lleoli'r gweithdai mewn cyd-destun ehangach, yn ogystal ag ymgysylltu â'r data sylweddol o Faes Gwaith 1. O ystyried pwysigrwydd ymagwedd systemau cyfan, a'r awydd i ystyried siociau bwyd dwys a chronig, nid oedd gan y gweithdai le i dorri camau gweithredu ar lefel sir wrth sir. Serch hynny, mae'r allbynnau o Faes Gwaith 1 yn cynnig lens ar lefel sirol i ystyried allbynnau Maes Gwaith 2.

2.32 Mae'r cyfyngiadau hyn yn atgoffa o bwrpas yr ymchwil sef casglu tystiolaeth i lywio strategaeth cydnerthedd bwyd, yn hytrach na chynhyrchu'r strategaeth lawn ei hun. Dylid nodi hefyd bod ymchwil gweithredu cyfranogol bob amser yn cyflawni swyddogaeth ychwanegol uwchlaw a thu hwnt i gasglu data, sydd wrth gwrs yn ysgogi newid trwy union weithredu'r ymchwil. Er bod hwn yn ddarn cyflym o ymchwil gyda chyfyngiadau sylweddol y mae'n rhaid eu nodi wrth adolygu'r canfyddiadau, gobeithio hefyd bod yr ymchwil eisoes wedi creu sgyrsiau, cysylltiadau a diddordeb newydd pwysig yn y pwnc.

3. Cydnerthedd System Bwyd – diffiniad a chysyniadau

3.1 Cyn manylu ar ganfyddiadau'r adolygiad desg ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil hwn, mae'n bwysig egluro beth yn union yr ydym yn ei olygu wrth y term 'cydnerthedd bwyd'. Fel y cyfryw, mae'r adran ganlynol yn nodi diffiniad a gweledigaeth o gydnerthedd bwyd yr ydym wedi ymgysylltu ag ef at ddibenion yr astudiaeth hon. Mae'n cael ei lywio gan yr egwyddorion cyffredin, y blaenoriaethau a'r cyfeiriad yn y dyfodol fel y'u nodir gan Fframwaith Cydnerthedd Cenedlaethol y DU (2022), Strategaeth Bwyd Cymunedol Llywodraeth Cymru ac Adroddiad 'Just in Case' y Comisiwn Parodrwydd Cenedlaethol (NPC) (2025) – manylir ar bob un ohonynt ymhellach yn Adran 4.

Beth yw cydnerthedd bwyd?

3.2 Y diffiniad o gydnerthedd bwyd rydym wedi ei ddefnyddio trwy gydol yr ymchwil yw:

> "capasiti system fwyd, ei sefydliadau, busnesau, a chymunedau i sicrhau mynediad dibynadwy at fwyd diogel, maethlon a fforddiadwy o dan amodau arferol yn ogystal â rhai y tarfwyd arnynt".

3.3 Sylwch, rydym yn gwahaniaethu cydnerthedd bwyd oddi wrth ddiogelwch bwyd, sef y cyflwr lle mae gan bob person fynediad dibynadwy at fwyd digonol, diogel a maethlon. Diogelwch bwyd yw'r 'nod', ond cydnerthedd bwyd yw gallu'r system fwyd i gynnal diogelwch bwyd, hyd yn oed mewn amseroedd o sioc neu aflonyddwch.

3.4 Ymhellach, mae gan system fwyd gydnerth y gallu i wneud y canlynol:

- Rhagweld risgiau
  - Adnabod a deall gwendidau (mewn cadwyni cyflenwi, fforddiadwyedd, seilwaith, llywodraethiant, a chymunedau).
- Gwrthsefyll siociau
  - Cynnal llif bwyd hanfodol yn ystod argyfyngau fel tywydd eithafol, toriadau ynni, pandemigau, aflonyddwch geowleidyddol, codiadau prisiau, neu fethiannau yn y gadwyn gyflenwi.
  - Addasu ac adfer

Adfer gweithrediad yn gyflym ar ôl tarfu ac addasu i bwysau hirdymor fel newid yn yr hinsawdd, prinder llafur, ac anwadalrwydd economaidd.

  - Diogelu pobl, yn enwedig poblogaethau agored i niwed

- Sicrhau cydraddoldeb, cynhwysiant a thegwch mewn mynediad at fwyd, gan gydnabod bwyd fel angen dynol ac (mewn fframio NPC) blaenoriaeth cydnerthedd cenedlaethol.

Cydrannau craidd system fwyd gydnerth

3.5 Er mwyn ategu'r diffiniad gwaith hwn a'r priodoleddau hyn, gwnaethom hefyd amlinellu beth yw elfennau hanfodol system fwyd gydnerth, fel y'u llywiwyd a'u strwythuro gan y fframwaith ymchwil ei hun. Maen nhw wedi'u hamlinellu isod.

3.6 Mae system gyflenwi gydnerth yn:

- **Amrywiol** (mathau, graddfeydd, a lleoliadau cynhyrchu lluosog)
- **Llai canoledig** (prosesu rhanbarthol, storio oer, hybiau dosbarthu)
- **Bregusrwydd isel** (pŵer wrth gefn, llwybrau amgen, dibyniaeth ostyngol ar fewnforion/tanwyddau ffosil)
- **Addaswyd i'r hinsawdd** (iechyd pridd, rheoli dŵr, cnydau/da byw cydnerth).

3.7 Gall poblogaeth gydnerth:

- Gyrchu **bwyd fforddiadwy, maethlon**, beth bynnag y bo'r tarfu
- Tynnu ar **rwydi diogelwch cymunedol** (pantrïau, hybiau)
- Manteisio ar ecosystem manwerthu â **sianeli lluosog, hyblyg** (siopau lleol, marchnadoedd, dewisiadau amgen dosbarthu)
- Ymddiried mewn cyfathrebu a chymorth cyhoeddus eglur.

3.8 Mae system lywodraethiant gydnerth yn:

- Cydnabod bwyd fel seilwaith hanfodol
- Cynnwys bwyd mewn **cofrestrau risg** a chynllunio cydnerthedd (LRF, ALl, LIC)
- Buddsoddi mewn cymorth amlflwyddyn i ddatblygu seilwaith cadwyn gyflenwi ar lefel leol a rhanbarthol
- Defnyddio **data, mapio, a monitro** i adnabod gwendidau
- Cydlynu gweithgaredd rhwng llywodraethau lleol a chymdeithas sifil a'r sector breifat

3.9 Yn olaf, mae cymunedau yn ganolog i gydnerthedd pan fydd ganddynt:

- **Bartneriaethau lleol** a rhwydweithiau cymdeithasol cryf
- Capasiti gwirfoddolwyr uchel
- Tyfu bwyd, dosbarthu a **phrosiectau** cymorth **dan arweiniad y gymuned**
- **Sgiliau,** gwybodaeth, a pharodrwydd **a rennir**
- Cynhwysiant a chynrychiolaeth o grwpiau agored i niwed.

Sail resymegol

3.10 Trwy fanylu ar ddiffiniad a gweledigaeth weithredol ar gyfer cydnerthedd bwyd, rydym yn gobeithio creu dealltwriaeth gyffredin a naratif cydlynol i'r darllenydd wrth i ni gyfeirio'n barhaus at gydnerthedd bwyd trwy gydol yr adroddiad hwn. Mabwysiadwyd y dull hwn ar gyfer y gweithdai rhanddeiliaid ym Maes Gwaith 2, er mwyn sicrhau bod pawb 'ar yr un dudalen' yn ystod trafodaethau, a thrwy hynny yn osgoi'r posibilrwydd o unrhyw gamddealltwriaeth a chamddehongli canfyddiadau. Yn naturiol, roedd hyn yn rhybuddio gyda'r rhagair na allai pawb gytuno â'r diffiniad a'r weledigaeth hon, ac y dylid ei ystyried fel ffordd o hwyluso trafodaeth a dadl ar y pwnc hwn, yn hytrach na chyfyngu ar y cwmpas.

4. Adolygiad o Lenyddiaeth

4.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau ein hadolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth, sy'n syntheseiddio tystiolaeth ryngwladol, y DU a Chymru i nodi cryfderau, gwendidau a bylchau systemau bwyd. Helpodd y mewnwelediadau i lywio'r broses o ddatblygu senarios tarfu ar fwyd a'r asesiad dilynol o allu addasu ar draws Dyfed Powys.

Cysyniadau, materion a heriau cydnerthedd system fwyd

4.2 Mae systemau bwyd yn y DU ac yn rhyngwladol yn fwyfwy agored i ystod eang o siociau a straen, o eithafion hinsawdd ac anwadalrwydd ynni i argyfyngau geowleidyddol, pandemigau, a tharfu ar y farchnad. Mae ymchwil ar gydnerthedd system fwyd wedi ehangu'n gyflym mewn ymateb, ond mae'n parhau i fod yn dameidiog ar draws disgyblaethau a graddfeydd, gan dynnu sylw at yr angen am ddulliau integredig sy'n symud y tu hwnt i ymateb tymor byr neu sectorol).[13] Yn ei hanfod, gellir deall cydnerthedd fel y gallu i gynnal mynediad dibynadwy at fwyd diogel, maethlon a fforddiadwy o dan amodau arferol a rhai yr amharwyd arnynt, wrth addasu i bwysau strwythurol hirdymor (gweler Adran 3). Mae dimensiynau allweddol cydnerthedd yn cynnwys cadernid (gwrthsefyll siociau), adferiad (adfer swyddogaeth ar ôl tarfu), ac ailgyfeirio (addasu i newid tymor hwy).[14]

4.3 Mae canfyddiadau'r adolygiad yn datgelu bod systemau presennol yn aml yn syrthio'n brin ar yr egwyddorion hyn. Mae cadwyni cyflenwi 'dim ond mewn pryd' wedi'u gyrru gan effeithlonrwydd, prosesu canolog a dibyniaeth ar logisteg pellter hir yn cynyddu bregusrwydd i siociau dwys a straen cronnus. Gall rhwydweithiau dosbarthu eithriadol o ganoledig ddarparu effeithlonrwydd o dan amodau arferol ond maen nhw'n gadael cymunedau yn agored yn ystod argyfyngau fel tywydd eithafol neu darfu ar fasnach. Mae argyfyngau byd-eang, fel rhyfel Wcráin, yn dangos natur amlddimensiwn gwendidau systemau bwyd. Mae tarfiadau ar allforion bwyd sylfaenol, costau mewnbynnu, a

[13] Zurek M et al.; Clapp, J. Committee on World Food Security - Policy responses to the current food crisis must support multiple dimensions of food security.
[14] Zurek M et al.; Clapp, J. Committee on World Food Security - Policy responses to the current food crisis must support multiple dimensions of food security.

sefydlogrwydd marchnadoedd yn datgelu bod yn rhaid i gydnerthedd fynd i'r afael nid yn unig ag argaeledd ond hefyd mynediad, defnydd, sefydlogrwydd, gweithrediad, a chynaliadwyedd.[15]

4.4 Mae tystiolaeth ar gydnerthedd system fwyd ar lefel aelwydydd a chymunedol yn tynnu sylw at gyfyngiadau sylweddol ar barodrwydd bob dydd. Mae Arolwg Cyhoeddus y DU o Ganfyddiad Risg, Cydnerthedd a Pharodrwydd (2025)[16] yn dangos bod gan lawer o aelwydydd gapasiti cyfyngedig i gynnal bwyd a chyflenwadau hanfodol y tu hwnt i ychydig ddyddiau, oherwydd pwysau ariannol, storio cyfyngedig, a bylchau mewn gwybodaeth. Mae ymwybyddiaeth o strwythurau cydnerthedd lleol hefyd yn isel, tra bod disgwyliadau ar gyfer ymyrraeth genedlaethol yn uchel: mae 86% o'r ymatebwyr i'r arolwg uchod yn credu y dylai Llywodraeth y DU fod â "chyfrifoldeb llawn neu swm mawr o gyfrifoldeb" am baratoi ar gyfer argyfyngau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at ddibyniaeth barhaus ar systemau ar lefel genedlaethol ac yn tanlinellu'r angen i gryfhau hunangynhaliaeth leol a gallu addasu ar lefel gymunedol i ategu ymdrechion cydnerthedd ehangach.

4.5 Mae'r angen hwn i gryfhau parodrwydd cartrefi a chymunedau yn cael ei atgyfnerthu gan ddulliau rhyngwladol sy'n rhoi mwy o bwyslais ar gyfrifoldeb a rennir am gydnerthedd. Yn Sweden, dosbarthodd yr Asiantaeth Argyfyngau Sifil y llyfryn *In Case of Crisis or War*[17] i bob aelwyd yn 2024, gan ddarparu arweiniad ymarferol ar storio bwyd brys, cyflenwadau a thyfu bwyd ar raddfa fach fel rhan o strategaeth parodrwydd Amddiffyn Llwyr y wlad. Mae dull Sweden yn dangos sut y gall polisi cenedlaethol gefnogi cydnerthedd ar lefel aelwydydd ochr yn ochr â systemau'r llywodraeth.

4.6 Mae safbwyntiau rhanbarthol hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd rhwydweithiau sy'n seiliedig ar leoedd, lle mae cydnerthedd system fwyd yn cael ei siapio gan gydweithio, gwerthoedd a rennir, a chyfranogiad cynhwysol. Mae ymchwil ar systemau bwyd rhanbarthol yn tynnu sylw at rôl strategol rhwydweithiau dibynadwy sy'n cysylltu ffermwyr, cymunedau lleol, a grwpiau lleiafrifol wrth

[15] Clapp, J. Committee on World Food Security - Policy responses to the current food crisis must support multiple dimensions of food security.
[16] UK Government. UK Public Survey of Risk Perception, Resilience and Preparedness 2025: Headline Findings
[17] In Case of Crisis or War In Case of Crisis or War - Brochure

gynnal diogelwch bwyd yn ystod tarfu, gan leoli rhanbarthau fel cyfryngwyr hanfodol rhwng mentrau lleol a fframweithiau polisi cenedlaethol.[18] Nid yw cydnerthedd, felly, yn statig ond mae'n dod i'r amlwg trwy ddysgu parhaus, datrys problemau cydweithredol, a'r gallu i addasu strategaethau ar draws sawl graddfa.

Tirwedd Polisi

Cydnerthedd System Fwyd y DU

4.7 Mae cydnabyddiaeth gynyddol ar draws llywodraeth y DU a chymunedau ymchwil bod y system bwyd-amaeth yn wynebu risgiau cynyddol o darfu ac argyfwng. Er bod cydnerthedd system fwyd bellach yn bryder sefydledig o fewn polisi ac ymchwil, mae dulliau'r DU yn parhau i fod yn dameidiog, yn adweithiol i raddau helaeth, ac wedi'u hymgorffori'n wan mewn cynllunio hirdymor, sy'n seiliedig ar systemau. Mae'r dirwedd bolisi yn wasgaredig ac yn anwastad, yn aml yn blaenoriaethu rheoli risg tymor byr dros gydnerthedd strwythurol. Mae'r dogfennau a adolygwyd isod yn adlewyrchu ymddangosiad cydnerthedd fel pryder polisi a'r bylchau parhaus mewn cydlynu a gweithredu sy'n siapio bregusrwydd system fwyd y DU:

- Potential Pathways and Solutions to Acute Food System Crisis in the UK (2026)[19]: Mae'r papur yn archwilio sut mae pwysau cronig yn rhyngweithio â siociau dwys i greu bregusrwydd system fwyd systemig. Mae'n pwysleisio cynllunio cydnerthedd ar lefel gymunedol, cyfranogiad cynhwysol, a chymorth wedi'i dargedu i ffermwyr a grwpiau ymylol, ac yn tynnu sylw at yr angen am weithredu cydgysylltiedig ar draws graddfeydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Mae A Resilient UK Food System, Senedd y DU (2020)[20]: yn fframio cydnerthedd system fwyd fel blaenoriaeth polisi cenedlaethol, gan ddiffinio system gydnerth fel un sy'n "gadarn, yn gallu adfer yn gyflym ar ôl unrhyw darfu ac ailgyfeirio tuag at ganlyniadau mwy cynaliadwy". Gan ddefnyddio lens gymdeithasol-ecolegol, nododd yr adroddiad wendidau strwythurol

[18] Edwards, F. et al. Accelerating regional food systems change: Lessons from a FixOurFood knowledge exchange event
[19] Bridle, S. et al. Potential Pathways and Solutions to Acute Food System Crisis in the UK
[20] UK Parliament. A Resilient UK Food System

allweddol ac mae'n pwysleisio nodweddion system gyfan. Mae'n tynnu sylw at lywodraethiant tameidiog fel rhwystr parhaus, gan alw am ddulliau mwy cydgysylltiedig a hirdymor.

- Just in Case: 7 Steps to Narrow the UK Civil Food Resilience Gap (2025)[21]: Mae Tim Lang yn cyflwyno'r cysyniad o gydnerthedd bwyd sifil, gan bwysleisio parodrwydd, sgiliau, a gweithredu ar y cyd ar lefel aelwydydd. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at wendidau strwythurol mawr yn system fwyd y DU, gan gynnwys dibyniaeth drom ar fewnforion bwyd o ranbarthau cyflenwi sy'n agored i niwed i'r hinsawdd. Mae'r cynnig ar gyfer Pwyllgorau Cydnerthedd Bwyd Lleol yn atgyfnerthu pwysigrwydd llywodraethiant sy'n seiliedig ar leoedd a dulliau cyfranogol wedi'u hymgorffori'n lleol.
- Making It Happen: Encouraging Government Action on Preparedness and Resilience, National Preparedness Commission (2024)[22]: Mae'n adnabod integreiddio gwan o arbenigedd lleol a chynllunio hirdymor cyfyngedig fel rhwystrau allweddol rhag cydnerthedd. Mae'r adroddiad yn dadlau y dylid trin bwyd fel seilwaith cenedlaethol hanfodol ac mae'n galw am ddull llywodraeth gyfan a chymdeithas gyfan, gyda pharodrwydd lleol a rhanbarthol cryfach, atebolrwydd cliriach, ac ymrwymiad gwleidyddol parhaus, gan gynnwys ystyried fframweithiau statudol fel Deddf Cydnerthedd Cenedlaethol.

Cydnerthedd System Fwyd Cymru

4.8 Mae tirwedd polisi bwyd Cymru' yn adlewyrchu ymrwymiad cynyddol at adeiladu systemau bwyd cydnerth, cynaliadwy, a theg. Mae strategaethau cenedlaethol yn pwysleisio dulliau sy'n seiliedig ar systemau sy'n integreiddio iechyd y cyhoedd, cynaliadwy yn amgylcheddol, a llesiant cymunedol, tra'n ymateb i heriau hirdymor a gwendidau uniongyrchol. Mae'r cyd-destun polisi hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cynlluniau lleol, gan dynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer cydweithredu, arloesi ac ymyriadau wedi'u targedu. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu polisïau ac adroddiadau Cymreig allweddol sy'n

[21] Lang, T. Just in Case: 7 steps to narrow the UK civil food resilience gap - National Preparedness Commission
[22] National Preparedness Commission, Making it Happen: encouraging government action on preparedness and resilience

siapio'r dirwedd hon ac mae'n darlunio sut mae strategaeth gydnerthedd Dyfed Powys yn cydgyfeirio ag amcanion cenedlaethol ehangach:

- Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru (2025)[23]:Mae'r Strategaeth yn amlinellu fframwaith cenedlaethol i gryfhau a chydlynu systemau bwyd lleol gan ddefnyddio ymagwedd wedi'i seilio ar systemau. Mae'n fframio cydnerthedd bwyd cymunedol o fewn heriau iechyd a llesiant hirdymor ac mae'n cynnig ymyriadau wedi'u targedu, gan gynnwys cyllid grant i bartneriaethau lleol, gan leihau dibyniaeth ar fanciau bwyd, gan gyflawni targedau lleihau gwastraff bwyd 2030, ac integreiddio'r Strategaeth Pwysau Iach.[24]
- Bwyd o Bwys: Cymru (2024)[25]: Mae Bwyd o Bwys yn cydgrynhoi'r holl bolisïau sy'n gysylltiedig â bwyd Llywodraeth Cymru mewn gweledigaeth gydlynol, gan dynnu sylw at rôl bwyd mewn llesiant, cynaliadwyedd a chydnerthedd. Mae'n atgyfnerthu cyfleoedd llywodraethiant ar gyfer cydnerthedd bwyd rhanbarthol a lleol ac yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan hyrwyddo dulliau integredig, ar lefel systemau.
- Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru (2024)[26]: Y Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd yw fframwaith swyddogol Cymru ar gyfer paratoi ar gyfer effeithiau ar yr hinsawdd, gyda Chynllun Gweithredu Diogelwch Bwyd pwrpasol. Mae'n mynd i'r afael â risgiau gan gynnwys sychder, llifogydd, a siociau prisiau, â'r nod o gynnal cadwyni cyflenwi, lleihau gwendidau, a sicrhau cydnerthedd system fwyd leol. Mae'r Strategaeth yn gosod diogelwch bwyd fel her systemig a chymunedol, gan gysylltu addasu i'r hinsawdd ag iechyd y cyhoedd a thegwch cymdeithasol.
- Cynllun Ffermio Cynaliadwy (2025)[27]: Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn darparu cyllid a fframwaith polisi i systemau ffermio wedi'u seilio'n ecolegol, cydnerth ac mae'n ategu ymyriadau systemau bwyd lleol

[23] Llywodraeth Cymru. Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru, 2025
[24] Llywodraeth Cymru. Strategaeth pwysau iach (Pwysau Iach Cymru Iach) | LLYW.CYMRU
[25] Llywodraeth Cymru. Bwyd o Bwys: Cymru (2024)
[26] Llywodraeth Cymru. Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru (2024)
[27] Llywodraeth Cymru. Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026

- Hunger in Wales (2025)[28]: Mae'r adroddiad Trussel hwn yn archwilio ansicrwydd bwyd ledled Cymru, gan ganfod bod 25% o oedolion yn profi mynediad annigonol at fwyd digonol, wedi'i yrru gan bwysau costau byw, incwm ansicr, dyled, anabledd, ac anghydraddoldebau strwythurol. Mae defnyddio banciau bwyd yn adlewyrchu caledi parhaus yn hytrach nag argyfyngau tymor byr.
- Arfarniad Economaidd Bwyd a Diod Cymru (2024)[29]: Mae'r arfarniad hwn yn rhoi cipolwg economaidd ar sector bwyd a diod Cymru, gan dynnu sylw at dwf, amrywiaeth a chydnerthedd, yn enwedig ymhlith microfusnesau. Mae'n adnabod cryfderau economaidd a phwyntiau trosoledd posibl ar gyfer cynllunio cydnerthedd lleol. Mae'r adroddiad yn llywio strategaethau i gydgyfeirio datblygiad system fwyd leol â thwf sector, cyfleoedd economaidd, a blaenoriaethau cynaliadwyedd, gan sicrhau bod ymyriadau cydnerthedd yn economaidd hyfyw ac yn raddadwy.
- Gweledigaeth ar gyfer Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (2021)[30]: Mae'r Weledigaeth yn amlinellu amcanion hirdymor ar gyfer sector bwyd Cymru, gan ymgorffori cynaliadwyedd, cadwyni cyflenwi sy'n gyfrifol am yr amgylchedd, a chyfrifoldeb cymdeithasol fel egwyddorion craidd. Er gwaethaf heriau COVID-19, mae'r sector yn parhau i fod yn gydnerth ac yn amrywiol. Mae hyn yn darparu fframwaith ar gyfer cydgyfeirio cynlluniau ar lefel gymunedol ag uchelgeisiau diwydiant cenedlaethol, hyrwyddo cynhyrchu cynaliadwy, dosbarthu cydnerth, ac arferion cyflogaeth teg.
- Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (2025)[31]: Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlinellu gwendidau'r system fwyd bresennol yng Nghymru, ac yn blaenoriaethu bwyd fel maes gwaith allweddol wrth symud ymlaen. Mae'r argymhellion ynghylch bwyd yn cynnwys datblygu cynllun cydnerthedd bwyd cenedlaethol a chynlluniau cydnerthedd bwyd lleol o fewn awdurdodau lleol, i'w datblygu mewn cydweithrediad â Phartneriaethau Bwyd Lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

[28] Trussel: Hunger in Wales (2025)
[29] Bwyd a Diod Cymru: Arfarniad Economaidd Bwyd a Diod Cymru - 2024
[30] Bwyd a Diod Cymru. Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod o 2021
[31] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Adroddiad-Cenedlaethaur-Dyfodol-2025.pdf

Dyfed Powys

Daearyddiaeth, demograffeg, a heriau gwledig rhanbarthol

4.9 Mae rhanbarth Dyfed Powys yn un o'r ardaloedd mwyaf a mwyaf tenau ei boblogaeth yng Nghymru. Mae'n wledig yn bennaf, gydag aneddiadau gwasgaredig, cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig, a phellteroedd sylweddol rhwng cynhyrchwyr, manwerthwyr a defnyddwyr. Mae'r nodweddion daearyddol hyn yn siapio system fwyd y rhanbarth, gan gyfrannu at gadwyni cyflenwi hirach, mynediad anwastad at fwyd fforddiadwy a maethlon, a sensitifrwydd uwch i darfu.

4.10 Ar yr un pryd, mae gan y rhanbarth sylfaen amaethyddol gref. Mae Tabl 4.1 yn dangos yr ardal a ffermir ym mhob awdurdod lleol; mae cyfanswm o 943,234 hectar o dir yn cael eu ffermio yn Nyfed-Powys – mae hyn yn cynrychioli tua 86% o gyfanswm ei arwynebedd tir (1,097,800 hectar), a 55% o'r holl dir amaethyddol yng Nghymru.

Tabl 4.1: Data ar ddefnydd tir amaethyddol ledled rhanbarth Dyfed Powys. Ffynhonnell: Ystadegau ardaloedd bach amaethyddol 2020[32].

	Arwynebedd a ffermir (ha)	**Arwynebedd a ffermir fel % cyfanswm tir ffermydd yng Nghymru**	**Arwynebedd tir (ha)**
Powys	427,062	25%	519,500
Ceredigion	165,705	10%	179,500
Sir Benfro	141,753	8%	161,800
Sir Gaerfyrddin	208,714	12%	237,000
Dyfed Powys	943,234	55%	1,097,800

4.11 Mae'r rhanbarth yn cael ei ddominyddu gan gynhyrchu cig a llaeth, gyda Powys yn cyfrannu cyfran fawr o gig oen, cig eidion a dofednod y rhanbarth yn enwedig. Mae Sir Benfro yn tyfu mwy o rawnfwydydd a thatws na gweddill y rhanbarth, a llawer mwy o ddofednod na Cheredigion a Sir

[32] Ystadegau ar ardaloedd bach amaethyddol: 2002 i 2020 | LLYW.CYMRU

Gaerfyrddin. Gweler Atodiad B am ddadansoddiad manylach o'r cynhyrchiad amaethyddol ar gyfer pob awdurdod lleol.

4.12 Dangosodd astudiaeth yn 2021 o Warchodfa Biosffer Dyfi, a ddadansoddodd wybodaeth ddaearyddol ar-lein i asesu hanes amaethyddiaeth gymysg ar draws y rhanbarth, fod ffermio cymysg (tyfu cnydau a da byw) yn gyffredin yn iseldiroedd canolbarth Cymru 2021[33]. Mae hyn yn awgrymu nad yw goruchafiaeth bresennol ffermio da byw o reidrwydd yn nodweddu'r rhanbarth yn hanesyddol, ond yn hytrach ei arbenigedd presennol.

4.13 Yn ddemograffig, nodweddir y rhanbarth gan boblogaeth sy'n heneiddio – mae oedran canolrifol y pedwar awdurdod lleol yn amrywio rhwng 46 a 50, gyda Phowys (50) yn cynrychioli'r oedran canolrifol uchaf yng Nghymru[34].

4.14 Mae'r pedwar awdurdod lleol ymhlith y rhai lleiaf dwys eu poblogaeth yng Nghymru – mae'r SYG yn amcangyfrif hyn yn ôl nifer y bobl fesul darn o dir maint cae pêl-droed – gyda'r niferoedd yn amrywio rhwng 0.2 (Powys) a 0.6 (Sir Gaerfyrddin)[35].

4.15 Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer y rhanbarth (Tabl 4.2) yn dangos nifer gymharol isel o ardaloedd bach sy'n dod i'r mesuriadau 10% mwyaf difreintiedig; o'i gymharu â gweddill Cymru, mae'r rhanbarthau hyn yn sgorio'n gymharol isel o ran amddifadedd yn gyffredinol. Fodd bynnag, pan asesir yr is-barth 'mynediad at wasanaethau', Powys a Cheredigion gafodd y sgorio uchaf. Gellir dod o hyd i ddadansoddiad manylach o'r data hyn yn adran 5.30.

[33] Ecodyfi (2021) Ffermio Cymysg – Hanesion a Dyfodol
[34] How your area has changed in 10 years: Census 2021 - Office for National Statistics
[35] How your area has changed in 10 years: Census 2021 - Office for National Statistics

Tabl 4.2: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025)[36] data ar gyfer Dyfed Powys.

	Nifer o LSOAau mewn awdurdod lleol	% LSOAau yn y mesuriadau 10% mwyaf amddifad 1-191	% LSOAau yn y mesuriadau 50% mwyaf amddifad 1-955
Powys	79	1	29
Ceredigion	45	2	60
Sir Benfro	71	6	45
Sir Gaerfyrddin	111	5	59
Cymru	1917	10	50

Tirwedd sector cyhoeddus a chymunedol

4.16 Mae gan Dyfed Powys ecosystem gynyddol o grwpiau sector cyhoeddus, partneriaethau bwyd lleol a mentrau cymunedol. Mae Fforwm Cydnerthedd Lleol Dyfed Powys (LRF) yn dwyn y sefydliadau ymatebwyr sydd â chyfrifoldebau cynllunio argyfwng statudol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004 ynghyd.

4.17 Dogfen allweddol a grëwyd gan LRF Dyfed Powys yw Cofrestr Risg Gymunedol Dyfed Powys[37], sy'n amlinellu'r risgiau allweddol y mae'r rhanbarth yn agored iddynt. O ran bwyd, mae'r gofrestr yn tynnu sylw at sut y gall argyfyngau amgylcheddol a hinsawdd effeithio'n uniongyrchol ar gyflenwad, mynediad a pharhad bwyd ar draws y rhanbarth. Mae'r risgiau allweddol yn cynnwys:

- Llifogydd: Tua 19,000 eiddo mewn perygl, gydag effaith ychwanegol ar dir amaethyddol, cludiant a dosbarthu bwyd.
- Tywydd garw: Mae stormydd, sychder, eira a thonnau gwres yn bygwth cynhyrchu a dosbarthu bwyd, gydag amlder cynyddol o dan newid yn yr hinsawdd.

[36] Amddifadedd | StatsCymru
[37] Fforwm Gwydnwch Lleol Dyfed Powys. dplrf-crr---welsh.pdf

- Colli seilwaith: Mae tarfu ar bŵer, tanwydd a dŵr yn cyfyngu ar storio, paratoi a dosbarthu bwyd .

4.18 Gyda'i gilydd, mae'r Gofrestr yn gosod cydnerthedd bwyd yn Nyfed Powys yn agored iawn i siociau rheolaidd, gan atgyfnerthu pwysigrwydd parodrwydd argyfwng cydgysylltiedig ochr yn ochr â chynllunio cydnerthedd systemau bwyd tymor hwy.

4.19 Yn yr un modd, mae'r LRF wedi cynhyrchu canllawiau i aelodau etholedig ar Gynllunio ac Ymateb Argyfwng[38]. Er bod y canllawiau yn cwmpasu ystod eang o risgiau a gwendidau, mae'r rhai sy'n berthnasol i'r system fwyd yn cynnwys:

- Cynllunio risg: Mae'n adnabod siociau sy'n effeithio ar gyflenwad, mynediad a dosbarthu bwyd.
- Parhad busnesau: Mae'r ddyletswydd statudol ar gyfer ymatebwyr Categori 1 yn adlewyrchu'r angen i gynnal gwasanaethau sy'n gysylltiedig â bwyd a chadwyni cyflenwi hollbwysig yn ystod argyfyngau.
- Cydnerthedd cymunedol: Mae'n fframio parodrwydd lleol fel hanfod i ymateb i argyfwng, gan ei ddiffinio fel cymunedau sy'n harneisio "adnoddau ac arbenigedd i helpu eu hunain i baratoi ar gyfer, ymateb i ac adfer o argyfyngau".

4.20 Mae'r canllawiau yn darparu tystiolaeth o atebolrwydd sefydliadol cryf ac yn gosod aelodau etholedig fel gweithredwyr allweddol mewn parodrwydd ac adferiad, gan ddarparu cyd-destun llywodraethiant galluogi ar gyfer Strategaeth Cydnerthedd Bwyd Dyfed Powys.

Partneriaethau Bwyd Lleol

4.21 Mae Partneriaethau Bwyd Lleol (LFPs) yn fecanwaith canolog ar gyfer hyrwyddo systemau bwyd cydnerth a chynaliadwy yng Nghymru.[39] Maen nhw'n dod ag awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, ffermwyr, busnesau bwyd a thrigolion ynghyd i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer systemau bwyd lleol cynaliadwy a chydlynu gweithredu i'w chyflawni. Arloeswyd drwy rwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ledled y DU, mae LFPs yn hyrwyddo dull system gyfan sy'n cysylltu tlodi bwyd,

[38] Dyfed Powys Local Resilience Forum. Elected Members Guidance Emergency Planning and Response
[39] Synnwyr Bwyd Cymru. Partneriaethau Bwyd Lleol

anghydraddoldebau iechyd, amaethyddiaeth, diogelwch bwyd a newid yn yr hinsawdd.

4.22 Erbyn hyn mae gan Gymru 22 o LFPau lleol a gefnogir gan gyllid Llywodraeth Cymru ac mae rhanbarth Dyfed Powys yn gartref i bedwar: Partneriaeth Bwyd Bwyd Sir Gâr; Partneriaeth Bwyd Powys; Partneriaeth Bwyd Sir Benfro, a Phartneriaeth Bwyd Ceredigion. Er bod graddfa, aeddfedrwydd a ffocws strategol y partneriaethau hyn yn amrywio, gyda'i gilydd maent yn dangos ymrwymiad rhanbarthol cryf i gydnerthedd system fwyd seiliedig ar le. Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno canfyddiadau o'n hadolygiad o rôl Partneriaethau Bwyd Lleol ar draws rhanbarth Dyfed Powys.

Partneriaeth Bwyd Sir Gâr, Sir Gaerfyrddin[40]

4.23 Wedi'i sefydlu yn 2021, Bwyd Sir Gâr Food yw Partneriaeth Bwyd Leol Sir Gaerfyrddin, sy'n gweithio i ddatblygu system fwyd leol iachach, fwy cynaliadwy a thecach ledled y sir. Cynhelir y bartneriaeth gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, a chefnogir gan grŵp llywio traws-sector gweithredol sy'n cynnwys Cyngor Sir Gâr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cywain, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Castell Howell a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin.[41] Yn 2025, dyfarnwyd Gwobr Arian i Bartneriaeth Bwyd Sir Gâr o dan y rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.

4.24 Mae canfyddiadau allweddol a meysydd cyflawni yn cynnwys:

- Tlodi bwyd a mynediad ato: Eir i'r afael â hyn trwy gynlluniau tyfu cymunedol, coginio a rhannu prydau, a datblygu sgiliau maeth mewn lleoliadau bwyd cymunedol.
- Cynhyrchu lleol: Ehangu trwy ddefnyddio tir cyhoeddus ym Mremenda Isaf i gyflenwi llysiau fforddiadwy i ysgolion, lleoliadau gofal a chaffis. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan yn y cynllun peilot Llysiau mewn Ysgolion Cymru dan arweiniad Synnwyr Bwyd Cymru, a oedd yn cysylltu clystyrau tyfu lleol â marchnadoedd y sector cyhoeddus.

[40] The Bwyd Sir Gâr – Cynllun Bwyd Lleol Sir Gaerfyrddin Bwyd Sir Gâr Food | Partneriaeth Bwyd Lleol | Sir Gaerfyrddin
[41] Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Aelodau | Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

- Cymorth i dyfwyr: Wedi'i ddarparu trwy'r Cylch Peiriannau, cynhyrchu modelau agregu, a chaffael peilot yn y sector cyhoeddus ar gyfer prydau ysgol.
- Addysg a sgiliau: Wedi'u cryfhau trwy gyfleoedd dysgu ffermydd ysgol, ymgysylltu â threftadaeth bwyd, cyrsiau hyfforddi mewn cydweithrediad â Lantra, cyrsiau cymunedol ar goginio, tyfu a maeth, a chyfleoedd dysgu cymheiriaid i gymheiriaid.

Partneriaeth Bwyd Powys, Powys [42]

4.25 Wedi'i sefydlu ym mis Mawrth 2022, mae'r Bartneriaeth yn dwyn Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysg Powys, Cultivate, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Bannau Brycheiniog, Cyfoeth Naturiol Cymru, Coleg y Mynydd Du, ynghyd ac amrediad o randdeiliaid lleol eraill. Mae gan Bartneriaethau Bwyd Powys wobr Efydd o dan y Rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Mae agweddau allweddol ar rôl y bartneriaeth mewn cydnerthedd bwyd yn cynnwys:

- Cydlynu rhanddeiliaid lluosog: Mae'n cysylltu cynhyrchwyr, ALlau, Sefydliadau Anllywodraethol, a grwpiau cymunedol.
- Mynediad a sgiliau: Rhwystrau gostyngol rhag mynediad at fwyd ac maer'n gwella sgiliau coginio a thyfu.
- Cynhyrchwyr lleol: Mae'n cefnogi ffermio atgynhyrchiol, cadwyni cyflenwi byr, a chaffael lleol.
- Ymgysylltu â'r gymuned ac addysg: Cynnal gweithdai bwyd eco-ysgol a chymunedol, sesiynau "Blasu a Phrofi", a rhaglenni ysgol.
- Cynllunio strategol: Mae'n mapio systemau bwyd lleol ac yn monitor cynnydd yn erbyn strategaeth leol.

Partneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro[43]

4.26 Mae Partneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro yn fenter gydweithredol dan arweiniad PLANED, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Penfro a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS), â'r nod o wella cynaliadwyedd a chydnerthedd rhwydweithiau bwyd lleol. Mae eu gwaith, gan gynnwys prosiectau fel Ceginau Cymunedol a'r Rhwydwaith Tyfu Cymunedol, yn dod

[42] Cultivate. Bwyd Powys Food - Cultivate
[43] Partneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro Partneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro

ag awdurdodau lleol, sefydliadau cymunedol, cynhyrchwyr a thrigolion ynghyd i gryfhau mynediad at fwyd iach, fforddiadwy, cefnogi tyfwyr lleol, ac adeiladu economi fwyd fywiog, gynaliadwy. Sir Benfro sy'n dal y Wobr Efydd gan Leoedd Bwyd Cynaliadwy.

4.27 Agweddau allweddol o rôl y bartneriaeth mewn cydnerthedd bwyd:

- Gweithredu seiliedig ar le: Cysylltu tyfwyr, cynhyrchwyr, sefydliadau a chymunedau lleol. Mae enghreifftiau'n cynnwys y cynllun peilot 'Gwerthu Ffres Cymunedol', a gyflwynodd beiriannau gwerthu sy'n cyflenwi cynnyrch ffres a ffynonellau lleol 24/7 i gymunedau lleol.
- Mynediad at fwyd: Mae'n mynd i'r afael â thlodi bwyd trwy wella mynediad at fwyd fforddiadwy, maethlon.
- Cadwyni cyflenwi lleol: Mae'n hyrwyddo cynhyrchu cynaliadwy ac adfywio systemau cyflenwi a chaffael lleol.
- Hinsawdd a chynaliadwyedd: Mae'n integreiddio arferion bwyd cynaliadwy a lleihau gwastraff bwyd.
- Ymgysylltu â'r gymuned: Datblygu "mudiad bwyd da" lleol trwy ddinasyddiaeth bwyd a chyfranogiad cymunedol.

Partneriaeth Bwyd Ceredigion[44]

4.28 Wedi'i sefydlu yn 2023, mae Partneriaeth Bwyd Ceredigion yn dwyn Cyngor Sir Ceredigion, CAVO, Biosffer Dyfi, Mentera, GIG Hywel Da, ffermwyr, ysgolion a rhanddeiliaid cymunedol ynghyd i gryfhau systemau bwyd lleol. Wedi'i chynnal gan Mentera a'i gadeirio gan Ewan Tennant, mae'r bartneriaeth yn cael ei harwain gan y chwe nod Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.

4.29 Agweddau allweddol o rôl y bartneriaeth mewn cydnerthedd bwyd:

- Cydlynu traws-sector: Cysylltu awdurdodau, grwpiau cymunedol, cynhyrchwyr, ysgolion a chyrff iechyd.
- Mynediad at fwyd a thegwch: Cefnogi rhwydweithiau tlodi bwyd, ceginau cymunedol, a darpariaeth bwyd mewn argyfwng.
- Cymorth i gynhyrchwyr lleol: Mae'n hyrwyddo cynhyrchu cynaliadwy, caddwyni cyflenwi byr, a chynlluniau fferm i fforc.

[44] Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Partneriaeth Bwyd Ceredigion –Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

- Ymgysylltu â'r gymuned: Mae’n cyflawni dosbarthiadau coginio, garddio ysgol a chymunedol, rhandiroedd, a gweithdai cyhoeddus.
- Cynllunio strategol: Mae’n datblygu strategaethau Bwyd Da, yn cyfrannu at ymchwil, ac yn cydweithio'n rhanbarthol ar gydnerthedd bwyd a pharodrwydd am argyfwng.

5. Asesu cydnerthedd bwyd yn Nyfed Powys

Trosolwg sylfaenol o system fwyd Dyfed Powys

5.1 Mae'r adran hon yn darparu trosolwg sylfaenol lefel uchel o system fwyd Dyfed Powys, gan dynnu dadansoddiad data meintiol o ymchwil desg a mewnwelediadau ansoddol o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws WA1 a WA2 ynghyd. Y bwriad yw gosod darlun clir o sut mae'r system yn gweithredu ar hyn o bryd, lle mae cydnerthedd yn gryfaf, a lle mae gwendidau a bylchau yn fwyaf amlwg.

5.2 Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r adran hon yn darparu cyfrif cynhwysfawr o'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyd yn y rhanbarth. Ymhellach, fel yr amlinellwyd yn yr adran methodoleg, nid ydym wedi gallu sgorio nifer fach o is-barthau oherwydd prinder data sydd ar gael.


5.3 Mae Tabl 5.1 yn dangos y fframwaith ymchwil sy'n anlinellu'r dimensiynau allweddol ac is-ddimensiynau cydnerthedd bwyd a ddiffinnir yn yr astudiaeth hon (gweler Atodiad A am ddadansoddiad manylach). Yn seiliedig ar adolygiad cynhwysfawr bwrdd gwaith a rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid, neilltuwyd sgoriau ar gyfer pob is-ddimensiwn, yn seiliedig ar system 'Coch, Ambr, Gwyrdd' (RAG) neu oleuadau traffig, gyda choch yn cynrychioli lefel isel o gydnerthedd, oren yn ganolig a gwyrdd yn uchel. Penderfynwyd ar y sgôr ar sail y dystiolaeth sydd ar gael; lle nad oedd tystiolaeth yn ddigonol, nodwyd hyn. Cwblhawyd y graddfeydd ar gyfer pob awdurdod lleol a'r data sydd ar gael ar eu cyfer, ac yna cynhaliwyd asesiad cryno lefel uwch i raddio'r rhanbarth yn ei gyfanrwydd. Mae dadansoddiad o sgoriau cydnerthedd awdurdodau lleol wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Tabl 5.1: Mesuriadau RAG o ddangosyddion cydnerthedd bwyd ar gyfer rhanbarth Dyfed Powys.

Dimensiwn cydnerthedd bwyd	Is-barth	Sgôr
Cydnerthedd ochr cyflenwi	Capasiti Cynhyrchu Lleol	
	Amrywiaeth Cynhyrchu	
	Seilwaith Prosesu a Storio	
	Dibynadwyedd Cludiant a Logisteg	Data annigonol
	Dibyniaeth ar Ynni	Data annigonol
Cydnerthedd ochr galw	Fforddiadwyedd	
	Diogelwch Bwyd	
	Argaeledd Deiet Iach	
	Cyfran Caffael Lleol	
Cydnerthedd Llywodraethiant a Pholisi	Integreiddio Strategol	
	Cydlynu Sefydliadol	
	Parodrwydd am Argyfwng	
	Sefydlogrwydd Cyllidoy	
Cydnerthedd cymunedol a chymdeithasol	Seilwaith Bwyd Cymunedol	
	Sylfaen Gwirfoddolwyr a Sgiliau	Data annigonol
	Cynhwysiant a Thegwch	
	Dwysedd Rhwydweithiau Cymdeithasol	

5.4 Mae Ffigur 5.1 yn dangos canlyniadau'r ymarfer mapio rhanddeiliaid. Cafodd hyn ei lywio trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, ochr yn ochr â mapio GIS o weithredwyr y system fwyd ar draws Dyfed Powys. Mae'r map wedi'i drefnu'n fras i bedwar prif faes: cynhyrchu bwyd; prosesu a manwerthu; sefydliadau'r sector cyhoeddus, a sefydliadau cymunedol. Mae'r pedwar LFP, a'r sefydliadau cymunedol o fewn yr awdurdodau lleol priodol yn cael eu coladu â'i gilydd (a ddangosir mewn pinc, gwyrdd, melyn a glas ar yr ochr dde).

Ffigur 5.1. Mapio gan randdeiliaid o'r dirwedd bwyd yn Nyfed Powys, wedi'i drefnu yn ôl cynhyrchu bwyd, prosesu a manwerthu, sefydliadau sector cyhoeddus a chymunedol.



Ac mae fersiwn ar-lein o'r map hwn ar gael yma.

Cyflenwi

Asedau a chryfderau

5.5 Er mwyn canfod cryfder cyffredinol y cyflenwad yn Nyfed Powys, gwnaethom geisio cyfrifo canran y galw rhanbarthol (a argymhellir) a ddiwellir gan y cynhyrchu presennol. Mae tabl 5.2 yn dangos amcangyfrif o'r gymhareb cyflenwi: galw i ranbarth Dyfed Powys, yn seiliedig ar gymeriant bwyd a argymhellir yn ôl Canllaw Bwyta'n Dda Llywodraeth y DU[45], o'i gymharu ag ystadegau cynhyrchu bwyd a gyfrifwyd ar gyfer rhanbarth Dyfed Powys.


Tabl 5.2: Cyfrifiadau cyflenwi yn erbyn galw ar gyfer Dyfed Powys, yn seiliedig ar Ganllaw Bwyta'n Dda y DU ar gyfer cymeriant bwyd a argymhellir ac o'i gymharu ag ystadegau cynhyrchu ar gyfer grwpiau bwyd gwahanol ar draws rhanbarth Dyfed Powys.

	Galw blynyddol Dyfed Powys (tunelli metrig)	Cynhyrchu blynyddol Dyfed Powys (tunelli metrig)	% galw a atebir gan gynhyrchu presennol	Ffactor graddfa (% newid mewn cynhyrchu sydd ei angen i ateb galw)
Ffrwythau a llysiau	76,296	12,638	17%	504%
Carbohydradau startsh (grawnfwydydd a thatws)	57,222	248,311	434%	-77%
Ffa a chodlysiau	28,611	1,421	5%	1913%
Cig (cig eidion, cig oen, porc, cywion ieir brwylios)	13,352	68,517	513%	-81%
Wyau	11,445	35,577	311%	-68%
Llaeth	76,296	1,437,094	1884%	-95%


5.6 Mae'r data ar hyn o bryd yn dangos bod cynhyrchu carbohydradau startsh, cig, wyau a llaeth yn fwy na digon i ateb y galw rhanbarthol. Ategir hyn gan Ffigurau 5.2 a 5.3, sy'n dangos niferoedd uchel o gynhyrchwyr cig, pysgod, llaeth ac wyau ar draws siroedd Dyfed Powys.

[45] UK Government Eatwell Guide

Ffigur 5.2: Cynhyrchwyr bwyd ar draws rhanbarth Dyfed Powys fesul sector bwyd / math o gynnyrch. Ffynhonnell: Mapio GIS o weithredwyr cadwyn fwyd (Miller Research).



Ffigur 5.3: Mapio GIS o weithredwyr cadwyn fwyd fesul cynnyrch bwyd ar draws rhanbarth Dyfed Powys



Mae fersiwn ar-lein, rhyngweithiol o'r map hwn ar gael yma.

5.7 Mae data ychwanegol ar ddadansoddiad yr ystadegau cynhyrchu yn ôl ardal awdurdod lleol yn dangos rhywfaint o amrywiad o fewn Dyfed Powys: yn benodol, mae gan Bowys a Sir Benfro gynhyrchiad uwch o rawnfwydydd a garddwriaeth – gyda Sir Benfro yn eithriadol o ran tyfu tatws (gweler Atodiad B, tablau 4 a 5). Mae hyn yn awgrymu bod gan y rhanbarth gapasiti ar gyfer cynhyrchu âr.

5.8 Siaradodd rhanddeiliaid am yr angen i gefnogi cynhyrchwyr cynradd i gynyddu twf cnydau âr a garddwriaethol trwy ddarparu seilwaith cynhyrchu, prosesu a dosbarthu. Mae enghreifftiau cadarnhaol o'r cymorth hwn yn cynnwys Gwaith Cyswllt Ffermiot[46] i gynorthwyo tyfwyr mewn uwchraddio cynhyrchu a'u cysylltu â marchnadoedd lleol, er enghraifft trwy'r sector cyhoeddus.

[46] Cyswllt Ffermio – eich helpu i yrru'ch busnes yn ei flaen

5.9 O ran seilwaith y gadwyn fwyd, mae Tabl 5.3 yn dangos bod y gymhareb o gynhyrchwyr i broseswyr yn Nyfed Powys yn debyg i gyfartaledd y DU, gyda 6 chynhyrchydd fesul prosesydd yn y rhanbarth.

Tabl 5.3: Data gweithredwyr cadwyn gyflenwi ar gyfer rhanbarth Dyfed Powys a data cymaradwy ar gyfartaledd i'r DU, gan ddangos nifer o gynhyrchwyr fesul prosesydd.

	Sir Gaerfyrddin	Ceredigion	Powys	Sir Benfro	Dyfed Powys	Cyfartaledd y DU
Cyfanwerthwr/ Manwerthwr/ Dosbarthwr	25	18	20	40	103	
Cynhyrchwr	85	63	78	128	354	209,000[47]
Prosesydd/ Gwneuthurwr	27	10	7	15	59	24,880[48]
Nifer o gynhyrchwyr fesul prosesydd	3	6	11	9	6	8


5.10 Gellid dehongli hyn fel cryfder, gan fod capasiti i brosesu wedi'i ganolbwyntio yn gymesur â'r dirwedd cynhyrchwyr, gan roi mwy o ddewis i gynhyrchwyr yn eu hopsiynau prosesu a lleihau dibyniaeth ar nifer fach o broseswyr. Mae dosbarthwyr a chyfanwerthwyr sefydledig, fel Castell Howell, Puffin, Dole Foodservice, AJ Rees & Sons a Watson & Pratt's – ymhlith eraill – yn cynrychioli cryfder posibl, gan fod gan y gweithredwyr hyn seilwaith a rhwydweithiau cludiant presennol ar waith i ddosbarthu bwyd ar draws y rhanbarth. Mae'r rhwydweithiau sefydledig hyn o bosibl yn darparu strwythur i gynhyrchwyr llai 'fanteisio' arno, heb orfod treulio amser ac arian yn sefydlu eu hunain.

[47] Mae'r data hyn yn seiliedig ar nifer y daliadau fferm yn y DU – sylwch nad yw hyn yn uniongyrchol gymharol â'r data 'cynhyrchwr' a ddefnyddiwyd ar gyfer Dyfed Powys, gan fod diffiniadau gwahanol o gynhyrchwr yn cael eu defnyddio ar gyfer Dyfed Powys, a oedd yn cynnwys daliadau fferm a chrëwyr cynnyrch sylfaenol. DEFRA (2025) Farming evidence - key statistics

[48] DEFRA (2026) Food statistics in your pocket

5.11 Fodd bynnag, mae Ffigur 5.4 yn dangos bod seilwaith prosesu wedi'i ddosbarthu'n anwastad ar draws y rhanbarth, wedi'i ganolbwyntio yn Ne-orllewin Dyfed Powys (dotiau glas).

Ffigur 5.4: Mapio GIS o weithredwyr cadwyn gyflenwi bwyd ar draws rhanbarth Dyfed Powys



Mae fersiwn ar-lein, rhyngweithiol o'r map hwn ar gael yma.

Gwendidau a bylchau

5.12 O ran gwendidau ar ochr y cyflenwi, fel y nodwyd yn flaenorol, mae amrywiaeth sylweddol o ran nifer yr achosion o gynhyrchwyr bwyd ar draws Dyfed Powys. Mae cymhareb cyflenwi: galw isel yn awgrymu dibyniaeth uchel ar fewnforion[49] ac felly'n nodi bregusrwydd i siociau cadwyn gyflenwi. Mae hyn yn arbennig o wir am ffrwythau a llysiau a ffa a chodlysiau, sydd ar hyn o bryd yn cael eu tyfu ar gyfraddau annigonol yn Nyfed Powys i ddiwallu gofynion y boblogaeth- mae data yn awgrymu y byddai angen i gynhyrchu

[49] DEFRA (2024) United Kingdom Food Security Report 2024: Theme 2: UK Food Supply Sources

ffrwythau a llysiau a ffa a chodlysiau gynyddu o 504% a 1913%, yn eu tro, i ateb galw a argymhellir (gweler Table 5.2).

5.13 Mae Tabl 5.4 yn rhoi arwydd o'r amrywiaeth cynhyrchu (bugeiliol/pori yn erbyn tir âr/cnydau a garddwriaeth) ar draws siroedd Dyfed Powys. Mae'r patrwm eang yn dangos gogwydd uchel iawn tuag at gynhyrchu da byw, gydag amrywiad bach yn Sir Benfro sydd â chynhyrchiad garddwriaethol uwch o 13% o dir amaethyddol y siroedd (a 22% o gyfanswm cynhyrchu cnydau Cymru) – mae hyn yn debygol o fod oherwydd bod yr ardal yn fan poblogaidd ar gyfer tyfu tatws.[50] Er gwaethaf y ffaith mai dim ond 4% o arwynebedd tir Powys sy'n cael ei ddefnyddio i dyfu cnydau, mae'n cynrychioli 18% o gyfanswm cynhyrchu cnydau Cymru oherwydd yr arwynebedd tir mawr sydd ar gael ym Mhowys.

Tabl 5.4: Data ar ddefnydd tir (pori yn erbyn cnydau/garddwriaeth) ar draws rhanbarth Dyfed Powys. Ffynhonnell: Ystadegau ardaloedd bach amaethyddol 2020[51].

	Arwynebedd a ffermir (ha)	Arwynebedd a ffermir fel % cyfanswm tir ffermydd yng Nghymru	Tir pori (cyfanswm arwynebedd a ffermir - cnydau/ garddwriaethe, ha)	Pori tir fel % cyfanswm arwynebedd a ffermir	Cnydau a garddwriaeth (ha)	Cnydau a garddwriaeth fel %cyfanswm arwynebedd a ffermir
Powys	427,062	25%	411,773	96%	15,288	4%
Ceredigion	165,705	10%	161,462	97%	4,243	3%
Sir Benfro	141,753	8%	123,381	87%	18,372	**13%**
Sir Gaerfyrddin	208,714	12%	205,209	98%	3,506	2%

5.14 Er mwyn rhoi amcangyfrif o gydnerthedd o ran capasiti cynhyrchwyr a phrosesu ar draws y rhanbarth, cymharwyd data mapio GIS o weithredwyr y gadwyn fwyd - hynny yw cynhyrchwyr, proseswyr a chyfanwerthwyr (gweler Ffigur 5.4) - â phoblogaeth Dyfed Powys i roi amcangyfrif o seilwaith fesul 100,000 o drigolion (Tabl 5.5). Yna cymharwyd hyn â chyfartaledd y DU (lle roedd data tebyg ar gael).

[50] Tatws Cynnar Sir Benfro (PGI) Tatws Cynnar (PGI) | Busnes Cymru - Bwyd a Diod
[51] Llywodraeth Cymru (2021) Ystadegau ardaloedd bach amaethyddol: 2002 to 2020

Tabl 5.5: Amcangyfrifon o weithredwyr cadwyn fwyd fesul 100,000 o drigolion yn Nyfed Powys a chyfartaledd y DU. *Nid oedd data cymaradwy ar gyfer cyfanwerthwyr/manwerthwyr/dosbarthwyr ledled y DU ar gael.

	Dyfed Powys	Cyfartaledd y DU
Cyfanwerthwr/Manwerthwr/Dosbarthwr	103	-
Cynhyrchwr	354	209,000[52]
Prosesydd/Gwneuthurwr	59	24,880[53]
Poblogaeth 2023	522,578	68,300,000[54]
Cyfanwerthwyr fesul 100,000 o drigolion	19.71	-
Cynhyrchwyr fesul 100,000 o drigolion	**67.74**	**306**
Proseswyr fesul 100,000 o drigolion	**11.29**	**36.43**

5.15 Mae'r data'n dangos bod Dyfed Powys yn disgyn yn is na chyfartaledd y DU o ran cynhyrchwyr a phroseswyr fesul 100,000 o drigolion, gan awgrymu y gallai tagfeydd mewn cynhyrchu a phrosesu gael effeithiau sylweddol ar argaeledd bwyd cartrefi. Ategir hyn gan y delweddu yn Ffigur 5.4, sy'n dangos lledaeniad tenau o broseswyr bwyd ar draws y rhanbarth.

5.16 Mae adborth rhanddeiliaid yn dangos bod capasiti prosesu yn wendid sylweddol yn y rhanbarth, gyda chyfranogwyr yn nodi bod diffyg lladd-dai a gweithfeydd prosesu yn rhwystro ymdrechion i gadw cynnyrch yng Nghymru a graddio cynhyrchu i ateb galw'r farchnad. Mae enghreifftiau cadarnhaol o newid yn y maes hwn yn cynnwys cyflwyno cylchoedd peiriannau yn Sir Gaerfyrddin[55] a Sir Benfro[56] lle mae cefnogi partneriaid a grwpiau o dyfwyr yn prynu peiriannau ac offer i'w rhannu rhyngddynt i gynyddu cynhyrchu. Mae mentrau tebyg yn cael eu datblygu ym Mhowys a Cheredigion ac maent yn rhan o weithgaredd Prosiect Cydnerthedd Dyfed Powys ei hun.

[52] Mae'r data hyn yn seiliedig ar nifer daliadau fferm y DU – sylwch and yw hyn yn uniongyrchol gymaradwy â'r data 'cynhyrchwyr' a ddefnyddir ar gyfer Dyfed Powys, gan y cafodd diffiniadau gwahanol o gynhyrchwr ey defnyddio ar gyfer Dyfed Powys, oedd yn cynnwys daliadau ffermydd yn ogystal â Chrëwyr cynhyrchion sylfaenol. DEFRA (2025) Farming evidence - key statistics
[53] DEFRA (2026) Food statistics in your pocket
[54] Office for National Statistics: Population estimates for the UK, England, Wales, Scotland and Northern Ireland: mid-2023
[55] Social Farms & Gardens: Carmarthenshire Machinery Rings
[56] Home - PMR

5.17 Mae'n bwysig nodi bod y cyfrifiadau uchod o gynhyrchu bwyd wedi'u cwblhau gan ddefnyddio'r data sydd ar gael a gwnaed rhagdybiaethau ynghylch ffactorau trosi a symiau cynnyrch; felly, ni ellir cymryd y data hyn fel mesur union o werthoedd cynhyrchu yn Nyfed Powys, ond yn hytrach yn amcangyfrif. Yn ogystal, profodd data ar weithredwyr cadwyn gyflenwi bwyd – cynhyrchwyr, proseswyr a chyflenwyr yn anodd I'w cael a dibynwyd ar gyfuno ffynonellau lluosog o ddata. Fodd bynnag, mae hyn ynddo'i hun yn cynrychioli bregusrwydd sylweddol y rhanbarth, gan y gall diffyg dealltwriaeth o'r capasiti presennol ei gwneud hi'n anoddach targedu ymyriadau.

5.18 Yn yr un modd, roedd data ar logisteg cludiant a dibyniaeth ar ynni cadwyni cyflenwi bwyd yn brin. Er bod adrannau 5.28-5.30 yn rhoi arwydd o'r anawsterau sy'n wynebu cymunedau wrth gael mynediad at wasanaethau ar draws Dyfed Powys, nid ydynt yn rhoi darlun clir o wahanol lwybrau cludo bwyd – a chynlluniau wrth gefn ar gyfer cludo bwyd mewn cyfnod o argyfwng, fel digwyddiadau llifogydd.

5.19 Cyfeiriodd rhanddeiliaid at natur y cadwyni cyflenwi bwyd yn y rhanbarth, bregusrwydd ffyrdd i lifogydd, a'r gwahanol 'fannau cyfyng' o drafnidiaeth i mewn i'r rhanbarth ac o'i fewn. Yn ogystal, canfu canfyddiadau astudiaeth ddichonoldeb flaenorol a gynhaliwyd i fodelau dosbarthu logistaidd yn Ne-orllewin Cymru fod cyflenwi milltir olaf yn rhwystr mawr i raddio a chydnerthedd, gan gymryd cyfran anghymesur o gostau dosbarthu. Roedd hyn yn fater arbennig wrth gludo gwahanol fathau o fwyd gyda'i gilydd, fel cig, llaeth, ffrwythau a llysiau.

5.20 Fel y crybwyllwyd, roedd data ar ddibyniaeth ar ynni yn gyfyngedig. Mae mentrau fel Cafe Mor[57] sy'n defnyddio ynni adnewydddawy ar y safle (solar a gwynt), yn hytrach na thrydan grid parhaus yn enghreifftiau gwych o ddarpariaeth bwyd gyda lleiafswm dibyniaeth ar seilwaith ynni allanol. Fodd bynnag, roedd yr achosion hyn yn fwy unigol, yn hytrach na modelau a ailadroddwyd ar raddfa ar draws y rhanbarth.

[57] The Pembrokeshire Beach Food Company: Breaking the Energy Mould at Cafe Môr

Crynodeb

5.21 Ar y cyfan, mae cydnerthedd ochr gyflenwi'r system fwyd yn Nyfed Powys yn gymysg, gyda chapasiti cryf mewn da byw, llaeth a chnydau startsh, ond bregusrwydd sylweddol mewn garddwriaeth, codlysiau, capasiti prosesu a seilwaith. Cyfyngir ymhellach ar gydnerthedd gan ddosbarthu anwastad ar draws y rhanbarth, gyda dibyniaeth ar nifer fach o broseswyr a dosbarthwyr, a data cyfyngedig ar gludiant ac ynni.

Galw

Asedau a chryfderau

5.22 Is-barth cydnerthedd ochr y galw oedd y gyfran o gaffael a arhosodd yn rhanbarth Dyfed Powys neu Gymru yn ehangach. Roedd data ar gaffael bwyd ar gyfer yr awdurdodau lleol yn amrywio'n fanwl, ond dangosodd batrwm eang o oruchafiaeth gan nifer fach o gyflenwyr o Gymru - roedd Castell Howell yn gyflenwr cyffredin ar draws pob cyngor. Er enghraifft, Castell Howell oedd yr unig gyflenwr bwyd a restrwyd ar gofrestr contractau Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2019-2020 ac roedd yn cyfrif am 90% o wariant bwyd Cyngor Sir Powys. Mae data gwariant Cyngor Sir Caerfyrddin yn nodi, rhwng Awst 2024 a Gorffennaf 2025, fod 46% (£113,192 o'r cyfanswm o £247,715) o'u gwariant ar gaffael bwyd ar eitemau sy'n cael eu tyfu neu eu cynhyrchu yn Ne Cymru. Ymhellach, dangosodd data gan Gynghorau Sir Caerfyrddin a Sir Penfro eu bod yn caffael bwyd drwy Fframwaith Grŵp Bwyd Cydweithredol Sector Cyhoeddus Cymru, sydd wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i amrediad o gyflenwyr – mawr a bach – ac sy'n hyrwyddo'r defnydd o gynhyrchion lleol a Chymreig[58]. Mae hyn yn lifer allweddol i gyrff cyhoeddus gynyddu gwariant caffael yn agosach at adref, trwy gynyddu mynediad at gyflenwyr llai lleol i gynnig. Mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth gaffael Cyngor Sir Powys, sy'n amlinellu eu hymrwymiad i "symleiddio ei broses gaffael i fod yn fwy cynhwysol a chynorthwyo busnesau llai a chyflenwyr lleol i gynnig am gontractau"[59].

[58] Llywodraeth Cymru (2025) Fframweithiau Cydweithredol Cymru
[59] Strategaeth Gaffael Cyngor Sir Powys 2021-2025

5.23 Un enghraifft o drosoli caffael cyhoeddus i flaenoriaethu cyflenwad lleol yw Rhaglen Llysiau mewn Ysgolion Cymru (gweler Astudiaeth Achos B yn Atodiad D), sydd wedi gweld defnydd cryf yn rhanbarth Dyfed Powys ac a ddyfynnwyd gan nifer o randdeiliaid fel enghraifft o arfer gorau i adeiladu arno. Yn yr un modd, amlygodd cynllun peilot Cyngor Sir Gâr 'Bwydlen Cenedlaethau'r Dyfodol' sut, trwy ailgynllunio bwydlenni cinio ysgolion cynradd, y gallai cynghorau drosoli gwariant cyhoeddus i hyrwyddo cynnyrch a thyfu lleol trwy'r fferm a redir gan y cyngor, Bremenda Isaf (gweler astudiaeth Achos E yn Atodiad D)[60].

Gwendidau a bylchau

5.24 Ar wahân i'r gyfran o gaffael cyhoeddus lleol, sgoriodd Dyfed Powys yn isel yn erbyn yr is-feysydd sy'n weddill o fforddiadwyedd bwyd, diogelwch bwyd, ac argaeledd deiet iach.

5.25 Gellir canfod fforddiadwyedd bwyd o'r gyfran o incwm aelwydydd a wariwyd ar fwyd. Roedd data penodol ar brisiau bwyd neu gyfran o wariant aelwydydd ar fwyd ar gyfer rhanbarth Dyfed Powys yn brin, ond mae rhyngosodiad o ddata cenedlaethol yn dangos bod yr aelwydydd incwm isaf yn gwario mwy yn gyfrannol o'u hincwm ar fwyd na'r rhai mewn adrannau incwm uwch. Mae data o'r Food Foundation[61] yn dangos y byddai angen i bumed ran fwyaf ddifreintiedig y boblogaeth wario 45% o'u hincwm gwariadwy (ar ôl costau tai) ar fwyd i ateb y deiet a argymhellir gan y llywodraeth (y Canllaw Bwyta'n Dda) - mae hyn yn codi i 70% os oes gan yr aelwyd blant. Byddai'r pumed ran leiaf ddifreintiedig, mewn cymhariaeth, ag angen gwario dim ond 11% o'u hincwm gwariadwy ar fwyd.[62]

5.26 Ategir hyn gan ddata o adroddiad Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar gostau byw, a ganfu bod y dengradd incwm isaf wedi gwario 12.8% a'r ail ddengradd wedi gwario 15.0% o'u gwariant cyffredinol (hynny yw, gan gynnwys costau tai) ar fwyd a diod di-alcohol yn 2023/24. Mae hyn o'i gymharu ag 8.7% o aelwydydd sydd ag incymau yn y dengradd uchaf[63]. Ar yr un pryd, mae prisiau bwyd ar

[60] Cyngor Sir Gâr, Bwydlen Cenedlaethau'r Dyfodol
[61] The Food Foundation
[62] The Food Foundation (2025) The Broken Plate
[63] House of Commons Library (2026) High cost of living: Impact on households

gyfer bwyd 'iachach' a 'llai iach' wedi bod yn cynyddu dros amser[64], gan gael effeithiau anghymesur heb amheuaeth ar ddeietau aelwydydd incwm is.

5.27 Roedd data diogelwch bwyd yn yr un modd yn brin ar lefel awdurdod lleol neu ranbarthol, ond mae data cenedlaethol ar ddiogelwch bwyd yn paentio darlun tywyll. Canfu adroddiad Trussel ‘Hunger in Wales’[65] ar gyfer 2025 fod 660,000 (25%) o oedolion yn profi ansicrwydd bwyd yn 2024. Defnyddiodd un aelwyd mewn 14 yng Ngymru o leiaf un math o ddarpariaeth bwyd elusennol, ond mae hyn yn cynrychioli llai na hanner y rheini sy’n profi ansicrwydd bwyd (ni throdd 54% o’r rheini oedd yn profi ansicrwydd bwyd at ddarpariaeth bwyd elusennol). Serch hynny, dosbarthodd banciau bwyd Trussell 172,000 o barseli bwyd brys rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, a oedd yn cynrychioli cynnydd o 31% ers 2021/22. Canfu'r adroddiad fod aelwydydd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig bum gwaith yn fwy tebygol o fod yn ansicr o fwyd na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Yn ogystal, rhybuddiodd yr adroddiad fod darpariaeth banciau bwyd yn cael trafferth cadw i fyny ag anghenion cymunedau, yn enwedig lle roedd awdurdodau lleol yn lleihau'r ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol oherwydd toriadau cyllideb.

5.28 Mesurwyd argaeledd deiet iach ar sail agosrwydd at fwyd fforddiadwy, maethlon. Mae'r Mynegai Lleoedd Blaenoriaeth ar gyfer Bwyd[66] yn fynegai cyfansawdd sy'n nodi cymdogaethau sydd heb fynediad at ddewisiadau bwyd rhad, iach a chynaliadwy. Mae'r mynegai wedi'i rannu'n saith dangosydd, y mae 4 ohonynt yn ymwneud ag agosrwydd corfforol at gyflenwadau bwyd. Mae'r dadansoddiad o'r pedwar dangosydd hyn ar gyfer Dyfed Powys i'w weld yn Nhabl 5.6. Mae'r mynegai wedi'i sgorio o 1-10, gyda sgôr o 1 yn cynrychioli'r lle bwyd blaenoriaeth uchaf (mwyaf agored i niwed o ran mynediad at fwyd). Mae Tabl 5.6 yn dangos, ac eithrio Sir Benfro ar gyfer 'hygyrchedd i gyfleusterau manwerthu archfarchnadoedd', bod pob awdurdod lleol yn disgyn yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru ar gyfer mynediad at wasanaethau bwyd.

[64] The Food Foundation (2025) The Broken Plate
[65] Trussell (2025) Hunger in Wales
[66] Healthy and Sustainable Places Data Service: Priority Places for Food Index

Tabl 5.6. Lleoedd Blaenoriaeth ar gyfer data Bwyd i awdurdodau lleol Dyfed Powys, gan ddangos 4 o'r 7 dangosydd a ddefnyddir i gyfrifo'r mynegai.

	Hygyrchedd at gyfleusterau manwerthu archfarchnadoedd (12.5% o fynegai cyfansawdd)	Agosrwydd at gyfleusterau manwerthu archfarchnadoedd (12.5% o fynegai cyfansawdd)	Mynediad at ddanfoniadau ar-lein (12.5% o fynegai cyfansawdd)	Agosrwydd at ddarpariaeth bwyd heb fod yn archfarchnad (12.5% o fynegai cyfansawdd)
Powys	2.64	2.97	3.87	4.00
Ceredigion	4.41	3.62	2.38	2.08
Sir Benfro	**5.55**	3.94	1.86	1.26
Sir Gaerfyrddin	4.49	4.28	3.10	5.19
Cyfartaledd Dyfed Powys	*4.27*	*3.70*	*2.81*	*3.13*
Cymru	**5.50**	**5.50**	**5.42**	**5.50**

5.29 Mae mynediad at ddanfoniadau ar-lein ac agosrwydd at ddarpariaeth bwyd nad yw'n archfarchnadoedd yn arbennig o isel ar gyfartaledd ar draws rhanbarth Dyfed Powys. Mae'n debyg y gellir esbonio hyn gan ledaeniad demograffig y rhanbarth, sy'n dioddef o gymunedau a gwasanaethau gwasgaredig.

5.30 Ymhellach, mae data WIMD ar gyfer Dyfed Powys yn 2025[67] (Tabl 5.7) yn datgelu bod Powys, Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn sefyll allan â chyfrannau uchel o ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau. Mae hyn oherwydd bod y siroedd hyn yn fawr ac yn brin o boblogaeth, gyda llawer o aneddiadau gwledig bach. Gyda 49%, neu 39 ardal, Powys oedd yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau. Ceredigion oedd y nesaf at uchaf, gyda 44% (neu 20) o'i ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig. Sgoriodd Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin 35% a 23%, yn eu tro.

[67] Llywodraeth Cymru (2026) Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Tabl 5.7: Data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025) ar barth 'mynediad at wasanaethau' ar gyfer awdurdodau lleol yn Nyfed Powys.

	Nifer o LSOAau mewn awdurdod lleol	% LSOAau yn y 10% rhengoedd mwyaf difreintiedig 1-191	% LSOAau yn y 50% rhengoedd mwyaf difreintiedig 1-955
Powys	79	49	82
Ceredigion	45	44	84
Sir Benfro	71	35	77
Sir Gaerfyrddin	111	23	69
Cymru	**1917**	**10**	**50**

5.31 Mae data ansoddol yn cefnogi'r canfyddiadau hyn, gyda rhanddeiliaid yn nodi pellteroedd hir rhwng cymunedau ac archfarchnadoedd, diffyg mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus i allfeydd bwyd, ac unigrwydd pobl agored i niwed sy'n arwain at ansicrwydd bwyd.

Crynodeb

5.32 Mae cydnerthedd ochr y galw yn Nyfed Powys yn wan ac yn anwastad, wedi'i yrru gan lefelau uchel o ansicrwydd bwyd, mynediad cyfyngedig at fwyd iach mewn ardaloedd gwledig a phwysau fforddiadwyedd ar aelwydydd incwm isel. Mae caffael sector cyhoeddus yn cynrychioli cryfder a phwynt trosoledd clir, ond nid yw'n gwneud iawn am wendidau strwythurol a brofwyd gan aelwydydd ar hyn o bryd.

Llywodraethiant a pholisi

Cryfderau ac asedau

5.33 Cafodd llywodraethiant a chydnerthedd polisi eu sgorio yn ôl dangosyddion lluosog, gan gynnwys integreiddio strategol, cydlynu sefydliadol a sefydlogrwydd ariannu, a gafodd eu sgorio'n oren.

5.34 Gwerthuswyd integreiddio strategol yn seiliedig ar bresenoldeb diogelwch bwyd neu gydnerthedd o fewn cyfathrebu'r cyngor a chyrff cyhoeddus, gan gynnwys strategaethau a dogfennau polisi'r cyngor. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau at gynyddu gwariant bwyd lleol a chaffael cyhoeddus yn lleol, gan fod hyn wedi cyfrannu at gadwyni cyflenwi cydnerth, lleol. Ar draws

cynghorau, cyfeirir at ddiogelwch bwyd a/neu gydnerthedd mewn dogfennau amrywiol:

- Cynlluniau Newid yn yr Hinsawdd[68], Corfforaethol a Cydraddoldeb Strategol[69], Llesiant[70] a Cynllunia Datblygu Lleol[71]. Mae Cyngor Sir Powys hefyd yn aelod o Bartneriaeth Bwyd Lleol Bwyd Powys Food, a chyfeirir at y Cyngor yng Ngweledigaeth Bwyd Bwyd Powys Food 'Gweledigaeth, Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bwyd i Bowys 2024-28'[72].
- Strategaethau Newid yn yr Hinsawdd[73], Llesiant[74], Tlodi[75], Corfforaethol[76], Adfer ac Adfywio[77] Cyngor Sir Penfro. Mae Straetegaeth Gaffael y Cyngor hefyd yn amlygu eu hymrwymiad i "Ddatblygu offer rhanbarthol fel buddion cymunedol i helpu gwella cydnerthedd busnesau lleol a sicrhau'r buddion economaidd i helpu gwella cydnerthedd busnesau lleol a sicrhau bod y buddion economaidd o'n gwariant caffael sector cyhoeddus yn aros yng Nghymru"[78].
- Cynllun Gweithredu Sero Net Cyngor Sir Ceredigion[79] a Chynllun Llesiant Lleol 2023-28[80]. Mae Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud ymrwymiad i "Flaenoriaethu cynnyrch a chadwyni cyflenwi a gaffaelir yn lleol"[81], tra bo'r Cynllun Llesiant Lleol yn datgan, "Trwy gaffael, bydd sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn uchafu'r defnydd o gyflenwyr lleol ar gyfer ei nwyddau, gwasanaethau a gweithiau"[82].
- Strategaethau Llesiant[83] a Sero Net[84] Cyngor Sir Gâr. Mae'r bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi drafftio Strategaeth Bwyd Lleol[85] sy'n amlinellu ymrwymiad yh Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu strategaeth

[68] Cyngor Sir Powys: Strategaeth ar gyfere Newid yn yr Hinsawdd
[69] Cyngor Sir Powys County Council: CRYFACH, TECACH, GWYRDDACH, Ein Cynllun Corfforaethol a Chydraddoldeb Strategol 2023-2027
[70] Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys
[71] Powys County Council / Cyngor Sir Powys - Y Strategaeth a Ffefrir
[72] Bwyd Powys Food (2024) Cynllun Gweledigaeth, Strategaeth a Gweithredu Bwyd i Bowys 2024-2028
[73] Cyngor Sir Penfro: Cynllun gweithredu tuag at ddod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030
[74] Cyngor Sir Penfro: Cynllun llesiant i Sir Penfro
[75] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro: Mynd i'r afael â Thlodi: Ein Strategaeth 2023
[76] Cyngor Sir Penfro Strategaeth Gorfforaethol 2025-30
[77] Cyngor Sir Penfro Strategaeth Adfywio
[78] Cyngor Sir Penfro Strategaeth Gaffael 2023-27
[79] Cyngor Sir Ceredigion: Cyflawni Carbon Sero Net erbyn 2030
[80] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion: Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28
[81] Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion County Council Corporate Strategy 2022-27
[82] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion: Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28
[83] Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin 2023-28
[84] Carmarthenshire County Council: Route towards becoming a Net Zero Carbon Local Authority by 2030
[85] Strategaeth Ddrafft Bwyd Lleol Sir Gaerfyrddin


gyfannol ar gyfer gwella cydnerthedd a chynaliadwyedd bwyd lleol. Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yn cynnwys canlyniad arfaethedig i fusnesau gael eu “cynorthwyo i fanteisio ar gadwyni cyflenwi a chyfleoedd caffael lleol”[86]. Mae’r Cyngor wedi gwneud ymrwymiad hefyd i symud o 53% i 70% caffael lleo erbyn 2027[87].

5.35 Aseswyd cydlynu sefydliadol yn seiliedig ar gydlynu system fwyd traws-sector, boed hynny'n cael ei gyfryngu trwy'r sectorau cyhoeddus neu gymunedol. Mae adborth ansoddol gan randdeiliaid yn cefnogi'r syniad y gall awdurdodau lleol fod yn ymwneud â chydnerthedd bwyd, er y gall hyn gael ei gyfyngu gan adnoddau a blaenoriaethu amcanion eraill. Tynnodd rhanddeiliaid o Geredigion sylw at berthynas gref â'r bwrdd iechyd lleol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

5.36 Yn aml, nodwyd bod Partneriaethau Bwyd Lleol yn hanfodol wrth gynnal cydweithrediad a chyfathrebu rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol, oherwydd eu cysylltiadau cryf â chynghorau, byrddau iechyd, sefydliadau gwirfoddol lleol a chynhyrchwyr bwyd annibynnol. Mae Ffigur 5.5 yn dangos adran wedi’i chwyddo o fap rhanddeiliaid llawn Dyfed Powys, sy'n nodi cysylltiadau lluosog rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus, cynghorau, Partneriaethau Bwyd Lleol a sefydliadau cymunedol.

[86] Cyngor Sir Gâr: Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027
[87] Mannau Gwyrdd Cydnerth: Archwilio Mynediad Cymunedol at Ffermydd a Thir, Astudiaeth Achos Sir Gaerfyrddin

Ffigur 5.5: Mapio rhanddeiliaid Dyfed Powys, gan ddangos cysylltiadau rhwng sefydliadau sector cyhoeddus a chymunedol, wedi'u cyfryngu gan partneriaethau Bwyd Lleol.



Mae fersiwn ar-lein o'r map hwn ar gael yma.

5.37 Mae enghreifftiau eraill o gydweithio yn cynnwys y Bartneriaeth Marches Forward drawsffiniol[88] a Phartneriaeth Ffermydd y Dyfodol[89] ym Mhowys, a gweithiodd yr ail gyda Chyngor Sir Powys i ddatblygu canllaw cynllunio newydd i gynorthwyo tyfwyr i fyw a gweithio lle maen nmhw'n ffermio; cafodd hyn ei fabwysiadu wedyn gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

5.38 Elfen arall o gydnerthedd a aseswyd o dan lywodraethiant a pholisi oedd argaeledd cyllid. Enghraifft nodedig o fentrau bwyd sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd yw Partneriaethau Bwyd Lleol eu hunain, sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r adrannau Cyfiawnder Cymdeithasol a Newid yn yr

[88] Marches Forward Partnership
[89] Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol: Ffermydd y Dyfodol

Hinsawdd a Materion Gwledig. Rhwng 2025 a 2026, ymrwymodd Llywodraeth Cymru £2 filiwn o gyllid ar gyfer Partneriaethau Bwyd Lleol ac mae wedi ymrwymo i barhau i roi adnoddau iddynt tan fis Mawrth 2028[90].

5.39 Yn yr un modd, mae Cronfa Ffyniant a Rennir y DU (SPF) wedi cael ei dyrannu i awdurdodau lleol yn Nyfed Powys ar gyfer prosiectau bwyd; mae enghreifftiau yn cynnwys Cyngor Sir Powys, a dderbyniodd £150,274 o gyllid SPF ar gyfer prosiect Ecodyfi 'Tyfu'r Economi Fwyd Leol'[91]. Derbyniodd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol hefyd £234,176 o gyllid SPF ar gyfer cynllun peilot yn cynnwys chwe fferm i dyfu bwyd ar gyfer mrachnadoedd lleol a rhanbarthol[92]. Derbyniodd Cyngor Sir Gâr hefyd gyllid SPF ar gyfer Prosiect Datblygu System Fwyd Bwyd Sir Gâr'[93].

5.40 Mae llwyddiannau cyllido eraill yn cynnwys Cultivate ym Mhowys, a dderbyniodd gyllid o £337,000 gan Gronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol am eu menter 'Get Growing, Get Cooking Get Skills'[94].

5.41 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi darparu cyllid drwy Grant Bwyd Ceredigion; Yn 2024 fe wnaethant ddosbarthu £71,652 o gyllid i brosiectau bwyd a arweinir gan y gymuned, gan gynnwys sefydlu dwy gegin gymunedol. Cafodd rownd newydd o'r cyllido hwn ei agor ym Mai 2025[95].

5.42 Mae tirwedd cyllido Sir Benfro yn ymddangos yn amrywiol, gyda ffynonellau o gyllido ar gyfer prosiectau bwyd yn cynnwys: Grant Gwella Sir Benfro[96], sydd wedi darparu cyllid i sawl cynllun tyfu a dosbarthu bwyd ers 2020; Cronfa Dwf Sir Benfro, sy'n trefnu bod cyllid ar gael i fusnesau yn y sector bwyd a Diod[97]; Grant Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru, a gyllidodd Brosiect Gwerthu Cymunedol Ffres Sir Benfro PLANED hyd at 2023[98], a Chronfa Datblygu

[90] Synnwyr bwyd Cymru (2025) Statws Partneriaethau Bwyd Lleol yn 2025
[91] Biosffer Dyfi: Ffermio bwyd
[92] Cyngor Sir Powys (2024) '32 prosiect yn cael arian SPF i helpu busnesau Powys i ehangu'
[93] Bwyd Sir Gâr Food: Prosiect Datblygu Systemau Bwyd
[94] Powys County Times (2024) 'Powys food project funded by £300,000 National Lottery grant'
[95] Cyngor Sir Ceredigion(2025) 'Mae rownd newydd o gyllid Grantiau bwyd yn agored nawr am geisiadau'
[96] Grant Gwella Sir Benfro Cyngor Sir Penfro
[97] Cyngor Sir Penfro, Cronfa Ffyniant a Rennir y DU
[98] Gwerthu Cymunedol Ffres Sir Benfro

Bwyd Partneriaethau Bwyd Lleol Sir Benfro, a agorodd grantiau yn 2025 ar gyfer prosiectau bwyd cymunedol[99].

Gwendidau a bylchau

5.43 O ran cydnerthedd llywodraethiant a pholisi, nodwyd cyllid fel gwendid sylweddol yn y rhanbarth. Siaradodd rhanddeiliaid am gylchoedd cyllido byr sy'n cyfyngu ar feddwl a chynllunio cydnerthedd tymor hir, a dibyniaeth ar grantiau sefydliadol sy'n creu bregusrwydd pe bai llywodraethau cenedlaethol yn tynnu neu'n lleihau cyllid. Soniodd rhanddeiliaid am doriadau cyllideb awdurdodau lleol yn achosi problemau â chyllid, sy'n hidlo i gynghorau tref a phlwyf a phrosiectau sy'n cael eu rhedeg ar lefel leol.

5.44 Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod angen newid dyraniad cyllid; er enghraifft, dylid dyrannu'r cyllid hwnnw'n uniongyrchol i gynhyrchwyr, yn hytrach na gorfodi iddynt 'neidio trwy gylchoedd' i gael cyllid nad yw'n cyd-fynd â'u hanghenion. Yn yr un modd, cyfeiriodd rhanddeiliaid at bwysigrwydd cyllid i gefnogi seilwaith ar gyfer graddio cynhyrchu a dosbarthu.

5.45 Roedd cynllunio argyfwng yn faes llywodraethiant arall lle canfuwyd bod Dyfed Powys yn agored i niwed; nid oedd yr un o'r cynghorau wedi cyhoeddi cynlluniau bwyd brys penodol, a dim ond Cyngor Sir Powys a gyfeiriodd at fwyd yn eu Cofrestr Risg Strategol, mewn perthynas â "chyflenwi bwyd, nwyddau a gwasanaethau hanfodol oherwydd dymchweliad cadwyni cyflenwi a rhwydweithiau dosbarthu yn ymwneud â hinsawdd"[100]. Mae Cofrestr Risg Gymunedol Dyfed Powys[101], sy'n darparu gwybodaeth am sefyllfaoedd brys posibl a allai effeithio ar y rhanbarth, yn sôn am 'gynhyrchu a dosbarthu bwyd' o dan effeithiau risg tywydd garw a cholli seilwaith, ond yn mynd i ychydig o fanylion am y camau arfaethedig i liniaru'r effeithiau hyn. Nid oes canllawiau cynllunio argyfwng penodol ar gyfer sifiliaid sy'n cynnwys gwybodaeth am gyrchu, stocio, storio a pharatoi bwyd mewn argyfyngau.

5.46 Cefnogodd rhanddeiliaid y syniad o wella parodrwydd argyfwng mewn perthynas â bwyd, gyda rhai yn awgrymu pwyllgorau cydnerthedd lleol fel

[99] Bwyd a Diod Cymru: Cynllun Cyllido Bwyd Lleol Cydweithredol yn cael ei lansio
[100] Llywodraeth Cymru (2025) Cynllun partneriaeth bwyd lleol
[101] Fforwm Cydnerthedd Lleol Dyfed Powys: Cofrestr Risg Gymunedol Dyfed Powys

gweithredwyr posibl i gydlynu ymateb bwyd mewn cyfnod o argyfwng. Awgrymodd hefyd y gallai sefydliad o'r fath gynnal ymarferion hyfforddi gyda rhanddeiliaid lleol a darparu arweiniad ar stocio bwyd cymunedol a chynllunio cydnerthedd. Cyfeiriwyd at gyllid ar gyfer seilwaith i gefnogi storio a chynhyrchu ynni oddi ar y grid fel ymyrraeth angenrheidiol.

Crynodeb

5.47 Ar y cyfan, mae cydnerthedd llywodraethiant a pholisi yn Nyfed Powys yn datblygu, ond yn dameidiog, gyda bwyd yn cael ei gydnabod fwyfwy mewn cynlluniau strategol a rolau cydlynu cryf a chwaraeir gan Bartneriaethau Bwyd Lleol. Fodd bynnag, mae cylchoedd cyllido tymor byr, cynllunio bwyd brys cyfyngedig, ac integreiddio gwan â strwythurau wrth gefn sifil yn cyfyngu ar allu'r system i ragweld ac ymateb i siociau.

Cymunedol a chymdeithasol

Asedau a chryfderau

5.48 Cafodd cydnerthedd cymunedol a chymdeithasol ei asesu ar sail seilwaith bwyd cymunedol, gwirfoddoli a sylfaen sgiliau, cynhwysiant a thegwch a dwysedd rhwydwaith cymdeithasol.


5.49 Mae data ansoddol a mapio rhanddeiliaid (gweler Ffigur 5.6) yn awgrymu bod seilwaith bwyd cymunedol ar draws Dyfed Powys yn gryf, gyda rhanddeiliaid yn cyfeirio at nifer o fentrau, prosiectau a sefydliadau sy'n seiliedig ar fwyd yn eu cymunedau. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Ffermydd cymunedol a chlystyrau tyfu/ffermydd (e.e. cynllun Blwch Llysiau Mach[102]; gweler Astudiaeth Achos A yn Atodiad D), sy'n dod â thyfwyr a chynhyrchwyr lleol ynghyd i rannu adnoddau a gwybodaeth ac yn darparu llwybr i farchnad o fewn cymunedau lleol.
- Hybiau cymunedol (e.e. Hyb Cymunedol Borth[103] a Porthi Aber, gweler Astudiaeth Achos D yn Atodiad D) a mannau sy'n gweithredu fel lleoedd ymgasglu i bobl rannu bwyd, adeiladu cymuned a rhannu gwybodaeth – yn neilltuol o bwysig ar adegau argyfyngau.

[102] Blwch Llysiau Mach
[103] Hyb Cymunedol Borth

- Rhwydweithiau banciau bwyd, oergelloedd cymunedol, hybiau bwyd cymunedol a mannau cynnes sy'n darparu mannau ar gyfer ailddosbarthu bwyd a rhannu gwybodaeth am dyfu bwyd, paratoi ac adnoddau cymunedol.

Ffigur 5.6: Mapio rhanddeiliaid Dyfed Powys, gan ddangos sefyliadau cymunedol



Mae fersiwn ar-lein o'r map hwn ar gael yma.

5.50 Priodolodd rhanddeiliaid gryfder mentrau cymunedol i bobl leol sy'n gyrru newid o'r gwaelod i fyny, gyda gweithgarwch cydlynu gan Bartneriaethau Bwyd Lleol yn atgyfnerthu'r gwaith hwn ac yn rhannu arfer da. Mae hyn yn ymwneud â dwysedd rhwydwaith cymdeithasol, gyda mapio rhanddeiliaid yn nodi'r sector cyhoeddus a gwirfoddol fel cryfder penodol; cyfeiriwyd at Gymdeithasau'r Mudiadau Gwirfoddol ar draws Powys, Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin fel liferi pwysig wrth gysylltu prosiectau cymunedol â chymorth y sector cyhoeddus. Soniwyd hefyd am fanciau bwyd fel rhai sydd â chysylltiad da â darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a chymdeithasol lleol.

Gwendidau a bylchau

5.51 Un o is-feysydd cydnerthedd cymunedol a chymdeithasol oedd gwirfoddoli a sylfaen sgiliau; Nid oedd data rhanbarthol ar niferoedd gwirfoddoli mewn prosiectau bwyd ar gael. Fodd bynnag, datgelodd data CGGC ar gyfer gwirfoddoli yn yr awdurdodau lleol, ar draws rhanbarth Dyfed Powys yn 2023, fod 36.4% o'r boblogaeth oedolion wedi gwirfoddoli, sy'n cyfateb i oddeutu 190,218 o bobl (yn ôl y boblogaeth ar y pryd)[104]. Mae hyn yn cynrychioli ased sylweddol yn y rhanbarth; er nad oedd data ar gyfer mathau penodol o brosiectau, hynny yw, bwyd cymunedol, ar gael.

5.52 Datgelodd data ansoddol gan randdeiliaid bryder sylweddol ynghylch dibyniaeth tirwedd bwyd y gymuned ar wirfoddoli. Siaradodd rhanddeiliaid am orddibyniaeth ar wirfoddolwyr i redeg prosiectau, a welsant yn beryglus wrth i oedrannau pensiwn gynyddu a phobl iau fudo i ffwrdd o ardaloedd gwledig.

5.53 Siaradodd rhanddeiliaid hefyd am sgiliau mewn tyfu a pharatoi bwyd, gan nodi gwendidau sy'n gysylltiedig â diffyg cynhyrchwyr bwyd hyfforddedig, statws canfyddedig isel o dyfu bwyd fel gyrfa, diffyg diwylliant tyfu bwyd, colli sgiliau coginio, a dealltwriaeth gyfyngedig o sut olwg sydd ar ddeiet 'gytbwys' a sut i'w baratoi. Fe wnaethon nhw hefyd sôn am sgiliau prosesu penodol – fel cigyddiaeth a physgota – yn cael eu colli. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd cyllid i ddarparu'r seilwaith a'r hyfforddiant i ddatblygu sgiliau bwyd yn y boblogaeth.

5.54 Codwyd cynhwysiant a thegwch, is-barth arall o gydnerthedd cymunedol a chymdeithasol, fel mater. Mae data gan Trussel yn datgelu nad yw dros hanner (54%) o bobl ansicr o ran bwyd yn cael mynediad at ddarpariaeth bwyd elusennol[105]. Er y gallai hyn fod yn berthynol i rwystrau / stigma diwylliannol, crybwyllodd rhanddeiliaid anawsterau mewn cyrchu grwpiau incwm isel ac ansicr o ran bwyd fel factor mawr.

5.55 Crybwyllwyd bod mynediad at fwyd iach, ffres yn broblem mewn ardaloedd o amddifadedd uchaf. Priodolodd rhanddeiliaid hyn i amrediad o ffactorau, gan gynnwys cyfyngiadau amser, opsiynau bwyd iach yn ddrutach, anhygyrchedd

[104] Y sector gwirfoddol yng Nghymru - WCVA
[105] Trussell (2025) Hunger in Wales

gwledig a siopa cyfleuster, a dylanwad marchnata bwyd. Cyfeiriodd rhanddeiliaid hefyd at ddiffyg data ar grwpiau incwm isaf – ble maen nhw a beth sydd ei angen arnynt – i gynorthwyo grwpiau cymunedol a sefydliadau cymorth bwyd i dargedu darpariaeth yn well.

5.56 Cododd rhanddeiliaid yr amrywiaeth yn y ddarpariaeth bwyd cymunedol o fewn a rhwng rhanbarthau. Er enghraifft, disgrifiodd rhanddeiliad o Bowys y gwahaniaeth rhwng y Drenewydd, sydd â darpariaeth dda o farchnadoedd bwyd lleol, caffi cymunedol a chynllun gwarged bwyd, a rhywle fel y Trallwng neu Lanfair-ym-Muallt, sydd yn gymharol ddiffygiol. Fe wnaethant ddisgrifio'r annhegwch fel 'lotri cod post' sy'n arwain at aelwydydd o'r Trallwng yn teithio i'r Drenewydd i gael mynediad at wasanaethau bwyd cymunedol.

5.57 Enghraifft arall o'r ffenomen hon oedd banciau bwyd Llandrindod yn erbyn Ystradgynlais. Banc bwyd Llandrindod sy'n berchen ar yr adeilad y maen nhw'n gweithredu ohono, mae'n rhan o rwydwaith Trussel ac mae'n gysylltiedig â nifer o sefydliadau cymunedol yn yr ardal leol. Maen nhw'n darparu cyngor tai a gwasanaethau cymdeithasol eraill, mannau preifat a gerddi cymunedol. Mewn cymhariaeth, mae banc bwyd Ystradgynlais yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr, yn rhentu'r adeilad maen nhw'n gweithio ohono ac fe'u disgrifiwyd fel un sy'n 'cael trafferth' i gadw pethau i fynd ac yn brin o gymorth cyfannol.

5.58 Mae'r gwahaniaeth mewn darpariaeth rhwng ac o fewn awdurdodau lleol, a achosir gan wahaniaethau mewn seilwaith, cymorth sector cyhoeddus a gweithredu a ysgogir gan y gymuned sydd ar gael, yn arwain at anghydraddoldeb mynediad i gymunedau gwahanol. I helpu mynd i'r afael â hyn, awgrymodd un rhanddeiliad ddefnyddio'r WIMD i dargedu darpariaeth cymorth bwyd ar lefel uwch-leol.

5.59 Elfen derfynol o gydnerthedd cymunedol a chymdeithasol a gafodd ei asesu oedd dwysedd rhwydweithgiau cymdeithasol. Er bod mapio rhanddeiliaid (gweler Ffigur 5.1 am y map rhanddeiliaid llawn) yn datgelu seilwaith cymunedol cryf a graddfa o integreiddio sector cyhoeddus, crybwyllwyd cysylltiadau â'r sector preifat – cynhyrchwyr a chyflenwyr mawr o fwyd – am eu habsenoldeb. Mae hyn yn cydberthyn ag ymgysylltiad rhanddeiliaid ar

gyfer y prosiect hwn, lle cafodd ymdrechion i ymestyn ac ymgysylltu â phrif gyflenwyr, cyfanwerthwyr a manwerthwyr bwyd preifat yn y rhanbarth lwyddiant cyfyngedig.

5.60 Yn yr un modd, crybwyllodd un rhanddeiliad sector cyhoeddus anawsterau mewn sicrhau ymgysylltu cyson ag Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru. Mae hyn yn wendid posibl, gan fod y gadwyn fwyd yn dibynnu ar sectorau yn gweithio gyda'i gilydd, ac felly mae bwlch neu wendid mewn cysylltiadau rhwng sectorau yn cynrychioli gwendid posibl yn y system[106].

Crynodeb

5.61 Mae cydnerthedd cymunedol a chymdeithasol yn gryfder cymharol yn Nyfed Powys, wedi'i ategu gan rwydweithiau trwchus o seilwaith bwyd cymunedol, gweithredu gwirfoddol cryf a gwybodaeth leol. Fodd bynnag, mae'r cydnerthedd hwn yn fregus oherwydd dibyniaeth ar wirfoddolwyr, darpariaeth anwastad rhwng lleoedd, bylchau mewn sgiliau a chynhwysiant, a chysylltiadau gwan rhwng gweithgarwch cymunedol, cynhyrchwyr a rhai gweithredwyr yn y sector preifat.


[106] DEFRA (2024) United Kingdom Food Security Report 2024: Theme 3: Food Supply Chain Resilience

6. Gweledigaeth y dyfodol ar gyfer system fwyd Dyfed Powys

6.1 Wedi sefydlu cyflwr presennol cydnerthedd bwyd yn Nyfed Powys, bydd yr adran hon yn amlinellu'r 'weledigaeth' ar gyfer cydnerthedd bwyd yng Nghymru fel y gellir ei thynnu o gyfuniad o ddogfennau polisi a strategaeth presennol a gyhoeddwyd gan lywodraethau'r DU a Chymru. Bydd hefyd yn crynhoi ymatebion cyfranogwyr i'r weledigaeth hon, a nodweddion o'u gweledigaethau eu hunain, a gafodd eu hesbonio yng Ngweithdy 1.

Sut mae Dyfed Powys Cydnerth o ran Bwyd yn edrych?

Ffigur 6.1: Nodweddion craidd dyfodol cydnerth o ran bwyd, fel yr amlinellir yn nogfennau polisi presennol y DU a Chymru, a gynhyrchwyd fel rhan o Faes Gwaith 1



6.2 Cyn dangos y weledigaeth yn Ffigur 6.1 i gyfranogwyr, fe wnaethom ofyn iddynt ystyried eu gweledigaeth o Ddyfed Powys cydnerth o ran bwyd eu Hunain a rhannu un nodwedd yn y sgwrs â'r grŵp. Dangosir eu hymatebion yn Ffigur 6.2; mae tebygrwydd trawiadol.

Ffigur 6.2: Nodweddion Dyfed Powys cydnerth o ran bwyd; gweledigaethau cyfranogwyr Gweithdy 1



6.3 Mae'n bwysig cael gweledigaeth a rennir o'r dyfodol yr ydym yn gweithio tuag ato gyda'n gilydd, tra'n peidio â chymryd cefnogaeth na derbyniad cyffredinol yn ganiataol. Mae archwilio ymatebion i'r weledigaeth yn agored ac yn onest wedi helpu i adeiladu dealltwriaeth rhwng cyfranogwyr a chreu agwedd meddwl agored fel sail ar gyfer Gweithdy 2.

Ble mae'r weledigaeth hon yn cynnig cyfleoedd?

6.4 Nododd cyfranogwyr gyfleoedd ar gyfer: defnyddio prosiectau tyfu cymunedol i wella iechyd meddwl a chorfforol a chryfhau cymunedau; gwell cydweithrediad rhwng tyfwyr, megis rhwydweithiau rhannu gwybodaeth a chylchoedd peiriannau; dyblygu prosiectau arfer gorau a chysylltu hyn â phenderfyniadau cynllunio ynghylch lleoli tai ac ysgolion newydd; a defnyddio polisïau fel toriadau treth ar gyfer bwyd a thyfu sydd o fudd i iechyd pobl a'r amgylchedd ehangach.

Ble mae'r weledigaeth hon yn cyflwyno her neu fygythiad?

6.5 Nododd cyfranogwyr fod yr heriau'n cynnwys: y posibilrwydd o golli sgiliau a gwybodaeth wrth i dyfwyr a ffermwyr presennol heneiddio; bygythiadau canfyddedig i ddiwylliant ffermio presennol; materion cynllunio a thrwyddedu ynghylch defnydd tir a seilwaith; cost offer ac ynni posibl mwy o storio; pŵer archfarchnadoedd a'u cadwyni cyflenwi dros ddefnyddwyr; yr amser a'r arian sydd eu hangen i newid arferion siopa; a'r risg o gael eich gweld fel pregethu am yr hyn sy'n gwneud deiet iach.

Ar beth neu bwy allai fod angen cymorth rhagweithiol i sicrhau trawsnewid cyfiawn / teg?

6.6 Fe wnaethom gydnabod y bydd cyflawni'r weledigaeth yn Ffigur 6.1 yn gofyn am newid trawsnewidiol, a fydd yn cael effeithiau amrywiol ar draws gwahanol grwpiau. Felly, fe wnaethom ofyn ar bwy allai fod angen cymorth rhagweithiol i sicrhau trawsnewid cyfiawn?

6.7 Nodwyd dau brif faes ar gyfer cymorth rhagweithiol. I ddefnyddwyr (gan gynnwys ysgolion, ac ati) roedd hyn yn ymwneud â grymuso o amgylch deietau iach – e.e. sgiliau coginio a fforddiadwyedd cynhwysion. Ar gyfer cynhyrchwyr bwyd roedd yr awgrymiadau yn cynnwys cymorth i roi hwb i dyfwyr ar raddfa fach, i ffermwyr arallgyfeirio neu drawsnewid, ac ar gyfer hyfforddi tyfwyr newydd. Er bod incwm isel yn fater allweddol, mae cymorth hefyd yn ymwneud â hyrwyddo parch a gwerth diwylliannol i waith cynhyrchwyr bwyd sylfaenol cynradd.

Crynodeb

6.8 Roedd y weledigaeth a nodwyd mewn dogfennau polisi yn atseinio gyda chyfranogwyr, ac er eu bod yn gallu nodi rhai heriau a bygythiadau, roedd llawer o ddyheadau a rennir.

7. Meysydd cyflawni ar gyfer Dyfed Powys cydnerth o ran bwyd

Canfyddiadau o Weithdai Cyfranogol

7.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau o'r gweithdai cyfranogol. Cydgreodd 75 o gyfranogwyr gweithdai (rhestrir yn Atodiad C) y syniadau yn y tudalennau sy'n dilyn.

7.2 Mae dadansoddiad o'r data wedi galluogi adnabod **8 maes cyflawni:**

#1 **Uwchraddio Ymwybyddiaeth:** ymgysylltu a llywodraethiant

#2 **Adnabod Anghenion Bwyd:** blaenoriaethu grwpiau bregus

#3 **Mapio Asedau Bwyd:** deall cryfderau presennol

#4 **Datblygu seilwaith**: adeiladu amrywiaeth

#5 **Paratoi cynlluniau gweithredol:** ar gyfer ymateb i darfu dwys ar fwyd

#6 **Uwchsgilio pawb:** grymuso â gwybodaeth a sgiliau

#7 **Cryfhau Systemau Bwyd Lleol:** cefnogi cynhyrchu cynaliadwy

#8 **Ailgydbwyso pŵer**: tuag at y bobl

7.3 Mae'r pump cyntaf yn cael eu trefnu mewn ffordd sy'n fras ddilyniannol ac yn ffurfio llwybr sy'n ein paratoi ar gyfer siociau bwyd dwys. Mae'r tri olaf yn alluogwyr parhaus, a fydd yn cefnogi'r camau uchod, ac yn helpu i fynd i'r afael â'r gwendidau cronig yn ein system fwyd (gweler Ffigur 7.2 am grynodeb gweledol). Gyda'i gilydd, maent i gyd yn adeiladu tuag at Dyfed Powys sy'n fwy cydnerth o ran bwyd.

7.4 Mae pob maes cyflawni yn cynnwys amcanion, a chamau y gellid eu cymryd tuag at yr amcanion hynny ar gyfer pob un o bedair 'lefel' gweithredu: unigolyn/cartref; cymuned; rhanbarthol a chenedlaethol. Gellir ystyried y camau gweithredu fel 'dewislen o opsiynau' i lywio Strategaeth Cydnerthedd Bwyd terfynol Dyfed Powys. Byddai angen mireinio ychwanegol ar rai, wrth gwrs, cyn cael eu cymryd ymlaen.

Tymor byr

#1 Uwchraddio Ymwybyddiaeth: ymgysylltu a llywodraethiant

Mae'r maes cyflawni cyntaf hwn yn ymwneud â gosod y sylfeini ar gyfer gweithredu ychwanegol ar gydnerthedd bwyd sifil, gan ddechrau gydag ymdrech fawr ar ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae tôn yr ymgysylltiad hwn yn hanfodol; mae'n rhaid iddo ennyn ymgysylltiad difrifol, brys â'r pwnc, a chydnabod difrifoldeb y risgiau sy'n ein hwynebu, tra hefyd yn normaleiddio'r sgwrs ac osgoi codi ofn. Mae'n rhaid iddo hefyd gydnabod gwahanol alluoedd i weithredu ar y mater, a chadw cyfiawnder a thegwch ar y blaen.

Mae'r maes cyflawni hwn hefyd yn ymwneud â chynyddu ymwybyddiaeth ymhlith cyrff cyhoeddus, i gytuno ar lywodraethiant ac arweinyddiaeth glir ar gydnerthedd bwyd. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer cydlynu a chydgyfeirio gweithgareddau ychwanegol yn effeithiol.

Amcan	Lefel	Gweithredoedd
1.1 Normaleiddio'r pwnc trwy ymgysylltu eang â'r cyhoedd	Unigolyn / Aelwyd	• Siarad am gydnerthedd bwyd â ffrindiau a theulu. • Cymryd rhan mewn cyfleoedd i ymgysylltu â'r pwnc.
	Cymuned	• Hwyluso a chymryd rhan mewn deialog am gydnerthedd bwyd • Sefydliadau perthnasol i ymhelaethu ar negeseuon a rennir gan weithredwyr rhanbarthol a chenedlaethol • Rhannu enghreifftiau a storïau o weithgaredd llawr gwlad sy'n cyfrannu eisoes at gydnerthedd bwyd • Dadfriffiadau â'r cymunedau ar ôl tarfiadau; beth weithiodd yn dda a beth na wnaeth? Beth sydd ei angen i baratoi'n well ar gyfer y tro nesaf?
	Rhanbarthol	• Arwain ymgyrch ymgysylltu â'r cyhoedd ar lefel ranbarthol i sicrhau dull seiliedig ar leoedd. Sefydliad(au) arweiniol i'w penderfynu. • Defnyddio dulliau cyfranogol i adeiladu ymgysylltiad ystyrlon ar raddfa eang ar draws sectorau, ac adeiladu dealltwriaeth o systemau bwyd lleol yn y broses. • Cynllunio, rhannu a phrofi negeseuon ar gydnerthedd bwyd sy'n berthnasol i'r rhanbarth, yn ddelfrydol wedi'i lywio gan fframwaith cenedlaethol
	Cenedlaethol	• Cynllunio, rhannu a phrofi negeseuon ar gydnerthedd bwyd i greu fframwaith naratif cenedlaethol craidd a negeseuon allweddol ar gyfer defnydd parhaus. • Darparu fframwaith trosfwaol ar gyfer ymgysylltu i sicrhau cysondeb mewn ymagwedd. • Ystyried cynhyrchu llyfryn ar gyfer pob cartref sy'n cynnwys negeseuon cydnerthedd bwyd craidd, rhestrau gwirio parodrwydd a chanllawiau. • Ariannu ymgyrch ymgysylltu fawr â'r cyhoedd ar gydnerthedd bwyd, i'w chyflawni ar lefel ranbarthol. • Ceisio cytundeb trawsbleidiol i ddull negeseuon i alluogi cysondeb negeseuon y tu hwnt i gylchoedd gwleidyddol
1.2 Sefydlu llywodraethiant	Unigolyn / Aelwyd	• Ystyried ymgysylltu â chynrychiolwyr lleol ar bwnc cydnerthedd bwyd I roi gwybod iddynt ei fod yn bwnc pwysig i chi.

ac arweinyddiaeth eglur ar gydnerthedd bwyd		
	Cymuned	• Cynghorau tref a chymuned yn weithredwyr allweddol â gwybodaeth leol, fel rhan o'r strwythur llywodraethiant ehangach.
	Rhanbarthol	• Sefydlu strwythurau llywodraethiant a chyswllt eglur ar draws lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gyda chyfrifoldebau, adnoddau, a sianeli cyfathrebu cyfredol diffiniedig.
	Cenedlaethol	• Sefydlu strwythurau llywodraethiant a chyswllt eglur ar draws lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gyda chyfrifoldebau, adnoddau a sianeli cyfathrebu cyfredol diffiniedig. Mae'n rhaid ystyried Fforymau Cydnerthedd Lleol, Awdurdodau Lleol, Partneriaethau Bwyd Lleol, Byrddau Sector Cyhoeddus, cynghorau tref a chymuned, a grwpiau cymunedol. • Integreiddio cydnerthedd bwyd yn eglur i'r strategaethau presennol a datblygu Cynllun Gweithredu Cydnerthedd Bwyd ar lefel genedlaethol (gan gynnwys strategaethau cenedlaethol ar gyfer bwyd ar lefel awdurdod lleol - gyda mandad ar ALlau i gyflawni - gan ddefnyddio protocolau ymgysylltu â'r cyhoedd presennol i osgoi dyblygu ymdrech). Dylai hyn gyd-fynd â'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud o fewn y tri bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar y dull systemau cyfan, sydd wedi nodi mynediad at fwyd fel blaenoriaeth ranbarthol. Gwnewch hyn gydag ymgysylltiad cyhoeddus priodol a gyda dulliau wedi'u teilwra ar gyfer demograffeg amrywiol.
Gwerthoedd / meddylfrydau cefnogol: Ymgysylltu gwirioneddol â'r cyhoedd, ymagweddau cyfranogol, ymagwedd systemau cyfan, cydgyfeiriad strategol, cydweithio		
Penodoldeb Rhanbarthol: Mae gan Ddyfed Powys eisoes ecosystem gynyddol o grwpiau sector cyhoeddus, partneriaethau bwyd lleol a mentrau cymunedol sy'n canolbwyntio ar gydnerthedd bwyd. Gellid defnyddio Fforwm Cydnerthedd Lleol Dyfed Powys (LRF) yn ddefnyddiol i gefnogi ymgyrch ymgysylltu genedlaethol â'r cyhoedd a negeseuon addas.		

Tymor canolig

#2 Adnabod Anghenion Bwyd: blaenoriaethu grwpiau bregus

Os yw cydnerthedd bwyd yn golygu bod pawb yn cael eu bwydo'n dda, mae'n rhaid i ni ddeall sut olwg sydd ar hyn i bobl yn ein lle – o aelwydydd a chymunedau i'r rhanbarth ehangach. Mae anghenion a dewisiadau bwyd yn wahanol ar draws poblogaethau, wedi'u llunio gan ddiwylliant, iechyd, gofynion dietegol, crefydd, oedran, fforddiadwyedd a hygyrchedd. Felly, dylai cynllunio cydnerthedd bwyd yn Nyfed-Powys adlewyrchu anghenion y bobl sy'n byw yma, ochr yn ochr â thystiolaeth ar ddeietau sy'n cefnogi iechyd dynol a'r blaned.

Mae'n rhaid i gynllunio cydnerthedd hefyd flaenoriaethu grwpiau agored i niwed. Mae anghydraddoldeb yn gwanhau cydnerthedd, ond mae wedi'i gynllunio yn ein system economaidd bresennol. Felly, dylai strategaeth cydnerthedd bwyd wrthsefyll hyn trwy flaenoriaethu cymorth i'r rhai sydd fwyaf mewn angen.

Amcan	Lefel	Gweithredoedd
2.1 Adnabod anghenion bwyd	Unigolyn / Aelwyd	• Asesu anghenion, dewisiadau a hanfodion o fewn aelwydydd. Blaenoriaethwch i hysbysu pa fwyd i'w stocio, os yn bosibl.
	Cymuned	• Llunio rhestr o anghenion ar lefel gymunedol, gan flaenoriaethu anghenion pobl agored i niwed. Ystyriwch anghenion deietegol ac anghenion symudedd (hynny yw, ar bwy allai fod angen danfoniadau).
	Rhanbarthol	• Defnyddio ddata ar ddemograffeg a hygyrchedd ac agosrwydd at wasanaethau darparu bwyd i adeiladu dealltwriaeth o anghenion bwyd ar lefel ranbarthol. (Mae Ardal Waith 1 yn gwneud rhywfaint o hyn.)
	Cenedlaethol	• Darparu canllawiau ar beth yw deiet 'da' ar lefel genedlaethol, gan ystyried iechyd dynol ac iechyd y blaned. • Cymharu hyn â data cynhyrchu cenedlaethol I adnabod anghenion bwyd ar lefel genedlaethol.
2.2 Adnabod a blaenoriaethu pobl agored I niwed	Unigolyn / Aelwyd	• Siarad â'ch cymdogion. Normaleiddio rhannu eich anghenion eich hun â chymdogion dibynadwy a gofyn am eu hanghenion nhw. • Gwybod pwy i gadw golwg arnynt. Gwiriwch yn rhagweithiol ar bobl agored i niwed neu ynysig a chysylltwch â gwasanaethau os oes angen.
	Cymuned	• Sefydliadau cymunedol i nodi gwendidau y rhai y maent yn gweithio gyda nhw ac adeiladu partneriaethau ymddiriedol â Chynghorau.
	Rhanbarthol	• Cynghorau a gwasanaethau cymdeithasol i gynorthwyo adnabod pobl agored i niwed trwy goladu gwybodaeth berthnasol a rhannu (rhywfaint) o wybodaeth yn ddiogel â phartneriaid cymunedol dibynadwy. • Datblygu systemau rhannu data diogel sy'n diogelu preifatrwydd tra'n caniatáu i eraill gydlynu cymorth yn effeithiol.
	Cenedlaethol	• Sicrhau dealltwriaeth o anghenion bwyd y sector cyhoeddus – ysgolion, ysbytai a chartrefi gofal, carchardai a lluoedd arfog. • Adnabod a darparu arweiniad ar anghenion amrediad o grwpiau demograffig i gefnogi cynllunio (e.e. fformiwla babanod)
Gwerthoedd / meddylfrydau cefnogol: Gofal, ymddiriedaeth, parch at amrywiaeth, cyd-ddibyniaeth iechyd dynol a phlanedol, cydraddoldeb		

a thegwch.
Penodoldeb Rhanbarthol: Trwy Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru (2025), mae cydnerthedd bwyd cymunedol wedi'i fframio o fewn heriau iechyd a llesiant hirdymor. Mae rhywfaint o gyllid eisoes ar waith trwy'r Partneriaethau Bwyd Lleol i wella deietau a lleihau dibyniaeth ar fanciau bwyd. Nodweddir Dyfed Powys gan boblogaeth sy'n heneiddio (y canolrif uchaf yng Nghymru) sydd wedi'i gwasgaru'n eang ac nad oes ganddi fynediad at wasanaethau. Mae hyn yn golygu grŵp mwy o bobl agored i niwed, yn aml yn cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol ac heb fawr o fynediad personol i siopau bwyd. Dylai adnabod ac ymgysylltu â'r grwpiau bregus hyn fod yn flaenoriaeth uchel.

#3 Mapio Asedau Bwyd: deall cryfderau presennol

Mae'r maes cyflawni hwn yn ymwneud â deall asedau bwyd cyfredol ar amrediad o lefelau. Gall canolbwyntio ar gryfderau presennol helpu i nodi potensial heb ei ddefnyddio, yn ogystal â nodi bylchau. Mae asedau'n amrywio o seilwaith materol, fel cyfleusterau storio, i adnoddau.

Amcan	Lefel	Gweithredoedd
3.1 Mapio asedau bwyd	Unigolyn / Aelwyd	• Adnabod pa le storio – os oes unrhyw un – sydd ar gael ar gyfer storio hanfodion yn y tymor hir, ac unrhyw stociau presennol. • Darganfod a nodi opsiynau cyflenwi bwyd gerllaw – gan gynnwys banciau bwyd, mannau bwyd am ddim, prydau cymunedol, gerddi cymunedol a cheginau, yn ogystal â siopau. • Ystyried pa addnoddau lleol all gael eu crynhoi gyda chymdogion – gwybodaeth yn ogystal â stociau bwyd.
	Cymuned	• Archwilio a mapio asedau cymunedol lleol presennol a rhai posibl, gan gynnwys: • Mannau storio - warwsau, man cymunedol, ogofâu. • Mannau casglu a chyfleusterau coginio - lleoliadau, mannau cymunedol, adeiladau y gellid eu hailbwrpasu. • Opsiynau ynni - generaduron oddi ar y grid, poptai nwy/coed • Asedau cludo – faniau, lorïau, beiciau cargo. • Pobl, lleoliadau a busnesau a allai fod yn gallu ailbwrpasu mewn argyfwng – e.e. arlwywyr symudol/gwyliau.
	Rhanbarthol	• Archwilio a mapio asedau i greu Cofrestr Asedau Bwyd Rhanbarthol, gan gynnwys: - Storio bwyd cyhoeddus a masnachol. - Mannau casglu torfol a allai fod yn hybiau rhanbarthol. - Asedau cludo – cerbydau, a meysydd parcio / mannau dosbarthu posibl. • Adnabod a chytuno (yn ffurfiol) ar yr hyn y gellid ei ailbwrpasu mewn argyfwng, e.e. llyfrgelloedd fel mannau dosbarthu, ceginau ysgol ar gyfer arlwyo.
	Cenedlaethol	• Datblygu Cofrestr Asedau Bwyd Cenedlaethol (yn y pen draw mewn cydweithrediad â gweinyddiaethau eraill y DU, yna Ewrop) – sy'n cwmpasu ymrwymiadau ar storio, stociau, logisteg dosbarthu ac adnoddau dynol.
Gwerthoedd / meddylfrydau cefnogol: Meddwl hirdymor, amlddatrys trwy ailbwrpasu, yn dechrau â chryfderau.		
Pendoldeb Rhanbarthol: Mae adran 5 yr adroddiad hwn yn nodi cryfderau ac asedau yn Nyfed Powys, yn erbyn pob un o'r pedwar dimensiwn cydnerthedd bwyd.		

Tymor hirach

#4 Datblygu seilwaith: adeiladu amrywiaeth

Mae'r maes cyflawni hwn yn ymwneud â datblygu a gwella'r seilwaith a fyddai'n cefnogi cydnerthedd mewn senario tarfu dwys ar fwyd (argyfwng), wedi'i lywio gan y mapio asedau. Mae'n cynnwys adeiladu amrywiaeth fel dull diofyn, er mwyn osgoi pwyntiau unigol o fethiant. Mae pedwar amcan, gan ganolbwyntio ar 1) storio a stociau; 2) cludo; 3) seilwaith ynni wrth gefn a 4) seilwaith cyfathrebu brys.

Amcan	Lefel	Gweithredoedd
4.1 Datblygu seilwaith storio bwyd a stociau i ateb anghenion blaenoriaeth a gafodd eu hadnabod	Unigolyn / Aelwyd	• Lle mae gofod yn caniatáu, creu stoc o fwydydd amrywiol, nad ydynt yn darfod, gan flaenoriaethu eitemau hanfodol, a gyda chynllun cylchdroi i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddefnyddiadwy. • Rhewi rhai prydau a chynnyrch ffres os yw capasiti yn caniatáu.
	Cymuned	• Creu stoc cymunedol o fwydydd amrywiol, nad ydynt yn ddarfodedig - ar gyfer 100 i 500 pryd y dydd, gyda banc o ryseitiau - ystyriwch unrhyw fodd o goginio. (*Meintiau i'w llywio gan gyd-destun lleol penodol.)*
	Rhanbarthol	• Datblygu seilwaith storio a stociau o fwydydd amrywiol, nad ydynt yn ddarfodedig ar gyfer yr holl ddemograffeg berthnasol, ar asedau'r Sir lle bo hynny'n bosibl. Blaenoriaethu anghenion grwpiau agored i niwed. • Ffermydd cyhoeddus i dreialu arallgyfeirio i mewn i storio. • Ailbwrpasu seilwaith presennol e.e. banciau bwyd.
	Cenedlaethol	• Datblygu capasiti cenedlaethol a chydlynu storio bwyd a stociau. • Darparu cymorth ariannol ar gyfer seilwaith storio rhanbarthol, gan gynnwys pŵer oddi ar y grid. • Ystyried diwygiadau cynllunio i ganiatáu cynllunio dros dro ar gyfer siopau bwyd. • Datblygu canllawiau cyhoeddus ar storio a stocio bwyd
4.2 Datblygu seilwaith cludo bwyd i'w ddefnyddio mewn ymateb i darfu ar fwyd	Unigolyn / Aelwyd	• Adnabod gyrwyr a cherbydau (gan gynnwys beiciau)
	Cymuned	• Adnabod gyrwyr a cherbydau • Cydlynu dosbarthu logisteg – e.e. siop gyfnewid rithwir • Sefydlu bysiau cymunedol/cynlluniau rhannu ceir / Deialu-am-Daith.
	Rhanbarthol	• Adnabod llwybrau trafnidiaeth allweddol a blaenoriaethu cadw'r rhain ar agor ac mewn cyflwr da. • Blaenoriaethu, cynorthwyo a galluogi modelau danfon bwyd (e.e. blychau llysiau o hyb bwyd).
	Cenedlaethol	• Cynllun ar gyfer mobileiddio awdurdodau sifil a lluoedd arfog i gefnogi llwybrau cludo. • Adnabod llwybrau cludo nwyddau â blaenoriaeth a llwybrau amgen
4.3 Datblygu seilwaith ynni wrth gefn (oddi ar y grid)	Unigolyn / Aelwyd	• Cadw torsiau wedi'u pweru gan fatrïau mewn lle hysbys.
	Cymuned	• Adeiladu capasiti systemau wrth gefn nad ydynt yn drydanol ar gyfer gwresogi bwyd a chynllunio trefniadau ar gyfer mynediad i'r gymuned e.e. Poptai llosgi coed ar gyfer coginio • Adnabod potensial ar gyfer seilwaith a rennir, fel gwefrwyr

		solar, generaduron, batris cymunedol.
	Rhanbarthol	• Adeiladu capasiti oeri wedi'i bweru gan ynni adnewyddadwy ar ffermydd ac mewn canolfannau ar gyfer storio cynnyrch ffres.
	Cenedlaethol	• Diwygio rheoliadau cynllunio i ganiatáu cynwysyddion / cynhyrchu micro a storio oddi ar y grid. • Datblygu rhwydwaith cenedlaethol o fannau gwefru oddi ar y grid • Gwella cysylltedd a chapasiti grid; galluogi mwy o ynni adnewyddadwy ar raddfa fach i gael ei dderbyn gan y grid.
4.4 Datblygu seilwaith cyfathrebiadau brys (cymdeithasol a chorfforol)	Unigolyn / Aelwyd	• Cynllunio sut i gynnal cysylltiad, yn enwedig â phobl sy'n oedrannus, all-lein, neu'n agored i niwed.
	Cymuned	• Cydlynu rhwydwaith cyfathrebu cymunedol (e.e. grwpiau WhatsApp, tudalennau cyfryngau cymdeithasol, rhestrau postio) • Sefydlu cyfathrebu annibynnol ar bŵer (e.e. hysbysfyrddau, coed teleffon, radio)
	Rhanbarthol	• Creu grwpiau cydlynu brys traws-sector, i sicrhau negeseuon cyson ar draws a rhwng y trydydd sector, a'r sectorau cyhoeddus a phreifat. • Datblygu systemau cyfathrebu wrth gefn a chynlluniau wrth gefn all-lein. • Datblygu opsiynau ar gyfer cyfathrebu ar lefel llywodraeth / rhanbarthol os nad oes pŵer neu fynediad i'r rhyngrwyd i storfa ddigidol.
	Cenedlaethol	• Cydlynu cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chymunedau, a chyda manwerthwyr, cyfanwerthwyr a'r sector lletygarwch. • Darparu seilwaith brys fel canolfannau gwefru ffôn oddi ar y grid.

Gwerthoedd / meddylfrydau cefnogol:

Mae amrywiaeth yn darparu cydnerthedd; rhannu adnoddau, ailbwrpasu.

Penodoldeb Rhanbarthol:

Mae seilwaith stocio rhanbarthol yn Nyfed Powys wedi'i wasgaru, gyda phellteroedd sylweddol rhwng cynhyrchwyr, manwerthwyr a defnyddwyr a chysylltedd cludo cyfyngedig. Gallai gwella stocio rhanbarthol a chymunedol felly wneud gwahaniaeth nodedig mewn rhai senarios.

Byddai gwella mynediad at fwyd fforddiadwy a maethlon cyn unrhyw argyfwng hefyd yn lleihau sensitifrwydd i aflonyddwch. Mae gan rai gweithredwyr bwyd rhanbarthol botensial storio a chyflenwi bwyd a dylent fod yn rhan o unrhyw gynllunio seilwaith e.e. Castell Howell, Bremenda Isaf, a Banc Bwyd Sir Benfro. Ymhlith y gweithredwyr rhanbarthol sy'n gallu treialu arallgyfeirio ffermydd mae Cyswllt Ffermio a Chynghorau Sir.

Mae'r rhanbarth hefyd mewn perygl o amrywiaeth o fygythiadau gan gynnwys llifogydd a thywydd garw. Mae colli seilwaith, pŵer, tanwydd a dŵr yn arbennig o risg uchel yn yr ardal. Mae cyfleoedd yn y lleoliad gwledig hwn i ddefnyddio e.e. stofiau coed ar gyfer coginio os bydd toriadau grid yn digwydd, felly gallai'r aelwydydd unigol hynny ddarparu cymorth pwysig yn yr amgylchiadau hyn.

#5 Paratoi cynlluniau gweithredol: ar gyfer ymateb i darfu dwys ar fwyd

Mae'r maes cyflawni hwn yn ymwneud â bod yn barod i ymateb i siociau bwyd. Mae'n rhaid gwneud cynllunio gweithredol ymlaen llaw, fel y gellir dosbarthu adnoddau mewn modd amserol, teg. Mae cynllunio cyfathrebu argyfwng hefyd yn hanfodol ar gyfer ymateb dinesig digyffro. Dylid ariannu a chefnogi logisteg yn genedlaethol (gan gynnwys rhywfaint o ddeddfwriaeth argyfwng) ac yn rhanbarthol, gyda chymunedau ac unigolion yn darparu dosbarthiad lleol.

Amcan	Lefel	Gweithredoedd
5.1 Datblygu cynlluniau dosbarthu bwyd	Unigolyn / Aelwyd	• Sicrhau bod pob aelod o'r aelwyd yn gwybod ble mae bwyd yn cael ei storio. • Rhannu bwyd ag eraill, yn enwedig cymdogion sy'n agored i niwed. • Gwirfoddoli i helpu a dosbarthu bwyd yn yr ardal leol.
	Cymuned	• Cynllun dosbarthu stoc cymunedol - angen perchnogaeth glir ar lefel leol a dylid ei lywio gan anghenion lleol. • Creu cofrestr gwirfoddolwyr, gan nodi pwy fyddai'n fodlon helpu i ddosbarthu bwyd, a math o gerbyd, ar gyfer mynediad i leoliadau anghysbell. • Prosesu cymunedol o fwyd oes silff fer.
	Rhanbarthol	• Cynllun dosbarthu stoc rhanbarthol – angen perchenogaeth glir ar lefel ranbarthol; blaenoriaethu anghenion grwpiau agored i niwed. • Cynllunio canolfannau dosbarthu - defnyddio canolfannau bwyd presennol (e.e. banciau bwyd) i sicrhau diogelwch bwyd a logisteg ymarferol. • Cynnal trefn gyhoeddus a diogelu manwerthwyr a mannau dosbarthu lle bo angen.
	Cenedlaethol	• Ystyried paratoi deddfwriaeth frys i lywio dosbarthu stociau cenedlaethol a galluogi mesurau eraill mewn amgylchiadau eithafol, megis ffyrlo, cymorth yr heddlu / milwrol, ailgyfeirio llafur, rhannu gwybodaeth am stociau bwyd gorfodol, rhanddirymu cyfraith cystadleuaeth (fel y digwyddodd yn ystod Covid). *Noder bod rhywfaint o hyn yn cael ei gwmpasu gan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl.* • Cynllunio cyllid brys i gefnogi cydlynu rhanbarthol • Ymgysylltu â manwerthwyr cenedlaethol i gytuno ar feini prawf a fyddai'n sbarduno dognu bwydydd allweddol, a dulliau trin.
5.2 Datblygu cynlluniau arlwyo torfol	Unigolyn / Aelwyd	• Adnabod pwy allai arlwyo ar gyfer grŵp o gymdogion mewn argyfwng • Gwirfoddoli I wneud arlwyo cymunedol.
	Cymuned	• Defnyddio map asedau i gynllunio lleoliadau sy'n addas ar gyfer arlwyo torfol - defnyddio ceginau cymunedol a rhannu bwyd cymunedol. • Cynllun ar gyfer storio / mynediad at offer a chyflenwadau coginio cymunedol a rennir, hynny yw, cynhwysydd llongau gydag offer hanfodol • Ymgysylltu â'r rhai sydd ag offer arlwyo e.e. gwyliau, gwestai ac ati.
	Rhanbarthol	• Cynghorau Sir i ystyried y gallu i weini prydau bwyd yn gymunedol cyn argyfwng, e.e. ailbwrpasu adeiladu iechyd awdurdodau lleol fel canolfannau cymunedol

	Cenedlaethol	• Cynllunio cyllid brys y gellir ei ysgogi'n gyflym i gefnogi cydlynu rhanbarthol. • Ystyried goblygiadau dadreoleiddio rheolau sy'n atal coginio ar danau ar gyfer toriadau pŵer estynedig – a chanllawiau diogelwch i gyd-fynd â nhw
5.3 Datblygu cynlluniau cyfathrebu argyfwng	Unigolyn / Aelwyd	• Adnabod eich rhwydwaith cymorth lleol • Cadw'n wybodus trwy sianeli dibynadwy.
	Cymuned	• Defnyddio negeswyr lleol dibynadwy a llwybrau cyfathrebu lluosog (e.e. hysbysfyrddau, radio lleol, ysgolion, sefydliadau cymunedol, dosbarthu llythyrau). • Cydlynu â banciau bwyd, pantrïau, canolfannau gorffwys a grwpiau cymunedol i rannu gwybodaeth a chymorth. • Cyhoeddi mannau cymorth allweddol ymlaen llaw, megis ble i gael mynediad at brydau poeth yn ystod argyfwng.
	Rhanbarthol	• Arweiniad clir y sector cyhoeddus ar negeseuon i'w cytuno fel rhan o drefniadau cydnerthedd llywodraethiant • Datblygu a phrofi negeseuon mewn cyd-destun lleol i adnabod negeseuon allweddol ar gyfer amrediad o senarios. • Adnabod a phartneru â negeseuwyr dibynadwy yn y rhanbarth – a allai fod yn iechyd, manwerthu, lleisiau addysgol ac ati – a all helpu i gyhoeddi cyfathrebiadau mewn argyfwng • Cynllunio sut y bydd diweddariadau byw yn cael eu darparu i sicrhau darlun clir o sefyllfaoedd sy'n esblygu ar lefel ranbarthol. • Creu sianeli cyfathrebu clir a pherthnasoedd dibynadwy rhwng cymunedau a chyrff cyhoeddus i alluogi ymatebion cyflym i darfu
	Cenedlaethol	• Datblygu a phrofi negeseuon i osod dull cenedlaethol a pharatoi negeseuon allweddol ar gyfer amrediad o senarios tarfu ar fwyd. • Adnabod a phartneru â negeswyr dibynadwy ar lefel genedlaethol – gallai fod yn lleisiau iechyd, manwerthu, addysgol ac ati – all helpu i gyhoeddi cyfathrebiadau mewn argyfwng *e.e.negeseuon addasiadau deietegol gan Gogyddion Teledu.* • Sicrhau amrediad o sianeli cyfathrebu cydnerth, gan gynnwys sianeli nad ydynt yn ddigidol. Nodi ardaloedd sydd â chysylltedd symudol neu ar-lein cyfyngedig - lle gall llinellau tir presennol fod yn hanfodol. • Rheoli camwybodaeth yn ystod argyfyngau. • Cynllunio sut y bydd diweddariadau byw yn cael eu darparu i sicrhau darlun clir o sefyllfaoedd sy'n esblygu ar lefel genedlaethol.
Gwerthoedd / meddylfrydau cefnogol: Paratoi, rhannu adnoddau, sicrhau diogelwch, cyfathrebu amserol digyffro, negeseuon gonest		
Penodoldeb Rhanbarthol: Yn Nyfed Powys mae diffyg cynlluniau bwyd brys gan gynghorau, ond mae ymatebion cryfach ar lefel gymunedol, fel banciau bwyd. Mae'r olaf yn tynnu ar botiau cyllido rhanbarthol sy'n tueddu i fod yn fach ac yn fyrdymor. Mae dibyniaeth ar wirfoddolwyr ar gyfer prosiectau bwyd o'r math hwn. Mae cydweithrediad rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus a gwirfoddol ond diffyg cysylltiad â busnesau		

preifat, yn enwedig cyflenwyr mawr a manwerthwyr.

Defnyddiodd Cyngor Sir Fynwy ysgolion fel canolfannau dosbarthu yn ystod COVID. Mae cyfleusterau eraill y cyngor yn benthyg eu hunain i fod yn ganolfannau seibiant/safleoedd dosbarthu bwyd fel y gallant goginio yn dorfol. Yng Ngheredigion, mae Hyb Cymunedol Borth yn darparu bwyd yn ystod argyfyngau.

Galluogwyr parhaus

#6 Uwchsgilio pawb: Grymuso â gwybodaeth a sgiliau

Mae'r maes cyflawni hwn yn ymwneud ag arfogi pobl â'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a fydd yn eu grymuso i gefnogi cydnerthedd bwyd sifil. Mae'n cynnwys deall bwyd a systemau bwyd, o ble mae ein bwyd yn dod a goblygiadau ehangach gwahanol ddewisiadau deietegol, yn ogystal â sgiliau ymarferol ar gyfer paratoi, rheoli ac arlwyo bwyd, gan gynnwys lleihau gwastraff bwyd a sut i fwyta'n wahanol o dan amgylchiadau cyfyngedig.

Amcan	Lefel	Gweithredoedd
6.1 Datblygu sgiliau rheoli bwyd effeithiol	Unigolyn / Aelwyd	• Meithrin sgiliau coginio gyda bwydydd sylfaenol fforddiadwy, tymhorol a chynnyrch o ffynonellau lleol. • Dysgu defnyddio gweddillion a bwyd dros ben yn greadigol i leihau gwastraff. • Datblygu sgiliau cadwraeth bwyd (piclo, eplesu, sychu) i ymestyn oes silff.
	Cymuned	• Darparu cyrsiau parhaus fforddiadwy neu am ddim mewn sgiliau tyfu, coginio a storio bwyd trwy ganolfannau cymunedol. • Cynorthwyo ysgolion i ymgorffori bwyd tymhorol, lleol i arlwyo a phrydau bwyd.
	Rhanbarthol	• Darparu cyngor clir, ymarferol i rymuso bwyta'n iach, pwysau iach a llesiant meddyliol. • Rhannu negeseuon mewn lleoliadau cyhoeddus er mwyn ychwanegu cyfreithlondeb. • Cynnig cyfleusterau am ddim neu'n ostyngol i sefydliadau sy'n cynnal cyrsiau sgiliau rheoli bwyd. • Cyd-greu bwydlenni ysgol gyda phlant i ddatblygu sgiliau cynllunio prydau bwyd.
	Cenedlaethol	• Integreiddio sgiliau bwyd i gwricwlwm ysgol, gan gynnwys pethau sylfaenol, coginio swp, a defnydd creadigol o gynhwysion. Cymerwch ymagwedd systemau bwyd cyfan, gan gynnwys o ble mae bwyd yn dod. • Gwella seilwaith a chymorth i ysgolion i ddarparu sgiliau bwyd. • Darparu rhaglenni bwyd a gweithgareddau hyblyg, wedi'u cyllido yn ystod gwyliau'r ysgol.
6.2 Datblygu sgiliau arlwyo cryf mewn argyfwng	Unigolyn / Aelwyd	• Dysgu sut i stocio, storio, coginio, a rheoli amrediad amrywiol o fwyd heb drydan.
	Cymuned	• Hyrwyddo dealltwriaeth o sut i rannu bwyd yn ddiogel. • Cydlynu galwadau ar gyfer prosesu cymunedol o ormodedd. • Darparu cyrsiau cymunedol: coginio, addysgu, arddangosiadau, arlwyo torfol. • Cyllido hyfforddiant cogyddion cymunedol/cogyddion mewn coginio ar raddfa fawr.
	Rhanbarthol	• Darparu gwybodaeth ar sut all pobl rannu eu bwyd yn ddiogel. • Gwella partneriaethau rhwng darparwyr cydnerthedd bwyd a sefydliadau addysgol.
	Cenedlaethol	• Datblygu ymgyrch i addysgu pobl ar stocio, storio, a pharatoi amrediad amrywiol o fwyd heb drydan. • Cyfathrebu os oes angen unrhyw newid mewn arfer - e.e. beth yw bwyd 'diogel' mewn argyfwng • Uwchsgilio staff arlwyo ysgolion: mwy o bwyslais ar fwyd lleol, llai o brydau wedi'u rhagbaratoi, cyfarpar gwell i gogyddion ysgolion.
6.3	Unigolyn /	• Tyfu bwyd gartref lle bo'n bosibl i feithrin sgiliau,

Grymuso pobl i dyfu llysiau	Aelwyd	hunanddibyniaeth, a gwybodaeth ymarferol.
	Cymuned	• Darparu rhaglenni hyfforddi hadau a dosbarthu (e.e., mentrau sofraniaeth hadau, Sefydliad Gaia). • Cadw gwybodaeth ffermio traddodiadol a chefnogi cynlluniau tyfu cymunedol (e.e., "benthyg gardd"). • Cyllido staff i gefnogi gerddi cymunedol a phrosiectau tyfu ysgolion.
	Rhanbarthol	Mae Awdurdodau Lleol yn cyllido staff allgymorth i gefnogi garddio mewn ysgolion: cynnal sesiynau i ddisgyblion, hyfforddi athrawon, cyflenwi hadau ac eginblanhigion, ac ati. • Mae awdurdodau lleol yn cyllido staff allgymorth i gefnogi tyfu bwyd mewn cartrefi gofal, canolfannau hamdden, lleoliadau gofal cymdeithasol. • Rhannu sgiliau rhwng Clybiau Ffermwyr Ifanc ac ymarferwyr adfywiol, gyda ffermwyr hŷn yn cael eu talu i dderbyn prentisiaid.
	Cenedlaethol	• Rhaglen addysg amrywiol a weithredir gan Lywodraeth Cymru ac a gyflwynir gan golegau a sefydliadau llai gydag elfen ymarferol gref i dyfwyr. Gyda chymorth sgiliau mewn ysgolion i ymgorffori sgiliau cynhyrchu ac ailwerthuso'r system fwyd. Dull cydgysylltiedig. • Dechrau sgiliau tyfu mewn ysgolion cynradd.
.6.4 Cyflawni newid sylweddol mewn llythrennedd systemau bwyd	Unigolyn / Aelwyd	• Dysgu am systemau bwyd a thalu sylw i darddiad y bwyd rydych chi'n ei brynu.
	Cymuned	• Darparu rhaglenni sgiliau a hyder coginio cymunedol (e.e., Cegin Y Bobl) i fagu chwilfrydedd bwyd, annog coginio cartref, ac ysbrydoli gyrfaoedd bwyd lleol. • Dangos llwybrau i aelodau'r gymuned fagu sgiliau ac aros yn eu hardal leol.
	Rhanbarthol	• Cyllido teithiau addysgol i ffermydd a chynnwys llythrennedd systemau bwyd yn strategaethau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. • Rhaglenni peilot a graddfa ar draws ysgolion, gan gydgyfeirio adnoddau a chyllid i heriau. • Hyfforddi cogyddion ac arlwywyr ysgol i wella caffael, ansawdd, ac ennyn diddordeb myfyrwyr mewn llythrennedd bwyd.
	Cenedlaethol	• Ymgorffori llythrennedd bwyd ar draws cwricwla ysgol, o'r blynyddoedd cynnar trwy addysg uwchradd, gan gynnwys tyfu, coginio a systemau bwyd cynaliadwy. • Darparu cyllid a chymorth cydgysylltiedig ar gyfer allgymorth, rhwydweithiau hyfforddiant, a chynlluniau addysg bwyd cynaliadwy. • Sicrhau cyflwyno gwersi llythrennedd bwyd cyson, cydgysylltiedig i bob plentyn rhwng 4 a 16+ oed i feithrin gwybodaeth, sgiliau ac ymwybyddiaeth ar draws addysg.
Gwerthoedd / meddylfrydau cefnogol: Mae bwyd cynaliadwy, iach yn bosibl ac yn bwysig yn y tymor byr a'r tymor hir. Grymuso dinasyddion mewn dealltwriaeth a sgiliau bwyd.		
Penodoldeb Rhanbarthol: Mae Partneriaethau Bwyd Lleol yn Nyfed Powys yn hwyluswyr allweddol hanfodol yn yr ardal drwy eu cynllunio strategol a'u haddysg a'u darpariaeth sgiliau ynghylch coginio, tyfu a lleihau gwastraff bwyd. Maen nhw wedi bod yn allweddol i greu rhwydweithiau cryf o awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, ffermydd, busnesau a thrigolion. Gellid harneisio mentrau eraill fel Cadwch Gymru'n Daclus, cynllun Ysgolion Iach a model Cegin y Bobl hefyd Mae nifer o golegau a darparwyr amgen sy'n addysgu llythrennedd systemau bwyd a sgiliau tyfu bwyd technegol, y gellid eu cefnogi'n ariannol gan gonsortiwm o Lywodraeth, Ymddiriedolaethau ac ati e.e. Coleg y Mynydd Du, Canolfan Technoleg Amgen, Gelli Aur (Coleg Sir Gâr) Yn yr un modd,		

mae nifer o rwydweithiau a sefydliadau dysgu presennol fel Cyswllt Ffermio a rhwydwaith dysgu cymheiriaid Tyfu Cymru sy'n weithgar wrth uwchsgilio tyfwyr.

#7 Cryfhau Systemau Bwyd Lleol: cefnogi cynhyrchu cynaliadwy

Mae'r maes cyflenwi hwn yn ymwneud â chynaliadwyedd ehangach cynhyrchu bwyd yng Nghymru. Mae angen i gynhyrchu bwyd fod yn amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol gynaliadwy. Mae'n ymwneud â dewisiadau defnyddwyr, llwybrau i'r farchnad, caffael cyhoeddus, cefnogi bywoliaethau cynaliadwy, ymgorffori dulliau adfywiol a chefnogi rhwydweithiau cyflenwi lleol. Mae angen i'r gymuned ffermio a thyfu yng Nghymru fod yn cymryd rhan weithredol yn y sgwrs a datblygu amrywiaeth o seilwaith cyflenwi a phrosesu lleol.

Amcan	Lefel	Gweithredoedd
7.1 Sicrhau cyflenwad cydnerth o fwyd lleol	Unigolyn / Aelwyd	• Dewis cynnyrch lleol, tymhorol. • Cefnogi uwch rwydweithiau bwyd lleol
	Cymuned	• Ymgysylltu a chynhyrchwyr lleol ar gyfer digwyddiadau a chyweithiau. • Agor ffermydd cymunedol a gerddi cymunedol i ehangu cynhyrchu lleol - Partneriaethau bwyd lleol yn cydweithio i gael gardd gymunedol ym mhob milltir sgwâr o Gymru sydd â phoblogaeth uchel?
	Rhanbarthol	• Adnabod mathau o gnydau sy'n gwrthsefyll llifogydd a sychder. • Sefydlu ffermydd sirol fel canolfannau ar gyfer garddwriaeth, prosesu, storio a dosbarthu. • Datblygu gweithfeydd prosesu rhanbarthol i gefnogi tyfwyr i gael mynediad at farchnadoedd a threialu cyfleoedd marchnad. • Cryfhau sianeli manwerthu a marchnad ffermwyr ar raddfa fach – arbrofi â marchnadoedd ffermwyr brys.
	Cenedlaethol	• Ymgorffori cydnerthedd bwyd mewn cynllunio wrth gefn a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. • Cefnogi polisïau a chyllid i sicrhau seilwaith cyflenwi lleol hirdymor.
7.2 Cynorthwyo a datblygu cynhyrchwyr a rhwydweithiau cyflenwi lleol	Unigolyn / Aelwyd	• Caffael bwyd yn uniongyrchol o ffermydd lleol lle'n bosibl.
	Cymuned	• Cydweithio trwy Bartneriaethau Bwyd Lleol i gefnogi dosbarthu cynnyrch. • Ehangu ffermydd a gerddi cymunedol i gynyddu hygyrchedd ac ymgysylltu.
	Rhanbarthol	• Cefnogi creu cwmnïau cydweithredol lleol a chynlluniau aelodaeth gyhoeddus i ddarparu incwm rhagweladwy i dyfwyr. • Sefydlu llyfrgelloedd offer/peiriannau i wella mynediad at offer ar gyfer arallgyfeirio ar ddaliadau cyhoeddus • Sefydlu llyfrgelloedd offer/peiriannau i wella mynediad at offer ar gyfer arallgyfeirio ar ddaliadau cyhoeddus • Lleihau rhwystrau cynllunio rhag gynhyrchu bwyd ar raddfa fach - Costau trwyddedu, newid defnydd, polytwneli. • Sicrhau bod gan y Cyngor Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd sy'n gefnogol ac yn wybodus, i gefnogi mwy o brosesu lleol • Annog cynghorau i gyllido caffael argyfwng gan gynhyrchwyr lleol. • Sefydlu targedau cyrff cyhoeddus ar gyfer caffael lleol.
	Cenedlaethol	• Darparu cymorth ariannol a rheoleiddio: grantiau, benthyciadau, rhyddhad dyled, cymhellion treth, hyblygrwydd cynllunio, cyflog byw sylfaenol i ffermwyr ifanc – er mwyn sicrhau sylfaen economaidd ar gyfer tyfu.

		• Rhyddhad dyled i ffermwyr ar yr amod o ildio tir i'w arallgyfeirio i gynnyrch agroecolegol - gall hyn alluogi Dyfed Powys i gynhyrchu digon o fwyd i Gymru gyfan a Gorllewin Canolbarth Lloegr. • Cyllido datrysiadau ynni (solar ar raddfa fferm, amaethfoltäig) a seilwaith ar gyfer cydnerthedd hirdymor – rôl Ynni Cymunedol Cymru. • Hyrwyddo arallgyfeirio agroecolegol a chyfathrebu gwerth cynhyrchwyr lleol. • Ymrwymo arian cychwynnol ar gyfer mesurau hirdymor a chael gwared â rhwystrau rheoleiddio. • Toriadau treth i werthwyr ffrwythau a llysiau. • Symud pwyslais polisi o allforion i gefnogi cydnerthedd. • Cefnogi cynhyrchwyr i gyfathrebu'r hyn maen nhw'n ei wneud - rhwystr rhag cyfathrebu ffordd o fyw, ymdrech waith sy'n mynd i mewn. • Mae llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn darparu grantiau a benthyciadau i ladd-dai lleol i sicrhau bod cig adfywiol yn aros yng Nghymru a ffermwyr bach traddodiadol mewn busnes. Hefyd yn cyflwyno rheoliadau cymesur ar gyfer lladd-dai lleol - costau cymesur. • Ystyried a gweithredu diwygiadau cynllunio, rheoliadau a chymorth yn ôl yr angen ar gyfer cyfleusterau fferm a storio e.e. ynni adnewyddadwy/microgynhyrchu â generaduron wrth gefn, cynllunio dros dro ar gyfer storfeydd bwyd, defnyddio lladd-dai lleol.
Gwerthoedd / meddylfrydau cefnogol: Bywoliaethau cynaliadwy – yn economaidd, ecolegol a chymdeithasol Meddwl hirdymor Cydweithio Tegwch Amlddatrys		
Penodoldeb Rhanbarthol: Mae data ar gyfer rhanbarth Dyfed Powys yn dangos gorgynhyrchu grawnfwydydd, cig, llaeth ac wyau o'i gymharu â'r galw rhanbarthol, o'i gymharu â chynhyrchiad isel iawn o ffrwythau, llysiau a chodlysiau - nad yw'n ddigonol i ateb y galw. Mae gan dri o'r pedwar Awdurdod Lleol lai na 5% o'r tir a ffermir o dan gynhyrchu garddwriaethol/cnydau - yr eithriad yw Sir Benfro ond dim ond oherwydd tyfu tatws yw hynny, felly mae amrywiaeth o gynhyrchu ar draws y rhanbarth cyfan yn isel. Mae nifer fach o gyflenwyr o Gymru yn dominyddu caffael cyhoeddus. Ceir enghreifftiau o gyflenwyr a rhaglenni unigol (e.e. Llysiau Cymreig mewn Ysgolion) sydd wedi cael defnydd da yn y rhanbarth.		

#8 Ailgydbwyso pŵer: tuag at y bobl

Mae hyn yn ymwneud â galluogi gweithredu unigol a chymunedol, trwy gyllid a chymorth priodol gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol. Byddai model creu lleoedd sy'n ystyried cyfanswm y system fwyd yn cefnogi cynllunio cydnerthedd parhaus ar y lefel hon. Mae'r ardal gyflenwi hon hefyd yn cwmpasu'r angen i reoli manwerthwyr mawr a chyrff corfforaethol mewn sefyllfaoedd argyfwng, er lles y boblogaeth leol.

Amcan	Lefel	Gweithredoedd
8.1 Cefnogi a galluogi mentrau cymunedol	Unigolyn / Aelwyd	• Mynychu a helpu i gyflwyno digwyddiadau cymunedol i sicrhau eu bod yn parhau.
	Cymuned	• Dod â phobl at ei gilydd: prydau cymunedol, digwyddiadau, curo drysau. • Model creu lleoedd (dod â phob agwedd ar fyw mewn cymuned at ei gilydd) - ymgorffori bwyd mewn cynllunio.
	Rhanbarthol	• Creu systemau i adnabod gormodedd bwyd a chysylltu ag ardaloedd a all wneud defnydd o hynny. • Creu systemau i gasglu ac ailgylchu gwastraff bwyd yn yr ardal • Dileu rhwystrau rheoleiddiol rhag gweithredu gymunedol e.e. gofynion DBS ar gyfer bod yn yrrwr danfon
	Cenedlaethol	• Grymuso cyrff lleol i gyflawni gwasanaethau. • Cyllido Partneriaethau Bwyd Lleol yn ddigonol ac ar gylchoedd hir (hynny yw, o leiaf 5 mlynedd). Mae hyn yn golygu 0.8 Cydlynydd CALl, 0.5 Swyddog cadwyni cyflenwi lleol 0.5 CALl, 0.5 Swyddog bwyd cymunedol CALl. • Cyllid cyhoeddus i droi strategaethau Llywodraeth Cymru yn weithredu drwy rolau datblygu strategaeth wedi'u hymgorffori mewn partneriaethau bwyd lleol. • Hyrwyddo newid diwylliannol o fewn y sector cyhoeddus tuag at gyfrifoldeb cymunedol a rennir, gan annog unigolion a sefydliadau i gyfrannu'n weithredol at gydnerthedd yn hytrach na dibynnu ar y wladwriaeth yn unig. Mae'r dull hwn yn pwysleisio parodrwydd ar y cyd a chefnogaeth gydfuddiannol fel cyfrifoldebau craidd, nid ychwanegiadau dewisol.
8.2 Adeiladu perthnasoedd ar draws ffiniau	Unigolyn / Aelwyd	• Adeiladu cysylltiadau trwy e.e. mynychu digwyddiadau cymunedol, fel bod perthnasoedd yn bodoli cyn bod eu hangen mewn argyfwng
	Cymuned	• Defnyddio bwyd fel ffordd gynhwysol o ddod â phobl at ei gilydd ar draws ffiniau • Dod i adnabod yr 'wynebau y tu ôl i'r bwyd" • Adnabod a chysylltu â rhwydweithiau presennol sy'n gallu cyrraedd cymunedau e.e. Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, CFfl
	Rhanbarthol	• Adeiladu partneriaethau ystyrlon â sefydliadau cymunedol a thrydydd sector • Defnyddio prosesau ymgysylltu cyfranogol seiliedig ar le i ddod â grwpiau amrywiol o bobl at ei gilydd o amgylch cydnerthedd bwyd • Fel CVC (Cyngor Gwirfoddol Sirol) cynnal cyfeiriadur / rhestr bostio o grwpiau cymunedol / trydydd sector / mentrau cymdeithasol a gwirfoddolwyr cysylltiedig.
	Cenedlaethol	• Adeiladu perthnasoedd rhwng sectorau, yn ogystal ag ar draws gwahanol lefelau llywodraeth.
8.3 Ymgysylltu â chorfforaethau	Unigolyn / Aelwyd	• Ymchwilio i foeseg gwahanol archfarchnadoedd, cefnogi gwerthwyr annibynnol pryd bynnag y bo modd.
	Cymuned	

a'u rheoleiddio	Rhanbarthol	• Lobïo llywodraeth i gefnogi cydnerthedd lleol fel blaenoriaeth dros elw corfforaethol a manwerthwyr mawr
	Cenedlaethol	• Dechrau'r sgwrs am yr angen am reoleiddio a chyfarwyddyd gan y Llywodraeth yn ystod argyfwng bwyd • Gorfodi manwerthwyr mawr i ddosbarthu bwyd fel y gallant orau yn ôl yr angen, mewn tarfu ar y cyflenwad bwyd. • Galluogi deddfwriaeth i sicrhau bod archfarchnadoedd yn cadw prisiau'n sefydlog ac yn dogni o dan gyfarwyddyd cenedlaethol • Newid rheolau y mae'n rhaid i gyflenwyr archfarchnadoedd ddinistrio gwarged (wedi'i gyfyngu gan amser?) • Rheoleiddio rheolaethau prisiau – atal gorelwa. • Cyflwyno cyfrifyddu costau go iawn i oresgyn cystadleuaeth annheg gan archfarchnadoedd. • Gwahardd prydau parod – drud a gwerth gwael – NEU ddarparu prydau parod o safon wedi'u gwneud â chynhwysion lleol, gan eu bod yn chwarae rhan. • Atal hyrwyddo opsiynau afiach – Treth ar fwydydd HFSS.

Gwerthoedd / meddylfrydau cefnogol:

Mae ymgysylltu â bwyd yn dod o ryngweithio dynol – 'does dim cymuned mewn cod bar'.
Bwyd a thir fel 'cyfoeth' ar y cyd, nid eiddo unigol
Ymddiriedaeth, cydweithio


Penodoldeb Rhanbarthol

Ar draws Dyfed Powys mae cyfoeth o ymarferion tyfu ac ailddosbarthu bwyd cymunedol, er bod y rhain yn amrywio o fewn ac ar draws rhanbarthau gyda mannau poblogaidd mewn rhai ardaloedd. Gall yr amrywiad rhanbarthol mewn seilwaith bwyd cymunedol olygu bod cymunedau sydd ei angen yn fwy yn mynd hebddo. Mae data yn awgrymu dibyniaeth uchel ar wirfoddolwyr i gyflawni prosiectau bwyd, sy'n risg.
Mae Ceredigion yn eiddgar i arbrofi â phwyllgorau uwch gydnerthedd lleol.
Mae Prydau wedi'u Bwydo'n Dda yng ngogledd Cymru yn enghraifft o brydau parod rhydd rhag prosesu trwm.

Persbectif systemau

7.5 Gall edrych ar y canfyddiadau trwy lens systemau helpu esbonio pam o'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r gweithredoedd hyn yn cynnig ymagwedd bwerus at newid. Gan dynnu ar waith Donella Meadows[107], Kania, Kramer a Senge[108] adnabyddwch chwech amod rhyngddibynnol sy'n tueddu at ddal systemau yn eu lle. Dangosir y rhain yn ffigur 7.1 isod:

Ffigur 7.1: Chwech Amod o Newid Systemau. Ffynhonnell: Kania, J. et al (2018) Dyfroedd Newid Systemau.



7.6 Mae'r ardaloedd cyflenwi a nodir yn cyffwrdd â phob un o'r chwe maes hyn. Mae llawer o newidiadau **polisi** yn cael eu cynnig, gan gynnwys (er enghraifft) newid mewn polisi amaethyddol o flaenoriaethu allforion i gryfhau systemau bwyd lleol a chydnerthedd. Byddai'r camau gweithredu ar sgiliau yn arwain at lawer o **arferion** newydd, megis cadw bwyd, a blaenoriaethu anghenion grwpiau agored i niwed yn ymyrryd mewn **llifau adnoddau** dominyddol. Mae maes cyflawni 8 yn ymwneud â newid **dynameg pŵer ac adeiladu perthnasoedd**, ac mae'r prosiect cyfan i ymgysylltu o ddifrif â'r pwnc cydnerthedd bwyd yn gofyn i ni fabwysiadu **model meddyliol** sy'n cyfaddef ein bregusrwydd.


[107] Meadows, D. Leverage Points: Places to Intervene in a System
[108] Kania, j. et al. The Water of Systems Change

7.7 Mae newidiadau mewn amodau system yn fwy tebygol o gael eu cynnal wrth weithio ar bob un o'r tair lefel o newid. Wrth lunio Strategaeth Cydnerthedd Bwyd Dyfed Powys, felly, mae'n werth sicrhau bod y camau a gymerir ymlaen yn cwmpasu pob un o'r tair lefel, ac os yn bosibl, pob un o'r chwech amod newid systemau.

Crynodeb

7.8 Mae'r wyth maes cyflawni a nodwyd i gyd yn cyfrannu at gydnerthedd bwyd sifil. Mae'r pump cyntaf yn adeiladu ar ei gilydd i ddatblygu parodrwydd ar gyfer siociau bwyd, rhywbeth y dylem ei normaleiddio fel rhan o gynllunio cydnerthedd cyffredinol, tra bod y tri olaf yn alluogwyr parhaus. Mae Ffigur 7.2 yn darparu crynodeb gweledol.

Ffigur 7.2. Crynodeb gweledol o ganfyddiadau'r gweithdy cyfranogol: meysydd cyflawni ar gyfer Dyfed Powys cydnerth o ran bwyd.



7.9 Mae'r prosiect hwn wedi dechrau ar waith meysydd cyflawni 1, 2 a 3 yn Nyfed Powys; mae angen i'r gwaith nawr gael ei roi ar raddfa.

8. 8. Argymhellion ar gyfer creu strategaeth cydnerthedd bwyd

8.1 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y strwythurau a'r prosesau llywodraethiant sy'n ofynnol i weithredu'r meysydd cyflawni a amlygwyd yn yr adran flaenorol. Mae'n cael ei dargedu'n benodol at LFPau fel prif gynullwyr y gweithgaredd hwn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod cyfyngiadau o ystyried cyfyngiadau amser ac adnoddau ac y bydd gan randdeiliaid eraill gyfrifoldeb i helpu hwyluso gweithgaredd.

8.2 Mae'r 'camau nesaf' a argymhellir yn cael eu dadansoddi yn Ffigur 8.1. Yn gryno, maen nhw fel a ganlyn:

1. Sefydlu llywodraethiant a chyfeiriad a rennir
    - Yn dilyn y gynhadledd fwyd, cwblhau'r mecanwaith llywodraethiant craidd ar gyfer cydnerthedd bwyd yn Nyfed Powys, gyda chylch gorchwyl eglur a chynrychiolaeth draws-sector.
2. Cytuno ar flaenoriaethau a diffinio meysydd cyflawni:
    - Cytuno ar flaenoriaethau, rolau a strwythurau gwneud penderfyniadau a rennir, gan osgoi dyblygu a darnio ar draws gweithgaredd.
    - Gosod amserlenni, cerrig milltir a mesurau llwyddiant clir, gan ymgorffori monitro a gwerthuso cymesur o'r cychwyn cyntaf.
    - Sicrhau bod cynlluniau'n seiliedig ar le ond wedi'u cydgyfeirio, gan ganiatáu penodoldeb ar lefel sirol o fewn fframwaith rhanbarthol cydlynol.
3. Ceisio ymatebion i'r 'cynllun'
    - Ymgynghori'n eang ar y cynllun drafft, gan gynnwys cymunedau, partneriaid cyflenwi, cynhyrchwyr a chyrff cyhoeddus, i brofi dichonoldeb ac adeiladu perchenogaeth.
    - Defnyddio ymgysylltu i nodi bylchau, mireinio gweithredoedd ac amlygu risgiau cyflawni.

4. Cytuno ar berchenogaeth ar gyfer gweithredoedd

    - Neilltuo perchnogaeth glir ar gyfer pob gweithred neu faes cyflawni, naill ai'n cael ei ddal gan LFPau, awdurdodau lleol, sefydliadau cymunedol neu bartneriaid cyflawni.
    - Egluro trefniadau rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd i leihau dyblygu a chyflawni wedi'i gydlynu gan gymorth.


5. Gweithredu camau tuag at feysydd cyflawni

    - Cyflawni camau gweithredu y cytunwyd arnynt ymlaen llaw â'r nod o gryfhau cydnerthedd system fwyd.

Parhaol: Cyfathrebu, lledaenu ac allgymorth

- Adeiladu ar y gweithgarwch cyfathrebu a marchnata a ddigwyddodd fel rhan o Brosiect Cydnerthedd Bwyd Sifil Dyfed Powys, gan lansio gweithgaredd ymgysylltu i godi ymwybyddiaeth ac adeiladu'r sylfaen o weithredwyr ymgysylltiedig a all fwydo i mewn i'r cynllun arfaethedig.

Ffigur 8.1: Siart llif llywodraethiant a phrosesau



Mae fersiwn ar-lein o'r graffeg hon ar gael yma.

9. Casgliad

9.1 Nid yw cydnerthedd bwyd yn Nyfed Powys bellach yn bryder ymylol; mae bellach yn ganolog i barodrwydd sifil, llesiant cymunedol, a chynaliadwyedd rhanbarthol hirdymor. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar draws y rhaglen ymchwil hon yn dangos, er bod gan y rhanbarth gryfderau sylweddol, gan gynnwys treftadaeth amaethyddol falch, mentrau cymunedol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn a liferi caffael cyhoeddus cryf, mae hefyd yn wynebu gwendidau strwythurol cynyddol na ellir eu hanwybyddu

9.2 Ar yr ochr gyflenwi, mae Dyfed Powys yn elwa o gapasiti cynhyrchu sylweddol mewn grawnfwydydd, tatws, cig, llaeth ac wyau. Eto i gyd mae'r system fwyd yn anghytbwys gyda garddwriaeth a chodlysiau wedi'u tangynhyrchu, capasiti prosesu wedi'i gyfyngu ac wedi'i ddosbarthu'n anwastad, a logisteg, ynni a swyddogaethau storio critigol yn dibynnu'n fawr ar ddarpariaeth o'r tu allan i'r rhanbarth. Mae'r gwendidau hyn yn gadael Dyfed Powys yn agored i siociau dwys a newid strwythurol hirdymor. Mae aflonyddwch sy'n cael ei yrru gan yr hinsawdd, cyflenwad ynni ac anwadalrwydd prisiau, a dibyniaeth ar drafnidiaeth allanol yn peri risgiau ychwanegol i sefydlogrwydd cyflenwi bwyd.

9.3 O ran y galw, mae'r rhanbarth yn dangos enghreifftiau addawol o gaffael lleol ac arweinyddiaeth yn y sector cyhoeddus - yn fwyaf arbennig trwy raglenni fel Llysiau Cymru mewn Ysgolion. Fodd bynnag, mae cydnerthedd lefel aelwydydd yn parhau i fod yn isel. Mae pwysau fforddiadwyedd, ynysu gwledig, trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig, a mynediad anghyson at fwyd iach, fforddiadwy yn creu anghydraddoldebau sylweddol. Mae llawer o aelwydydd, yn enwedig cymunedau incwm isel ac ynysig yn ddaearyddol, yn parhau i fod yn sensitif iawn i siociau prisiau a tharfiadau ar gyflenwi.

9.4 Mae'r dirwedd llywodraethiant a pholisi yn datgelu momentwm calonogol ond nid oes ganddo gydlyniad, cysondeb nac adnoddau tymor hir. Mae Partneriaethau Bwyd Lleol yn chwarae rôl gynyddol bwysig ar draws sectorau, ond maent yn cael eu cyfyngu gan gylchoedd cyllido byr, cyfrifoldebau tameidiog, ac integreiddio cyfyngedig â strwythurau cynllunio argyfwng fel Fforymau Cydnerthedd Lleol. Yn nodedig, mae cynllunio bwyd brys yn parhau i fod yn fach iawn, ac mae ymgysylltu â manwerthwyr cenedlaethol mawr, sy'n

dod yn weithredwyr hanfodol mewn unrhyw senario argyfwng, yn absennol i raddau helaeth.

9.5 Seilwaith cymunedol a chymdeithasol y rhanbarth yw un o'i asedau mwyaf. Amrediad eang o fentrau dan arweiniad y gymuned; mae grwpiau sy'n tyfu, banciau bwyd, ceginau cymunedol, canolfannau a rhwydweithiau, i gyd yn cynnig rhwydi diogelwch lleol ac yn adeiladu cyfalaf cymdeithasol. Ond mae'r cryfder hwn yn fregus, gyda gorddibyniaeth ar wirfoddolwyr, dosbarthiad anwastad o wasanaethau ar draws trefi ac ardaloedd gwledig, colli sgiliau tyfu a choginio, ac ymgysylltu annigonol â grwpiau yr effeithir arnynt fwyaf gan ansicrwydd bwyd. Mae'r ffactorau hyn i gyd yn cyflwyno risgiau i gydnerthedd tymor hir, ond gellir mynd i'r afael â llawer ohonynt.

9.6 Mae'r ymchwil yn nodi gweledigaeth glir a rennir yn eang ar gyfer Dyfed Powys cydnerth o ran bwyd, gyda system fwyd amrywiol a datganoledig a chynhyrchu lleol cryfach (yn enwedig garddwriaeth) a gefnogir gan ganolfannau prosesu a dosbarthu rhanbarthol. Mae rhanddeiliaid yn rhagweld cymunedau sydd â'r sgiliau a'r hyder i goginio, tyfu a chefnogi ei gilydd, gyda chefnogaeth system lywodraethiant sy'n trin bwyd fel seilwaith hanfodol - i gyd wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad hirdymor ac atebolrwydd a rennir.

9.7 Mae'r wyth maes cyflawni a ddatblygwyd trwy weithdai cyfranogol yn amlinellu map ffordd ymarferol, fesul cam ar gyfer cyflawni'r weledigaeth hon: graddio ymwybyddiaeth y cyhoedd a mapio asedau bwyd, datblygu seilwaith ar gyfer storio, trafnidiaeth, ynni a chyfathrebu, gwella sgiliau ac addysg, cryfhau cadwyni cyflenwi lleol, ac ailgydbwyso pŵer tuag at gymunedau. Mae'r meysydd cyflenwi hyn yn cynnig sail gydlynol ar gyfer datblygu Strategaeth Cydnerthedd Bwyd Sifil ar gyfer y rhanbarth.

9.8 Mae'r adroddiad hwn yn sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer y Strategaeth honno. Mae’n rhaid i'r cam nesaf ganolbwyntio ar gydweithio i ymgorffori llywodraethiant cryf, cydgyfeirio blaenoriaethau ar lefel sirol o fewn fframwaith rhanbarthol, a sicrhau adnoddau hirdymor i gyflawni newid systemig. Trwy ymrwymo i gydlynu strategol, cynllunio cyfranogol, a buddsoddiad parhaus, gall Dyfed Powys adeiladu system fwyd sy'n gallu gwrthsefyll siociau, addasu i newid hirdymor, a chefnogi llesiant pawb sy'n byw yma - nawr ac am

genedlaethau i ddod.

MILLER
Research Evaluation Consulting

Centre for Alternative Technology
Conolfon y Dechnoleg Amgen